Bowlby J. (1988). *Attachment and Loss, Volume 1: Attachment.* **Hogarth Press: London.** (Original work published in 1969)

Bion. W. (1962). *Learning from Experience.* **Heinmann: London.**

Bombèr, L. (2007). *Inside I'm Hurting: Practical strategies for supporting children with attachment difficulties in schools.* **Worth Publishing: London.**

Bombèr, L. (2011). *What About Me? Inclusive strategies to support pupils with attachment difficulties make it through the school day.* **Worth Publishing: London.**

Bombèr, L. & Hughes, D. (2013). *Settling to learn: Settling troubled pupils to learn: Why relationships matter in school.* **Worth Publishing: London.**

Delaney, M. (2009). *Teaching the Unteachable: Practical ideas to give teachers hope and help when behaviour management strategies fail.* **Worth Publishing: London**.

Department for Children, Schools and Families. (2009). *Improving the attainment of children looked after in primary schools: Guidance for Schools.*
https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment data/file/190244/01047-2009.pdf

Department for Children, Schools and Families. (2009). *Improving the attainment of looked after young people in secondary schools: Guidance for Schools.*
https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment data/file/190241/01048-2009.pdf

Department for Education. (2013). *Statutory Guidance on Adoption for local authorities, voluntary adoption agencies and adoption support agencies.*
https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment data/file/270100/adoption statutory guidance 2013.pdf

Department for Education. (2014). *Promoting the education of children looked after – statutory guidance for local authorities.*
https://www.gov.uk/government/publications/promoting-the-education-of-looked-after-children

Douglas, H. (2011). *Solihull Approach. Course for Foster Carers: Understanding your foster child's behaviour. Supporting foster carer / child relationships.* **Rogers Associates** (2013).

Geddes, H. (2006). *Attachment in the Classroom: The links between children's early experience, well-being and performance in school.* **Worth Publishing: London.**

Golding, K. (2012). *Observing children with attachment difficulties in school: a tool for identifying and supporting emotional and social difficulties in children aged 5-11.* **Jessica Kingsley Publishers: London.**

Higgins, S., Katsipataki, M., Kokotsaki, D., Coleman, R., Major, L.E., & Coe, R. (2014). *The Sutton Trust-Education Endowment Foundation Teaching and Learning Toolkit.* **Education Endowment Foundation: London.**

Levy, M. & Orlans, M. (1998). *Attachment, Trauma, and Healing: Understanding and Treating Attachment Disorder in Children and Families.* Child Welfare League of America, Inc: Washington, DC.

Mannay, D., Staples, E., Hallett, S., Roberts, L., Rees, A., Evans, R. & Andrews, D. (2015). *Understanding the educational experiences and opinions, attainment, achievement and aspirations of children looked after in Wales.* **Social Research Number: 62/2015.**

Marshall, N. (2014). *The Teacher's Introduction to Attachment: Practical essentials for teachers, carers and school support staff.* **Jessica Kingsley Publishers: London.**

Mosley, J. & Grogan R. (2009). *The Big Book of Calmers.* **Positive Press.**

National Institute For Health and Clinical Excellence (2015). *Children's attachment: attachment in children and young people who are adopted from care, in care or at high risk of going into care.* www. nice.org.uk/guidance/ng26

O'Higgins, A., Sebba, J. & Luke, N. (2015). *What is the relationship between being in care and the educational outcomes of children? An international systematic review.* **Rees Centre, University of Oxford.** http://www.psy.ox.ac.uk/publications/698639

Perry, A. (Ed.) (2009). *Teenagers and Attachment: Helping adolescents engage with life and learning.* **Worth Publishing: London.**

Sharp, P. (2001). *Nurturing emotional literacy.* **David Fulton: London.**

Siegel, D. J. (2012). *The Developing Mind: Second edition.* **Guilford Press: New York.**

Welsh Government (2007). Towards a Stable Life and Brighter Future. www. gov.wales/docs/caecd/publications/110317stablen.pdf

Welsh Government. (2013). *School Admissions Code: Statutory Code.* Document no: 005/2013.

Welsh Government. (2015a). *Consultation document: Raising the Ambitions and Educational Attainment of Children who are Looked After in Wales. Number: WG 24124.*

Welsh Government. (2016). *Social Services and Well-being (Wales) Act (2014)*

Levy, M. & Orlans, M. (1998). *Attachment, Trauma, and Healing: Understanding and Treating Attachment Disorder in Children and Families.* Child Welfare League of America, Inc: Washington, DC.

Mannay, D., Staples, E., Hallett, S., Roberts, L., Rees, A., Evans, R. & Andrews, D. (2015). *Understanding the educational experiences and opinions, attainment, achievement and aspirations of children looked after in Wales.* **Rhif Ymchwil Cymdeithasol: 62/2015.**

Marshall, N. (2014). *The Teacher's Introduction to Attachment: Practical essentials for teachers, carers and school support staff.* **Jessica Kingsley Publishers: London.**

Mosley, J. & Grogan R. (2009). *The Big Book of Calmers.* **Positive Press.**

National Institute For Health and Clinical Excellence (2015). *Children's attachment: attachment in children and young people who are adopted from care, in care or at high risk of going into care.* www. nice.org.uk/guidance/ng26

Rhif Ymchwil Cymdeithasol (2014). *Promoting Positive Mental Health with Children Looked After in Northamptonshire Schools.* http://www.northamptonshire.gov.uk/en/councilservices/children/virtual- school/Documents/PDF%20 Documents/pdf%20PPMHLAC281014.pdf

O'Higgins, A., Sebba, J. & Luke, N. (2015). *What is the relationship between being in care and the educational outcomes of children? An international systematic review.* **Canolfan Rees, Prifysgol Rhydychen.** http://reescentre.education.ox.ac.uk/research/publications/what-is-the-relationship-between-being-in-care-and-the-educational-outcomes-of-children/

Perry, A. (Ed.) (2009). *Teenagers and Attachment: Helping adolescents engage with life and learning.* **Worth Publishing: Llundain.**

Sharp, P. (2001). *Nurturing emotional literacy.* **David Fulton: Llundain.**

Siegel, D. J. (2012). *The Developing Mind: Second edition.* **Guilford Press: Efrog Newydd.**

Llywodraeth Cymru (2007). *Tuag at fywyd sefydlog a dyfodol gwell.* www. gov.wales/docs/caecd/publications/110317stablen.pdf

Llywodraeth Cymru. (2013). *School Admissions Code: Statutory Code.* Document no: 005/2013.

Llywodraeth Cymru. (2015a). *Dogfen ymgynghori: Codi uchelgais a chyrhaeddiad addysgol plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru. Rhif: WG 24124.*

Llywodraeth Cymru. (2016). *Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) (2014)*

Ainsworth, M. (1982). *Attachment–retrospect and prospect.* In Parkes and Stevenson – Hinde (Eds). The Place of Attachment in Human Behaviour. **Routledge: Llundain.**

Bowlby J. (1988). *Attachment and Loss, Volume 1: Attachment.* **Hogarth Press: Llundain.** (Original work published in 1969)

Bion. W. (1962). *Learning from Experience.* **Heinmann: Llundain.**

Bombèr, L. (2007). *Inside I'm Hurting: Practical strategies for supporting children with attachment difficulties in schools.* **Worth Publishing: Llundain.**

Bombèr, L. (2011). *What About Me? Inclusive strategies to support pupils with attachment difficulties make it through the school day.* **Worth Publishing: Llundain.**

Bombèr, L. & Hughes, D. (2013). *Settling to learn: Settling troubled pupils to learn: Why relationships matter in school.* **Worth Publishing: Llundain.**

Delaney, M. (2009). *Teaching the Unteachable: Practical ideas to give teachers hope and help when behaviour management strategies fail.* **Worth Publishing: Llundain**.

Yr Adran Blant, Ysgolion a Theuluoedd. (2009). *Improving the attainment of children looked after in primary schools: Guidance for Schools.*
https://www.gov.uk/government/publications/improving-the-attainment-of-looked-after-children-in-primary-schools-guidance-for-schools

Yr Adran Blant, Ysgolion a Theuluoedd. (2009). *Improving the attainment of looked after young people in secondary schools: Guidance for Schools.*
https://www.gov.uk/government/publications/improving-the-attainment-of-looked-after-children-in-secondary-schools-guidance-for-schools

Yr Adran Addysg. (2013). *Statutory Guidance on Adoption for local authorities, voluntary adoption agencies and adoption support agencies.*
https//www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/270100/adoption_statutory_guidance_2013.pdf

Yr Adran Addysg. (2014). *Promoting the education of children looked after – statutory guidance for local authorities.*
https://www.gov.uk/government/publications/promoting-the-education-of-looked-after-children

Douglas, H. (2011). *Solihull Approach. Course for Foster Carers: Understanding your foster child's behaviour. Supporting foster carer / child relationships.* **Rogers Associates** (2013).

Geddes, H. (2006). *Attachment in the Classroom: The links between children's early experience, well-being and performance in school.* **Worth Publishing: Llundain.**

Golding, K. (2012). *Observing children with attachment difficulties in school: a tool for identifying and supporting emotional and social difficulties in children aged 5-11.* **Jessica Kingsley Publishers: Llundain.**

Higgins, S., Katsipataki, M., Kokotsaki, D., Coleman, R., Major, L.E., & Coe, R. (2014). *The Sutton Trust-Education Endowment Foundation Teaching and Learning Toolkit.* **Education Endowment Foundation: Llundain.**

Pennod Chwech

Cyfeiriadau

ADNODDAU SY'N DDEFNYDDIOL WRTH WEITHIO GYDA PDG

A. Kelly. (2003). Talkabout – Developing Social Communication Skills. **Speechmark Publishing Ltd.**

A. Kelly. (2003). Talkabout –Building self esteem and relationship skills. **Speechmark Publishing Ltd.**

J. Mosley and R. Grogan. (2009). The Big Book of Calmers. **Positive Press.**

M. Silver. (2013). Attachment in common sense and doodles. A Practical Guide. **Jessica Kingsley: Llundain.**

M. Sunderland. (2001). Helping Children with Feelings series. **Speechmark Publishing Ltd.**

M. Sunderland. (2001, 2003). Stories for Troubled Children series. **Speechmark Publishing Ltd.**

P. Wilson. (1996). The Little Book of Calm. **Penguin Books: Llundain.**

P. Wilson. (1996). The Little Book of Hope. **Penguin Books: Llundain.**

W.I.S.E. Up! Powerbook i blant 6-12 oed, y gellir ei brynu'n uniongyrchol o'r Ganolfan: The Center for Adoption Support and Education, Inc. (C.A.S.E.) ac a gyhoeddwyd gan The Center for Adoption Support and Education, Inc., (2000).

Making a Difference A Guide for the Designated Person for Looked After Children in Schools (2017). https://gov.wales/sites/default/files/publications/2018-11/making-a-difference-a-guide-for-the-designated-person-for-looked-after-children-in-schools.pdf

Cliciwch i weld y fersiwn Cymraeg:
gwneud-gwahaniaeth-canllaw-i-r-person-dynodedig-ar-gyfer-plant-sy-n-derbyn-gofal-mewn-ysgolion.pdf (llyw.cymru)

SEFYDLIADAU DEFNYDDIOL

Adoption UK

Sefydliad Prydeinig ar gyfer Mabwysiadu a Maethu / British Association for Adoption and Fostering

Canolfan Iechyd Meddwl Plant / Centre for Child Mental Health

Family Futures

Rhwydwaith Maethu DU / Foster Network UK

Rhwydwaith Grŵp Meithrin/ Nurture Group Network

Canolfan Ôl-fabwyiadu/ Post- Adoption Centre

Winston's Wish

Yellow Kite

POBL A GWASANAETHAU A ALL HELPU

Ceir Tîm Addysg PDG yn RhCT a MT sy'n gallu'ch helpu a'ch cynghori ar y rhan fwyaf o faterion. Pryd bynnag y bydd unrhyw beth yn eich poeni chi ynghylch PDG yn eich gofal neu os byddwch am ddarganfod rhywbeth yna cysylltwch â'r tîm hwn. Os na allant eich helpu chi eu hunain, gallant gyfeirio chi at gymorth gan rywun arall.

Dyma'r manylion cyswllt:

Merthyr Tudful,
Jess Jones Cydlynydd Addysg PDG
Yst 126, Uned 5, Parc Busnes Triongl,
Pentre-bach, Merthyr Tudful, CF48 4TQ
01685 724980 / / 07711909910
Jessica.Jones@Merthyr.gov.uk

Rhondda Cynon Taf,
Hannah Bevan Cydlynydd Addysg PDG
Ty Trevithick, Abercynon,
Aberpennar, CF45 4UQ
01443 744333 / 07786 523939
Hannah.m.bevan@rctcbc.gov.uk

RHAI LLYFRAU DEFNYDDIOL I DDARGANFOD RHAGOR AM YR HYN A DRAFODWYD YN YR ADNODD HWN

Attachment in the Classroom: The links between children's early experience, well-being and performance in school *gan Heather Geddes (2006).*

Inside I'm hurting: Practical strategies for supporting children with attachment difficulties in schools *gan Louise Bombèr (2007).*

What About Me? Inclusive Strategies to Support Pupils with Attachment Difficulties make it Through the School *gan Louise Bombèr (2011).*

Observing children with attachment difficulties in school: a tool for identifying and supporting emotional and social difficulties in children aged 5-11 *gan Kim Golding (2012).*

The Teacher's Introduction to Attachment: Practical Essentials for Teachers, Carers and School Support Staff *gan Nicola Marshall (2014).*

Why can't my child behave? *gan Amber Elliott (2013) - Yn arbennig o ddefnyddiol i ofalwyr maeth a rhieni maeth*

My Social Stories Book *gan Carol Gray (2002).*

Teaching the Unteachable: Practical ideas to give teachers hope and help when behaviour management strategies fail *gan Marie Delaney (2009).*

Creating Loving Attachments: Parenting with PACE to nurture Confidence and Security in the Troubled Child *gan Dan Hughes (2012).*

Inventing Ourselves: The Secret Life of the Teenage Brain *gan Sarah Jayne Blackemore (2019).*

Distressed or Deliberately Defiant *gan Judith Howard (2013).*

The Attachment Aware School Series *gan Louise Bombèr (2016).*

Pennod Pump

Ble i gael cyngor, cefnogaeth a gwybodaeth bellach

Paratoi adroddiadau
✓ Os medrwch fynychu cyfarfod, mae adroddiad yn gymorth mawr; ✓ Ni ddylai'r adroddiad gynnwys unrhyw beth a fydd yn syndod i'r plentyn yn yr adolygiad - sicrhewch ei fod yn ymwybodol o'r hyn yr ydych wedi ei ddweud; ✓ Darparwch y darlun llawn: academaidd (cyraeddiadau a thargedau)/perthnasau cymdeithasol/materion emosiynol/ymddygiad/presenoldeb; ✓ Cynhwyswch y canlyniadau meddal yn ogystal â'r data caled; ✓ Byddwch yn gadarnhaol/gonest/sensitif; ✓ Peidiwch â chael eich dylanwadu gan safbwyntiau eraill; a ✓ Chefnogwch yr hyn yr ydych yn ei ddweud, e.e. os oes problemau ymddygiad, darparwch Gynllun Ymddygiad Unigol sy'n dangos yr hyn yr ydych yn eu gwneud.

RHAI NEGESEUON ALLWEDDOL

"Mae pob diwrnod yn ddiwrnod newydd"

"Rheolwch eich emosiynau"

"Dewiswch eich brwydrau"

"Meddyliwch am eu pryderon a'u heriau"

"Peidiwch â gwneud sylwadau personol – mae hyn o achos ymddygiad, nid y plentyn"

"Cofiwch, nid bai'r plentyn yw ei fod mewn gofal"

Sylw i Gloi:

Diolch yn fawr i chi am gymryd amser i edrych ar y ddogfen hon. Rydym yn gobeithio ei bod wedi cyflawni ei swyddogaeth a gwella'ch gwybodaeth a'ch dealltwriaeth o'r hyn y gellir ei wneud i gefnogi plant a phobl ifanc sydd, neu wedi bod, mewn gofal.

Hoffem ddod â'r adnodd hwn i ben â sylw treiddgar ein PDG:

"Gallwch ein trin ni yn yr un modd ond eto'n wahanol"

Beth sy'n gwneud ysgol yn Ysgol Gyfeillgar i PDG?
✓ Sicrhau fod y PDG yn credu/teimlo eu bod yn perthyn i'r ysgol, eu bod yn teimlo'n ddiogel, yn arbennig a'u bod yn cael eu gofalu amdanynt bob amser; ✓ Meddu ar wybodaeth allweddol ynghylch PDG, e.e. statws gofal, cefndir; ; ✓ Creu dulliau gwaith unigryw i ddiwallu anghenion unigol plentyn; ✓ Sefydlu, esbonio a chynnal trefn reolaidd gyda phlant; ✓ Gorffen bob dydd yn gadarnhaol; ✓ Bod yn wyliadwrus o gyfnodau heb strwythur: • Darparu lle diogel i'r PDG fynd iddo os oes angen; • Rhoi swydd iddynt i'w gwneud; • Cynllunio eu gweithgareddau; a • Defnyddio bydis. . ✓ Treulio amser ar sgil cymdeithasol sylfaenol y byddai eraill yn ei ddysgu yn y cartref, e.e. ymddygiad wrth y bwrdd bwyd/gêmau bwrdd/helpu gyda thasgau; ✓ Defnyddio llyfryn cartref yr ysgol ond sicrhewch ei fod yn gadarnhaol, dim yn rhestr yn unig o broblemau'r dydd. Pwysleisiwch y newyddion da yn ogystal â'r pryderon; ✓ Sicrhewch eich bod yn gwybod pwy i gysylltu â nhw am gefnogaeth ychwanegol pan fydd ei angen; ✓ Sicrhewch eich bod yn deall y derminoleg (fel y nodir ym Mhennod Un); ✓ Cyfathrebu; ✓ Defnyddiwch GDD PDG a ffurfiau cyllido ychwanegol eraill yn effeithiol; a ✓ **Cymerwch gyfrifoldeb a pheidiwch â beio eraill o hyd pan na fydd pethau'n mynd yn dda.**
Dylai pob ysgol. . .
✓ Wrando ar safbwyntiau PDG; ✓ Adeiladu perthynas â gofalwyr a chydweithio'n agos er mwyn datrys heriau; ✓ Cael oedolion sy'n cymryd cyfrifoldeb am eu rheoliadau emosiynol eu hunain; ✓ Bod yn wyliadwrus o'r hyn y mae plant eraill yn eu dweud wrth PDG; ✓ Datrys agweddau negyddol tuag at PDG yn yr un modd ag y byddai ymateb yn cael ei wneud am hiliaeth; ✓ Ymdrin â lles, iechyd meddwl a pherthynas cymdeithasol yn ogystal â materion academaidd; ✓ Mynychu Adolygiadau PDG a rhannu'r wybodaeth gyda staff allweddol; ✓ Adnabod pwysigrwydd y Cynllun Addysg Personol – mae'n ddogfen bwysig, nid ymarferiad ar bapur; ✓ Cydnabod cyfrifoldebau fel Rhiant Corfforaethol - trin y PDG yn yr un modd ag y byddech yn trin eich plant eich hunain; ✓ Blaenoriaethu'r PDG am gefnogaeth ychwanegol lle y maent ei hangen a pheidio aros nes y bydd pethau'n rhy hwyr; ✓ Sicrhau hyfforddiant cyson ar gyfer yr ysgol gyfan; a ✓ Rhoi amser i athrawon dynodedig PDG i gyflawni eu cyfrifoldebau;
Gweithio gyda Gweithiwr Cymdeithasol
✓ Dod i adnabod Gweithiwr Cymdeithasol eich plentyn – maent yn bobl bwysig ym mywydau'r PDG; ✓ Gweithio gyda hwy er mwyn sicrhau dull cydgysylltiol o weithio; a ✓ Chofio, fel gyda phob ymarferwr, eu bod i gyd yn wahanol – peidiwch â chymryd arnoch, gan i chi adnabod un nad ydych wedi rhoi gwerth ar y ffaith 'eu bod i gyd yr un fath.'

Meysydd lle allai ysgolion wneud yn well:

"Sicrhewch fod gofalwyr yn cynorthwyo'r plant gartref – gyda darllen, sgiliau rhifedd a gwella eu hymddygiad yn yr ysgol"

"Dylai a gallai ysgolion uwchradd gyfathrebu sylwadau cadarnhaol, ddim cwyno a thynnu sylw at y negyddol o hyd. Hefyd, gallent ganolbwyntio'n fwy ar y pethau bychain sy'n dda; defnyddiwch systemau gwahanol yn fwy effeithiol, e.e. neges destun/e-bost/sgyrsiau ffôn/ dyddiaduron. Mae gweithred fach yn mynd yn bell!"

"Dylai athrawon gael hyfforddiant dysgu, ar y dechrau ac wrth iddynt ddatblygu yn eu gyrfaoedd. Nid ydynt yn gwybod digon am ddatblygiad ac ymlyniad. Dylent ddefnyddio'r hyn y maent wedi eu dysgu."

"Mwy o ffocws ar addysgu plant fod bywydau cartref pawb yn wahanol - nid pawb sy'n byw gartref gyda'u mam a'u tad"

"Dylai athrawon gael disgwyliadau uwch o bob PDG"

SAFBWYNTIAU GWAHANOL YMARFERWYR SY'N GWEITHIO AGOSAF AT PDG MEWN YSGOLION.

Bûm hefyd yn cwrdd â nifer o ymarferwyr gwahanol sy'n cefnogi PDG megis y Person Dynodedig; aelodau o ALl, Timau Cefnogi Addysg PDG; Seicolegwyr Addysg arbenigol; Gweithwyr Cymdeithasol a Swyddogion Adolygu Annibynnol. Dyma'u cynghorion ar gyfer Ysgolion sy'n Ystyrlon o PDG:

Y Rhwystrau y gall ysgolion eu cyflwyno
Prinder cyfathrebu effeithiol, felly. . . • Dylid cydnabod hanes a chefndir; • Gwybodaeth bwysig ddim yn cyrraedd y bobl iawn; ac • Ysgolion ddim yn trosglwyddo gwybodaeth am orffennol a hanes addysgol plentyn. Agweddau negyddol: " Mae gennym ni oll broblemau" "Nid ydw i'n weithiwr cymdeithasol/therapydd/arbenigwr" "Nid yw'n deg ar y plant eraill yn yr ysgol" "Ni ddylem ni orfod cael plant fel yna yma" Prinder hyfforddiant, gwybodaeth ac ymwybyddiaeth o anghenion cyffredinol PDG. . **Tueddiad i gredu fod plentyn yn hapus os nad oes trafferthion amlwg ond dan yr wyneb, gallai fod pryderon dybryd.**

BETH MAE GOFALWYR MAETH (GM) AM I NI EI WYBOD?

CYFEIRIODD Y GM Y BÛM YN SIARAD Â HWY AM BROFIADAU CADARNHAOL IAWN YR OEDDENT WEDI EU PROFI GYDAG YSGOLION, YN ENWEDIG YSGOLION CYNRADD. ROEDDENT YN HAPUS GYDA'R GEFNOGAETH YCHWANEGOL A'R CYMORTH Y CAFODD Y PLANT A THEIMLWYD FOD AMBELL YSGOL YN OFALGAR IAWN.

Elfennau sy'n gymorth i PDG fod yn hapus yn yr ysgol:

Oedolion 'caredig'

Mae plant yn yr ysgol am y rhan fwyaf o'r dydd. Os yw oedolyn yn ymddwyn yn negyddol tuag atynt, mae'n rhaid iddynt ddelio â hyn am amser hir.

Pan fydd athrawon yn ceisio deall y plentyn

Maent yn gwneud defnydd effeithiol o sbectol 'fy mywyd.'

Plant yn derbyn cyfrifoldebau

Cael swydd a theimlo'n bwysig e.e. cynnau'r cyfrifiadur/cynorthwyydd y dydd.

Trin PDG yn gydradd

Gadewch iddynt gymysgu ond gwahaniaethwch hwy pan fydd hynny'n angenrheidiol..

Cydnabyddiaeth fod pawb yn wahano

Peidio meddwl fod pob PDG yr un fath, e.e. systemau gwobrwyo sydd wedi eu creu ar gyfer yr unigolyn.

Cydgysylltiad gyda GM cyn rhai gweithgareddau

Fel y medrwch gytuno sut i'w reoli e.e. gwaith Coeden Deuluol - gallai fod yn well petai modd i'r plentyn greu dwy goeden - un ar gyfer y teulu gofal maeth a llall ar gyfer y teulu genedigol.

Sensitifrwydd gyda rhai digwyddiadau

e.e. Sul y Mamau / Nadolig. Gweithiwch mewn partneriaeth â'r GM er mwyn meddwl sut y dylid eu rheoli. Os oes pethau arbennig yn cael eu gwneud e.e. Cerdyn Nadolig, caniatewch iddynt wneud dau os oes angen. .

Caniatewch i'r plant rannu straeon eu bywydau os ydynt am wneud hynny

Byddwch yn wyliadwrus y dylai hyn gael ei reoli mewn modd sensitif.

Penderfynwch gyda'r GM beth maent am gael eu galw a defnyddiwch hyn gyda'r plentyn

Defnyddiwch Lyfrau Cartref yr Ysgol er mwyn cyfathrebu

Ond sicrhewch fod yma sylwadau cadarnhaol yn ogystal â phethau eraill.

Trefnwch gwrdd â'r GM cyn ac ar ôl yr ysgol gymaint ag y medrwchh

Yn enwedig yn ystod cyfnodau anodd.

Croesawch y GM i'r ysgol ar gyfer digwyddiadau gwahanol

e.e. Ffeiriau/Cyngherddau/Diwrnod Mabolgampau.

Cynnwys y GM mewn cyfarfodydd ac adolygiadau

Adnabod pwysigrwydd perthnasau ag eraill

Cymorth i'r plentyn er mwyn ei ddysgu i wneud a chadw cyfeillgarwch..

Mewn Ysgol Uwchradd, dylai fod un neu ddau athro allweddol (neu bennaeth blwyddyn). Dylai'r person hwn fod ar gael pan fydd y PDG angen siarad. Dylent hefyd wirio'n aml fod y PDG yn iawn.

"Gwybod pwy i fynd ato yn yr ysgol os fyd angen help arnaf."

"Pennaeth sy'n deall fy sefyllfa."

"Dylai athrawon adnabod yr arwyddion os nad yw rhywun yn iawn ac ymateb."

Mae'n hollbwysig i blant sy'n derbyn gofal gael eu gweld yr un fath â phlant nad yw'n cael eu maethu. Mae'n bwysig fod staff yr ysgol yn trin plant sy'n derbyn gofal yn yr un modd â disgyblion eraill a bod plant a phobl ifanc yn cael eu trin yn deg.

"Athrawon sy'n eich trin yr un fath â phob disgybl arall."

"Edrych ar ôl pawb, nid dim ond plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal. Ond sicrhau eu bod yn trin plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal, yn deg."

"Ddim eisiau cael fy nhrin fel mêt ond yr un fath â phawb arall, fel oedolyn ifanc."

"Dylai athrawon wybod sut deimlad yw cael eich maethu – rhoi eu hunain yn ein hesgidiau."

"Dylai athrawon dreulio wythnos mewn gofal maeth i weld sut brofiad ydyw."

Gall plant sy'n derbyn gofal fyw ymhellach i ffwrdd o'r ysgol na phlant eraill sydd yn yr ysgol neu efallai eu bod yn teithio i'r ysgol mewn tacsi. Gall hyn wneud iddynt deimlo'n wahanol a'u hynysu gan gyfyngu ar eu cyfranogiad mewn gweithgareddau ar-ôl-ysgol.

Mae teithio ymhellach i'r ysgol neu orfod mynd mewn tacsi yn medru ynysu'r PDG a chyfyngu ar eu cyfranogiad o weithgareddau ar-ôl-ysgol.
Dyma rai o'r pethau y mae plant wedi ei ddweud am hyn:

"Neb yn ymddiried ynddynt i gerdded i'r ysgol, rhag ofn iddynt redeg bant."

"Mae merch y gofalwr yn cael ei gyrru mewn car i ysgol arall, felly mae'n rhaid i'r plentyn maeth gael tacsi."

"Efallai nad yw gofalwyr am yrru'r holl ffordd i'r ysgol."

"Gorfod cael tacsi."

Mae gwahaniaeth rhwng sut y mae plant cynradd ac uwchradd yn eu teimlo ynghylch y ffaith fod athrawon yn gwybod am eu hamgylchiadau.

Mewn Ysgolion Cynradd mae'r mwyafrif o blant am i'r athrawon wybod am eu cefndiroedd a'r ffaith eu bod yn PDG.

"Dylai athrawon wybod am ein cefndir."

"Dylai Gweithwyr Cymdeithasol esbonio i athrawon yn ogystal â siarad â phlant."

"Dylai pob athro wybod pwy sy'n cael eu faethu."

"Ffrind neu athro all edrych ar eich ôl a deall eich sefyllfa fel y gallant ddweud wrthych sut y mae pethau'n mynd a sut ydych yn ei wneud."

"Dylai pawb yn yr ysgol wybod pwy sy'n cael eu maethu."

Mewn Ysgol Uwchradd, mae pobl ifanc yn teimlo mai ond llond llaw o athrawon ddylai wybod am fanylion eu sefyllfaoedd.

"Dewch o hyd i hoff athro – rhywun y gallwch fynd ato. Rhywun sy'n gwybod am eich sefyllfa bersonol."

"Sdim angen i bob athro gael gwybod."

"Dylai un neu ddau athro gael gwybod (e.e. pennaeth, pennaeth blwyddyn, athro o'ch dewis.)"

Dylai'r athro allweddol ddweud [wrth athrawon eraill], "Os oes problem gyda disgybl X, dywedwch wrtha i."

Fel rhan o'r gwaith paratoadol wrth ysgrifennu'r adnodd hwn, cynhaliwyd grwpiau ffocws â rhai o'r bobl sy'n chwarae'r rhannau mwyaf allweddol ym mywydau PDG, yn ogystal â gyda'r bobl ifanc eu hunain. Yn y bennod hon, nodir y canlyniadau a'r negeseuon mwyaf allweddol ar gyfer cynhwysiant.

LLAIS Y PLENTYN A'R PERSON IFANC (gyda diolch i Dynamix am eu cefnogaeth fedrus iawn wrth gasglu'r safbwyntiau hyn)

Fel pob plentyn a pherson ifanc, mae gan PDG safbwyntiau cryf am y modd y gallant dderbyn mwy o gefnogaeth yn yr ysgol. Mae'n bwysig iawn gwrando a pharchu'r safbwyntiau dan sylw gan fod yr hyn sydd ganddynt i ddweud yn llawn gwybodaeth a gall helpu ymarferwyr i fod yn fwy llwyddiannus a sicrhau eu bod yn cael canlyniadau da a bod y PDG yn hapus ac yn setlo yn yr ysgol.

Dyma rai o'u negeseuon:

Pan ofynnwyd: "Sut mae pobl eraill yn gweld person ifanc sy'n cael ei ofalu amdano?"

Dywedodd PDG:

"Dim teulu"

"Cefndir dyrys ganddo"

"Ei weld fel label"

Pan ofynnwyd: "Beth sy'n anodd am fod yn PDG?"

Ymatebodd PDG:

"Gwahanol reolau – ddim yn cael cysgu draw yn nhŷ ffrind na mynd ar dripiau."

Pan ofynnwyd: "Beth sy'n anodd am yr ysgol?"

Dywedodd PDG:

"Rydych yn cael llai a llai o sylw a help."

"Rydych yn cael eich trin yn wahanol."

"Rydych yn cael eich bwlio."

"Nid yw'r athrawon yn eich deall."

"Rydych yn teimlo fod neb yn gwrando arnoch a bod neb yn eich deall."

"Brodyr a chwiorydd yn mynd i wahanol ysgolion."

"Collodd y plentyn [y PDG] ei dymer gan bod rhywun yn gweiddi arno – roedd hyn yn atgof o fywyd cyn bod mewn gofal maeth."

Mae'n anochel fod gan blant sy'n rhan o'r system gofal, rwydweithiau cynorthwyol cymhleth o'u hamgylch. O'r dechrau'n deg, lle y codir pryderon am y gofal teuluol y maent yn ei dderbyn, maent yn troedio i fyd ymarferwyr a fydd yn symud i mewn ac allan o'u bywydau. Mae'r ffigur isod yn arddangos hyn yn glir. Ni ellir osgoi hyn yn hawdd ond mae gofyn ei fod yn system effeithiol o gefnogaeth sy'n cynnwys cyfathrebu da, eglurdeb o ran dulliau gweithredu a chydweithio agos mewn partneriaeth. Mae'n rhaid i bawb weithio ar y cyd er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau posib i'r PDG. Mae'r cyswllt rhwng yr ysgol a'r gofalwr yn hollbwysig fel y medrir diwallu anghenion y PDG a datblygu'r dulliau gwaith priodol sydd eu hangen er mwyn gwneud hynny mewn modd llwyddiannus.

Medrir cyflawni hyn orau drwy sgwrsio'n gyson â gofalwyr ac ymarferwyr eraill (llawer mwy na mewn adolygiadau ffurfiol yn unig.) Mae sicrhau fod gofalwyr yn gwybod sut i gael cysylltiad hawdd â'r ysgol a sut y gallant helpu eu plant yn y cartref er mwyn cefnogi eu dysgu hefyd, yn hollbwysig.

Pennod Pedwar

Gweithio ag Eraill

3.9 CRYNODEB O'R MARC ANSAWDD

Yn ogystal â Llawlyfr Ysgolion sy'n Ystyrlon o PDG a rhaglen hyfforddi tair haen, mae **Marc Ansawdd Ysgol sy'n Ystyrlon o PDG** yn elfen allweddol wrth gyflawni arferion gorau cyson ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal ar draws y rhanbarth.

Mae tîm datblygu wedi llunio offeryn archwilio i gydnabod safonau uchel o ran arferion. Mae aelodau'r tîm yn cynnwys y cyn Brif Seicolegydd Addysg ar gyfer y ddau Awdurdod sydd bellach yn gweithio ym Mhrifysgol Caerdydd; Dirprwy Brif Seicolegydd Addysg y ddau Awdurdod sydd bellach yn gweithio ym Mhrifysgol Caerdydd; Dirprwy Brif Seicolegydd Addysg ar gyfer RhCT; Athro Ymgynghorol PDG o fewn y Tîm Addysg ar gyfer PDG yn RhCT; Cydgysylltwyr Addysg ar gyfer PDG o'r ddau Awdurdod Lleol, a Phersonau Dynodedig o ysgolion lleol.

Gan gyfeirio at ymchwil yn ymwneud â chanllawiau NICE, datblygiad Ysgolion sy'n Ymwybodol o Ymlyniad yn Lloegr, canllawiau Llywodraeth Cymru a'r blociau adeiladu a nodwyd ym Mhennod 3 o Lawlyfr Ysgolion sy'n Ystyrlon o PDG, lluniwyd set o ddangosyddion ansawdd (hanfodol a dymunol) yn seiliedig ar y **3 thema** ar gyfer gwneud ysgolion yn ystyrlon o PDG.

Mae fframwaith ar gyfer rhagoriaeth wedi'i ddatblygu fel y gall ysgolion dystiolaethu eu harferion trwy gydol y flwyddyn academaidd er mwyn ennill cydnabyddiaeth Ysgol sy'n Ystyrlon o PDG. Fel rhan o'r broses o greu cynllun strategol ar gyfer y grant GDD PDG, mae'n ofynnol bellach i bob ysgol yn rhanbarth Consortiwm Canolbarth y De gysylltu'u cynlluniau â dangosyddion perthnasol yr offeryn a ddefnyddir i asesu'r Marc Ansawdd. Mae defnyddio'r dangosyddion Marc Ansawdd yn sicrhau bod arweinwyr ysgolion yn defnyddio'r grant yn strategol i wneud y newidiadau sydd eu hangen i wella deilliannau i blant a phobl ifanc sydd yn/wedi derbyn gofal. Mae arferion sy'n gwella cynllunio a phrosesau strategol yn agwedd bwysig o'r grant GDD PDG.

Gall ysgolion gyflawni'r Marc Ansawdd sy'n Ystyrlon o PDG ar ddwy lefel: Aur a Phlatinwm. Mae'r cyntaf yn cynnwys 44 o ddangosyddion (36 yn hanfodol ac 8 yn ddymunol) a bydd disgwyl i ysgolion dystiolaethu arferion yn erbyn y rhain a sicrhau sgôr o **80%** (gan gynnwys pob dangosydd hanfodol) neu fwy. Mae'r ail yn gofyn am enghreifftiau o arferion arloesol sy'n arwain y sector, yn ogystal â'r holl Ddangosyddion Lefel Aur a phresenoldeb mewn hyfforddiant **Lefel 3** ar Ysgolion sy'n Ystyrlon o PDG.

Mae angen i ysgol ddangos sgôr o leiaf **65%** yn ei hunanwerthusiad ar gyfer arferion gorau sydd wedi'u datblygu'n llawn a/neu sydd eisoes ar waith, er mwyn ennyn rhagor o gefnogaeth ac arweiniad gan Dîm Addysg PDG wrth symud ymlaen i dystiolaethu sgôr o **80%** neu fwy ac ennill y Marc Ansawdd i Ysgolion sy'n Ystyrlon o PDG.

3.8 PROBLEMAU IECHYD MEDDWL

Yn y cyflwyniad, gwnaethom amlygu mai un o'r anawsterau mwyaf arwyddocaol i PDG yw'r nifer o'r rheini sy'n mynd yn eu blaen i ddatblygu problemau iechyd meddwl yn ddiweddarach. Nid yw hyn yn broblem i'r rheini yn y system gofal yn unig. Fe wyddom fod nifer y plant yr ystyrir bod problemau iechyd meddwl arnynt yn cynyddu yn gyffredinol. Gan ystyried difrifoldeb y trawma a'r cam-drin mae llawer yn ei brofi nid yw'n syndod y gallai PDG fod mewn mwy o risg. Mae'r holl wybodaeth yr ydym wedi ei chyflwyno yn yr adnodd hwn yn ymdrech i leihau'r tebygolrwydd o hyn yn digwydd drwy gynyddu gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth i'r rheini sy'n gweithio mewn ysgolion. Fodd bynnag, yn anffodus, fe fydd bob amser rhai PDG a fydd yn mynd yn eu blaen i gael problemau iechyd meddwl ac felly mae'n bwysig ein bod ni'n effro i hyn ac yn gweithredu pan fo'n angenrheidiol.

Isod, ceir rhestr o ymddygiadau cyffredin y gall disgybl â phroblemau iechyd meddwl eu cyflwyno, a bydd yn ganllaw defnyddiol wrth ystyried anghenion y disgyblion:

- *dangos ychydig o bleser ar adeg pan ddisgwylir pleser*
- *mynd yn ôl i ymddygiad a ddisgwylir gan blentyn iau*
- *bod yn fos neu or-reoli*
- *ymddygiad sy'n hunan-niweidiol*
- *mynd i mewn i'w gragen*
- *anghofio sgiliau a oedd arfer bod ganddo*
- *cam-drin sylweddau*
- *newid ymddygiad hwyl neu ymddangosiad yn sydyn,*
- *cwyno'n barhaus am iechyd heb unrhyw achos clir*
- *problemau ennill/colli pwysau*
- *problemau dysgu sut i fynd i'r tŷ bach/gwlychu/baeddu sy'n amhriodol i'r oedran neu faterion meddygol*
- *ddim yn ymatebol iawn i boen, colled neu bleser*
- *lefelau pryder sy'n uwch na'r cyffredin neu'n anarferol*
- *ymladd yn aml, colli tymer yn aml*
- *dirywiad o ran safon gwaith*
- *patrymau anarferol o ran presenoldeb yn yr ysgol*
- *dechrau chwarae rhywiol*
- *chwarae sy'n ddefodol*
- *cysgu'n wael*
- *diffyg diddordeb neu gymhelliant*
- *bod yn ddinistriol*

Oddi wrth adnodd ar wefan Ysgolion Northamptonshire (2014)

Yn gyffredinol mae llawer o'r ymddygiadau hyn yn ymateb normal i ddigwyddiadau dydd i ddydd sydd yn fwy anodd i PDG, fel pontio, digwyddiadau bywyd neu ben-blwyddi. Fodd bynnag, dylid monitro PDG yn ofalus a'u cyfeirio at asesu a chefnogaeth bellach:

- **os yw'r problemau'n parhau neu'n cynyddu yn eu hamledd;**
- **os oes yna nifer o wahanol ffactorau risg sydd eisoes yn bresennol; ac**
- **os yw'r ymddygiad hwn yn dyfod yn fwy a mwy o rwystr i ddysgu'r PDG neu i ddysgu eraill.**

Rydym wedi darparu gwybodaeth ym Mhennod Pump ynghylch gwahanol wasanaethau a sut y gallant eich helpu chi, ond yn fwy penodol mae'n bosibl y byddwch am ystyried ymgynghori â'ch Seicolegydd Addysg neu'r Tîm Addysg ar gyfer PDG, i ddechrau.

Y Cynllun Datblygu Unigol (CDU)

Ar gyfer rhai plant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, bydd angen Cynllun Datblygu Unigol. Mae'n bwysig fod y Cynllun Addysg Personol a'r Cynllun Datblygu Unigol yn ategu'i gilydd, gan fod y ddau yn bwysig iawn ynddynt eu hunain o ran sicrhau bod holl anghenion y plentyn yn cael sylw llawn.

Pwy sy'n trefnu cyfarfod y Cynllun Addysg Personol?

Gall unrhyw un gysylltu â chydweithwyr i drefnu cyfarfod i drafod Cynllun Addysg Personol, ond fel arfer y Gweithiwr Cymdeithasol a/neu'r Person Dynodedig ar gyfer PDG fydd yn ei drefnu.

3.7 RHOWCH GYNNIG AR YR YMAGWEDD 'PACE'

Mae PACE yn ffordd o weithio gyda phlant a phobl ifanc sy'n anelu at ddarparu llwybr i adeiladu perthnasoedd cadarnhaol ac effeithiol. Mae'n seiliedig ar ymchwil o niwrowyddoniaeth (Bombèr a Hughes 2013) ac yn canolbwyntio ar helpu plant i gyflawni 'cyflwr agored ac ymgysylltiol' sy'n ganolog i'w gallu i setlo a dysgu. Ceir pedair elfen iddo a ddisgrifir isod:



Bod yn Chwareus

- ar adegau, gall rhyngweithio chwareus helpu plant a phobl ifanc i deimlo'u bod yn ymgysylltiol ac yn rhan o berthynas. Mae cael y profiad a mwynhau ychydig o hwyl yn helpu plant.
- nid yw agwedd sy'n ysgafn, ymlaciedig a hwyliog yn teimlo'n fygythiol i blentyn.

Derbyn

- darparu seiliau i'r profiad o ddiogelwch i PDG.
- deall a derbyn yr hyn y mae plant yn ei wneud. Nid goddef ymddygiad ond cyfleu i'r plentyn eich bod yn deall pam ei fod wedi gwneud hyn.
- mae angen i'r oedolyn geisio derbyn dewisiadau ymddygiad y mae'r PDG yn eu gwneud sy'n waelodol iddynt ac yna sicrhau fod y plentyn yn deall hyn.
- nid yw derbyn yn golygu anwybyddu nac esgusodi ymddygiad eithafol ond yn hytrach fod y canolbwynt ar y person nid ar yr hyn y mae wedi ei wneud.

Empathi

- mae angen i blant brofi ein hempathi os ydyn nhw am ddeall ac ymddiried ein bod ni'n eu gwerthfawrogi ac am eu cefnogi.
- nid yw empathi go iawn ynghylch dweud ein bod ni'n deall, y mae'n fwy myfyriol, ac yn dangos ein bod ni'n ymwybodol o'r hyn mae'r llall yn ei feddwl a'i deimlo.
- daw'r oedolyn i ddeall profiadau'r plentyn (wrth iddo edrych arnyn nhw'n wrthrychol) ac mae'n myfyrio hyn yn ôl i'r plentyn ym mhob ffordd (cyswllt llygaid, mynegiant wyneb a thôn llais).

Chwilfrydedd

- y man cychwyn ar gyfer adeiladu perthynas â phlentyn yw ei helpu i ddysgu ac i feddwl ac i ddeall pam ei fod yn teimlo fel y mae heb gywilydd nac ofn.
- mae hyn yn cynnwys cael y plentyn i feddwl 'pam' ynghylch ei ymddygiad, nid mewn modd sy'n gwrthdaro ond mewn modd sy'n fwy chwilfrydig. Weithiau, mae bod yn chwilfrydig yn golygu gwneud y dyfaliad gorau ac yna ceisio meddwl y peth drwodd gyda'r plentyn.

Unwaith yn rhagor, dim ond trosolwg cryno iawn yw hwn o'r hyn a allai'n hawdd fod yn llyfr. Am lyfr hawdd ei ddeall sy'n esbonio hyn a llawer mwy mewn llawer mwy o fanylder cyfeiriwch at:
Bombèr and Hughes, (2013). Settling To Learn: Why Relationships Matter In School . Worth publishing.

- ✓ Defnyddiwch ddulliau ymdawelu yr ydych yn gwybod fydd yn gweddu i'r unigolyn, sef cerddoriaeth efallai, neu ardal dawel, cyfle i eistedd gydag oedolyn yn agos, gwneud gweithgareddau sy'n ymdawelu'r plentyn fel chwarae gyda thoes, gêm gyfrifiadur neu ddim ond sgwrsio.
- ✓ Defnyddiwch flwch ymdawelu'r plentyn, os oes un ganddo;
- ✓ Byddwch yn ymwybodol iawn o'ch hun os ydych yn rheoli'r sefyllfa hon, oherwydd bydd eich lefelau stres chithau'n codi hefyd; a
- ✓ Cheisiwch sicrhau fod pobl eraill yno i'ch helpu os bydd angen.

Beth allwn ei wneud wedyn?

Yr hyn sy'n allweddol i helpu PDG yw dod o hyd i ffordd o symud ymlaen ac efallai 'atgyweirio'r' difrod (yn ffigurol yn ogystal ag yn llythrennol) sydd wedi digwydd.
Gallai'r canlynol fod ymhlith y camau i'w hystyried:

- ✓ Cael sgwrs dawel ac uniongyrchol ynghylch beth sydd wedi digwydd a'r canlyniad, bod yn niwtral, ond dangos eich bod yn deall y bydd y plentyn wedi ypsetio'n fawr;
- ✓ Bod yn glir am yr angen i symud ymlaen a dod o hyd i ffordd o 'atgyweirio'; ;
- ✓ Gadael iddo wybod sut i wneud hynny, helpu gyda syniadau os yw'n angenrheidiol;
- ✓ Gadael iddo wybod eich bod yn deall ei fod yn bosibl na fydd yn hawdd ac y gallwch ei helpu pan fydd angen hynny; a
- ✓ Phan fydd wedi ymgysylltu â'r 'atgyweirio', byddwch yn glir iawn o ba mor falch ydych chi o'r plentyn, a sut y bydd wedi helpu eraill hefyd a fydd hefyd yn teimlo'n well ynghylch pethau nawr.

3.6 Y CYNLLUN ADDYSG PERSONOL

Ym Mhennod 1 ac yn gynharach yn y Bennod hon, rydym wedi pwysleisio gwerth a phwysigrwydd y Cynllun Addysg Personol o ran sicrhau'r deilliannau gorau posibl i PDG. Pan fydd ymddygiad problematig a heriol yn dechrau ymwthio y mae'n bwysig iawn ein bod yn ymateb yn gynnar ac yn effeithiol i osgoi dwysâd. Mae'r Cynllun Addysg Personol yn ffordd bwysig o ddechrau'r broses hon achos bydd yn cynnwys yr holl bobl allweddol sy'n cydweithio yn y ffordd fwyaf cadarn ac effeithiol posibl. Caiff hyn ei wneud orau drwy broses sy'n fwy ffocysedig.

Y Cynllun Addysg Personol yw'r fframwaith perffaith i wneud ymateb cynhwysfawr i unrhyw heriau ymddygiadol sylweddol yng nghyd-destun yr ysgol. Mae'r ymagwedd yn cael ei unigolyddu a phan fo anawsterau, gall gynnwys casglu gwybodaeth gynhwysfawr am broblemau, y nod yw ceisio deall swyddogaeth yr ymddygiad heriol i'r plentyn, h.y. **Pam yw e'n gwneud yr hyn mae'n ei wneud?** Yn benodol, gall gynnwys pwyslais ar helpu'r plentyn i ddysgu'r sgiliau sydd eu hangen arno i ddod o hyd i ffyrdd gwell o reoli sefyllfaoedd anodd.

Sut mae hyn yn gwahaniaethu oddi wrth gynlluniau eraill rydym yn eu defnyddio eisoes?

Yn gyntaf, gall Cynllun Addysg Personol osgoi'r angen i gael llawer o wahanol gynlluniau; un cynllun ydyw sy'n gallu bodloni rôl Cynllun Addysg Personol ond hefyd:

- **CYU** (Cynllun Ymddygiad Unigol)
- **CCB** (Cynllun Cefnogi Bugeiliol)

Yn ail, y mae wedi ei seilio'n llwyr ar safbwynt y PDG drwy ystyried swyddogaeth yr ymddygiad. Fel yr ydym wedi pwysleisio, mae rheoli heriau'n effeithiol yn dibynnu ar ddefnyddio sbectol 'Fy Mywyd' oherwydd mae ymddygiad yn dueddol o gael diben ac y mae'n hanfodol bod hyn yn cael ei ystyried wrth chwilio am y ffordd orau o gefnogi a rheoli anawsterau.
Yn drydydd, ymagwedd gadarnhaol yw'r un sy'n ystyried cryfderau yn ogystal â'r anawsterau.

Amser am seibiant

Pan fydd yn bosibl yn ystod y dydd, gall fod yn ddefnyddiol cynllunio amser seibiant yn gryno. Mae hyn yn caniatáu'r plant i gymryd peth amser i ymdawelu, myfyrio, a chael cyswllt â'i Oedolyn Allweddol, siarad am y pethau sy'n ei boeni, gwirio unrhyw beth y mae'n ansicr ohono, a dod at eu pwysau'n gyffredinol a chadw i fynd.

'Hwyl fawr a welwn ni chi yfory'

Yn yr un modd ag yr ydym yn setlo PDG i'w diwrnod, y mae'r un mor bwysig sicrhau fod y dydd yn gorffen gyda hwyl fawr gadarnhaol a gofalgar. Felly unwaith eto, ychydig o amser gyda'r Oedolyn Allweddol i siarad am y dydd a'r pethau sydd wedi mynd yn dda neu ddim mor dda. Gorffen gyda gwên ac edrych ymlaen at y diwrnod ysgol nesaf yw'r nod, nid dyma'r amser ar gyfer unrhyw wrthgyhuddiadau na sgyrsiau anodd. Sicrhewch fod unrhyw eiddo a drysorir yn cael ei ddychwelyd a bod unrhyw 'newyddion da' yn cael ei gyfleu mewn llyfr ysgol-cartref.

Sicrhewch fod unrhyw drafodaethau â gofalwyr maeth ar ddechrau a diwedd y dydd, a allai fod yn fwy negyddol, ddim yn digwydd o flaen y PDG. Gall y math yma o wybodaeth gael ei rhannu drwy e-bost.

3.5 COLLI ARNI: OSGOI, GOROESI A DELIO Â'R CANLYNIAD

Yn anffodus, er gwaetha'r nifer o strategaethau y gellir eu gosod mewn lle ar gyfer ein PDG, bydd yna bob amser gyfleoedd pan fydd sefyllfaoedd yn chwalu ac yn torri i lawr yn llwyr. Fodd bynnag, os byddwn yn deall ychydig yn fwy ynghylch beth sy'n digwydd a pham fod camfihafio'n digwydd, yna gallwn ni fod yn fwy abl wrth eu hosgoi. Mae hefyd angen i ni fod yn glir ynghylch sut i ymateb wedyn, er mwyn osgoi gwneud pethau'n waeth, ac efallai gwneud peth atgyweirio. Mae gan Bombèr (2011) ychydig o gyngor da iawn i'w gynnig.

Pam fo plant yn colli arnynt?

Bydd ymddygiad yn torri lawr yn llwyr pan fydd plentyn yn methu â'i reoli ei hun ac ni ellir ei reoli o gwbl, fel arfer am ei fod yn profi lefelau uchel o stres na all ymdopi ag e ddim mwy. Gall y sbardun fod yn rhywbeth ar lefel isel iawn, ond ei fod wedi dod ar adeg pan fo'r stres gwaelodol mor uchel fel na ellir ei oddef. Mae hanes hir o drawma tocsig ac eithafol yn peri i blant deimlo'n annigonol, yn bryderus ac allan o reolaeth. Maen nhw'n llawer llai hunan ymwybodol o'u teimladau ac felly ddim yn gallu asesu drostynt eu hunain pan fyddan nhw'n agosáu at bwynt ffrwydro ac felly'n llai abl i gymryd camau i reoli eu hemosiynau'n briodol.

Sut i leddfu hyn

I ddechrau, mae ymwybyddiaeth yn helpu. Mae dod i adnabod arwyddion unigol lefelau uchel o stres fel bod yn orymatebol, yn orwyliadwrus, ceisio synhwyraidd, yn bryderus, aflonydd a methu setlo, yna bydd cymryd camau i helpu'r PDG i reoleiddio'i hun, ymdawelu ac efallai cymryd peth amser i ffwrdd, yn helpu i atal y sefyllfa rhag mynd dros ben llestri. Ceisiwch osgoi cymryd yr agwedd oherwydd nad oes unrhyw beth amlwg wedi digwydd na all fod yn dioddef o stres. Mae stres yn gallu amrywio o ran lefelau ar wahanol amseroedd ar wahanol ddyddiau i oedolion a phlant fel ei gilydd.

Sut i ymateb

Ar adegau ni fydd ein hymdrechion mwyaf yn gweithio, neu efallai bydd y plentyn wedi hen fynd lawr y llwybr i dorri lawr, ac felly fe fydd adegau pan fydd ymdrechion i atal y sefyllfa rhag mynd dros ben llestri yn methu. Pan fo hyn yn digwydd, bydd angen ystyried yr anghenion canlynol:

✓ Ceisiwch gael y plentyn i 'wagle diogel' i ffwrdd oddi wrth eraill ac yn fwy pwysig i ffwrdd o'r ystafell ddosbarth;

BLYCHAU YMDAWELU

Mae blwch ymdawelu'n cynnwys amrywiaeth o syniadau i blant a fydd yn eu helpu i gael gwared ar stres a lleihau lefelau eu pryder. Bydd unrhyw adnoddau sydd eu hangen arnynt yn gynwysedig hefyd. Gall gweithgareddau gynnwys pethau y gallent fod wedi eu dewis y maen nhw'n eu hoffi ac sy'n eu hymdawelu. Ymhlith yr enghreifftiau mae:

- *Chwarae gyda "theganau ffidlan" am 5 munud (fel ciwb Rubik, mwclis gofidiau, pêl stres a blwtac)*
- *Gwrando ar gerddoriaeth*
- *Dargopïo/lliwio/lluniau dot i ddot*
- *Chwilair*
- *Gweithgareddau Mathemateg*
- *Chwarae gyda thoes*

Mae'n ddefnyddiol cadw blwch ymdawelu yn yr ystafell ddosbarth yn ogystal â'r 'ardal ddiogel'.
Bombèr (2011)

3.4 RHEOLI BOB DYDD

Gydag ystyriaeth ofalus a chynllunio trefn o ddydd i ddydd, mae yna lawer y gellir ei wneud i helpu PDG i deimlo eu bod wedi setlo ac yn sicr, ac felly lleihau'r tebygolrwydd o ypsetio a phroblemau yn ystod y dydd.

Cwrdd a chyfarch

Gall dechrau'r diwrnod ysgol fod yn hanfodol i unrhyw ddisgybl ac felly gall rhoi trefniadau bach byr yn eu lle fod yn bwysig iawn i helpu'r plentyn i setlo i'r diwrnod a pharatoi ar gyfer yr hyn sydd i ddod. Yn ei llyfr mae Louise Bombèr (2007 a 2011) yn awgrymu fod yna rai elfennau i hyn sy'n bwysig iawn eu dilyn:

Yn gyntaf ceisiwch **ddiogelu'r amser**: y mae'n hanfodol os gallwn gynllunio i wneud hyn a'n bod ni'n gwneud hynny gyda chysondeb a dibynadwyedd.
Croesawu'r plentyn - byddwch yn falch o'i weld bob tro a chyfleu hynny ar lafar yn ogystal â fel arall.
Amser sganio - i'r PDG hynny sy'n or-wyliadwrus, y mae'n bwysig ein bod ni'n eu gadael i asesu eu hamgylchedd fel eu bod yn cael rhyw fath o ymwybyddiaeth o ddiogelwch a sicrwydd.
Ymgysylltu – sgwrs am ddoe (cadarnhaol yn unig), neithiwr, a'r daith i'r ysgol heddiw.
Gwrthrychau pontio - Mae'n bosibl y bydd nifer o PDG, cynradd neu uwchradd, am ddod â phethau o adref. Mae siarad am y rhain yn beth da a chymryd diddordeb yn eu gwerth i'r plentyn, ond yna mae angen eu rhoi mewn man diogel am y dydd a'u dychwelyd wrth ddweud 'hwyl fawr a wela'i di 'fory'. Y mae'n hanfodol fod y 'lle diogel' yn gwbl ddiogel ac y gall y plentyn ymddiried ynoch chi ynghylch hynny..
Paratoi – Symudwch y PDG i feddwl am y dydd sydd o'u blaen. Gyda phlant hŷn byddai hyn yn cynnwys mynd drwy'r amserlen a meddwl am yr hyn sydd ei angen ar gyfer sesiynau gwahanol, ar gyfer disgyblion cynradd, bydd ynghylch gwahanol fathau o weithgareddau. Ceisiwch ddefnyddio iaith amser ble gallwch fel 'cyn, ar ôl, yna'.
Cadw mewn cof- Gadewch i'r plentyn wybod eich bod yno ar ei gyfer hyd yn oed pan na fyddwch gydag e. Dywedwch bryd y byddwch yn ei weld nesaf.

3.3 DIOGELWCH A SICRWYDD

Mae rhagweladwyedd a sicrwydd yn bethau yr ydym ni oll yn anelu amdanynt ac am eu cael yn ein bywydau. Sef byd cyson heb lawer o sioc na syrpréis. Yn anffodus nid dyma sydd gan ein PDG, ac nid dyna maen nhw'n ei ddisgwyl chwaith. Maen nhw'n disgwyl cael problemau a bygythiadau ac felly'n effro i hyn yn barhaus. Gwelwn hyn gyda rhai PDG, sef y rhai sydd yn or-wyliadwrus, yn sganio'r amgylchedd yn barhaus a gwirio pethau o hyd. Gall eraill gadw eu teimladau i'w hunain heb ddangos sut maen nhw'n teimlo drwy eu hymddygiad, ond eto mae angen i ni fod yn ymwybodol iawn o'r angen hwn.

Sut gallwn ni helpu

- caniatáu amser i sganio'r amgylchedd ym mhob cyd-destun gwahanol drwy gydol y dydd;
- ceisio sicrhau sefydlogrwydd staff ble y bo'n bosibl. Er enghraifft, os caiff aelod o'r Uwch Dîm Rheoli ei alw at sefyllfa anodd, yna dylai hwnnw fod yr un person pan fo'n bosibl. Ceisiwch osgoi newid staff e.e. goruchwyliwr ganol dydd (cynorthwyydd y ffreutur) ble y bo'n bosibl;
- trefn a chysondeb - ceisiwch adeiladu gymaint o drefn â phosibl ym mywydau PDG yn eich ysgol;
- ceisiwch osgoi newid amserlen gan baratoi PDG yn llwyr pan fo'n angenrheidiol. Cadwch amseroedd arbennig ar gyfer PDG i fod yr un amser bob tro;
- byddwch yn gyson ynghylch disgwyliadau ac ymatebion o ran gwobrwyo a chosbi;
- byddwch mor benodol ag sy'n bosibl - dywedwch wrth blant beth sy'n digwydd, pam fod pethau'n cael eu gwneud mewn ffordd benodol, pam fod ymateb penodol yn cael ei wneud; a
- gwrandewch ar blant i ganfod yr hyn sy'n eu poeni.

Creu man diogel

Bydd rhai PDG yn 'ffoi' fel modd o ddelio â heriau (ac weithiau gall eu heriau fod yn fân iawn neu ddim yn bwysig i ni fel oedolion sicr). Gall hyn ddigwydd mewn nifer o ffyrdd eithafol, er enghraifft, cerdded allan o'r dosbarth, cuddio o dan y byrddau, dringo cypyrddau ayb. Yr hyn sydd angen i ni ei wneud yw darparu 'lleoedd diogel' ble y gall PDG fynd iddyn nhw pan maen nhw angen gwagle i ymdawelu/ gollwng stêm neu reoleiddio eu hemosiynau. Gall yr ardaloedd hyn fod yn rhai bach preifat ble mae plant yn eistedd/gwrando ar gerddoriaeth neu wneud gweithgareddau syml.

Mae Louise Bombèr (2011) yn awgrymu bod darparu 'blwch ymdawelu' unigol i bob plentyn yn gallu bod yn ddefnyddiol iawn. Roedd ardal fach mewn ystafell ddosbarth Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (CADY) yn un enghraifft mewn ysgol uwchradd. Roedd yn ystafell ddosbarth brysur yn llawn plant yn gweithio mewn grwpiau 1 i 1, felly ni sylwyd ar un person ychwanegol yn dod i'r ardal eistedd. Roedd hefyd yn ddosbarth y gallai disgyblion ei ddefnyddio yn ystod amseroedd egwyl yn lle mynd i'r iard chwarae. Gan fod yna fel arfer, lawer o oedolion o gwmpas, roedd disgyblion yn gwybod y bydden nhw'n ddiogel yno a phetai angen y byddai'r oedolion yn rhoi o'u hamser iddynt. Mewn ysgol gynradd, gall pabell fach gael ei defnyddio fel gwagle diogel i blant. Yn anaml iawn fydd plant yn camddefnyddio lleoedd diogel, er bod hyn yn bryder y mae oedolion yn aml yn ei fynegi.

DISGRIFIAD SWYDD YR OEDOLYN ALLWEDDOL (OA)

Perthynas, perthynas, perthynas - Mae'r OA yn gweithio'n galed i adeiladu perthynas gadarnhaol a sicr â'r PDG fel y gall fod yn berson y gellir ymddiried ynddo a gwneud i'r PDG deimlo'n arbennig.

Cyswllt rheolaidd - Mae angen i'r OA sicrhau fod ganddo gyswllt rheolaidd yn ystod y dydd (amser cwrdd/ cyfnodau anodd / ar ôl cael siom/ dweud hwyl fawr ar ddiwedd y dydd).

Trosi - Dylai'r OAion ddod i adnabod y PDG fel eu bod yn deall eu hymddygiad, a ble y bo'n angenrheidiol, drosi'r ymddygiad neu'r anghenion hynny i eraill.

Clust i wrando - Mae'n bwysig iawn fod y PDG yn gwybod ac yn ymddiried yn eu OA fel ei fod yn gwrando'n dda ac yn gweithredu fel eiriolwr ar eu rhan.

Dod o hyd i atebion - Weithiau gall problemau y mae PDG yn dod ar eu traws ymddangos fel rhywbeth na allant eu goresgyn. Gall OA fod yn bwysig iawn fel rhywun sy'n eu helpu i ddod o hyd i atebion.

Darparu cynhesrwydd a hwyl - Gwnewch yn fawr o gyfleoedd i gael amseroedd da gyda'ch gilydd.

Atal - Byddwch yno yn ystod cyfnodau anodd, gan atal sefyllfa lawn stres rhag mynd dros ben llestri wrth iddo ddatblygu.

Arbennig - Sicrhewch fod y PDG yn teimlo ei fod yn arbennig i chi. Dewch i wybod beth y mae'n ei wneud gartref, beth y mae'n ei hoffi a ddim yn ei hoffi, y bobl sy'n bwysig iddo gan siarad ag e amdanynt. .

Angor - Dewch i adnabod y gofalwyr, gan sicrhau eu bod yn eich adnabod chi a byddwch yno fel cyswllt rhwng yr ysgol a'r cartref. Byddwch yno ar gyfer PDG fel eu bod yn gwybod bod rhywun yno ar eu cyfer pan fydd pethau'n mynd yn drech na nhw.

Cymwysterau angenrheidiol

Mae angen dewis y person hwn yn ofalus gan fod yn rhaid iddo fod yn iawn ar gyfer y rôl ond ni fydd yn gweithredu fel therapydd felly nid oes angen hyfforddiant arbennig. Y ffactor hanfodol yw'r gallu i adeiladu perthynas â'r plentyn felly mae angen iddo fod yn rhywun sydd ar gael o ran ei amser. Does dim rhaid iddo fod gyda'r PDG drwy'r dydd, ddim ond ar adegau yn ystod y dydd, er enghraifft 'cwrdd' a dweud 'hwyl fawr' a 'wela'i di 'fory', 'cyfnodau anodd' a phan fo stres yn cynyddu (gweler Adran 3 y Bennod hon). Bydd hyd yr amser yn dibynnu i raddau helaeth ar anghenion y plentyn. Mae angen iddyn nhw hefyd i beidio â dim ond gweithio gydag un plentyn; mewn gwirionedd, mae'n well os nad ydynt. Mae angen iddynt helpu'r plant i deimlo'n arbennig pan fyddant gyda nhw.

Gorau oll os bydd y person a ddewisir:

- ✓ yn llawn cymhelliant ac yn awyddus i ymgymryd â'r rôl hon;
- ✓ yn barod i ddysgu a deall y PDG y bydd yn gweithio ag e;
- ✓ yn barod i gael hyfforddiant a dysgu am anghenion plant sydd wedi dioddef colled a thrawma;
- ✓ yn meddu ar nodweddion personoliaeth allweddol, h.y. aros yn dawel ei feddwl yn ystod argyfwng, bod yn amyneddgar a goddefgar, gweithio'n dda fel rhan o dîm; ac
- ✓ yn hoff o blant ac yn mwynhau bod gyda nhw.

Ymddygiad	O bersbectif posib sbectol 'fy mywyd'	Felly, beth fedrwn ni ei wneud?
Rhedeg i ffwrdd	*"Dwi ddim yn rhedeg i ffwrdd. Dwi'n rhedeg at rywbeth"* *"Mae'n rhaid i mi ddianc oddi wrth y sefyllfa. Dwi ddim yn gwybod lle i fynd felly mi af i heb wybod hynny"* *"Gallai ddim ymdopi â fy nheimladau o bryder/ panig/dicter/ymwrth-iant/ anhapusrwydd ac ati."* I rai, pan fydd straen a thensiwn yn ormod byddant yn ymateb trwy ymladd. I eraill, byddant yn dianc. Mae deall beth sy'n digwydd a pham fod angen i'r PDG ddianc yn allweddol er mwyn ymateb yn briodol.	Sicrhewch fod y PDG yn gwybod ble y gallant fynd pan fyddant yn teimlo fod pethau'n mynd yn drech na hwy er mwyn lleihau'r angen i redeg i ffwrdd. Sicrhewch fynediad iddynt i fan diogel heb fod angen iddynt esbonio na chyfiawnhau eu hunain i neb arall. Sicrhewch eich bod yn deall beth sydd ei angen neu bwrpas y rhedeg - ydyn nhw'n rhedeg at rywbeth yn hytrach nag oddi wrth rywbeth? Siaradwch gyda'r PDG am y pryder a'r gofid y mae eraill yn eu teimlo pan fyddant yn 'rhedeg.' Pwysleisiwch y ffaith fod pobl yn poeni amdanynt ac yn gofidio amdanynt. Eto, ceisiwch osgoi defnyddio iaith emosiynol sy'n priodoli pwrpas nad yw o reidrwydd yn wir e.e. dianc.

3.2 OEDOLYN ALLWEDDOL / OEDOLYN ARWYDDOCAOL

Fel y trafodwyd ym Mhennod 2 pan wnaethom ni amlinellu'r theorïau ynghylch ymlyniad yn fras, fe wyddom bellach mai un o'r ffyrdd pwysicaf y gallwn gefnogi plant sy'n dod ar draws llawer o heriau yn eu profiadau o ddydd i ddydd o fod yn yr ysgol yw darparu oedolyn allweddol ar eu cyfer. Oedolyn yw hwn y maen nhw'n gallu datblygu ymlyniad ag e - fel perthynas. Yn yr hinsawdd ariannol sydd ohoni, gall fod yn anodd cael mynediad at y gefnogaeth hon, ond gall fod yn hynod o fuddiol o'i ddefnyddio'n effeithiol.

Pam fod angen hyn ar rai PDG?

Caiff graddfa'r golled, trawma a cham-drin y mae rhai plant wedi ei brofi oblygiadau mawr ar eu llesiant cyffredinol, datblygiad emosiynol a pherthnasoedd cymdeithasol. Mae'n bosibl y byddant yn cael problemau mawr wrth ymddiried yn eraill, deall eu hunain a setlo ac addasu i sefyllfaoedd bob dydd yn yr un ffordd â phlant eraill. Dengys ymchwil fod presenoldeb oedolyn sy'n ffigur ychwanegol ar gyfer ymlyniad yn yr ysgol, yn gallu helpu plant i ddatblygu'r llwybrau niwrolegol sydd eu hangen arnynt i ddechrau setlo a dysgu i ymddiried yn eraill.

Pwy ddylai ymgymryd â'r rôl hon?

I ddechrau fe ddylem amlygu nad rôl yw hon i Berson Dynodedig ar gyfer PDG, mae digon gan y person hwnnw ar ei blât!

Ymddygiad	O bersbectif posib sbectol 'fy mywyd'	Felly, beth fedrwn ni ei wneud?
Dweud celwydd	*"Nid wyf yn hoffi'r gwir (efallai gan ei fod yn codi cywilydd arnaf neu ei fod yn fy ngwneud yn ofnus neu'n anhapus) ac felly, mi na'i ddweud celwydd - hyd yn oed pan fyddaf yn gwybod na allai fod yn wir."* Mae dweud celwydd yn ymddygiad cyffredin mewn plant sydd wedi profi llawer o drawma. Mae bob amser cysylltiad agos iawn rhyngddo â straen, hyd yn oed os nad yw hynny'n amlwg i ni oedolion. Mae fel arfer yn mynd llawer dyfnach nag osgoi trwbwl a gall fod yn ymddygiad y mae'r plentyn wedi ei ddatblygu dros nifer fawr o flynyddoedd a'i fod felly, wedi treiddio'n ddwfn.	Byddwch yn bwyllog bob amser. Peidiwch â dechrau gwrthdaro ynghylch beth sy'n wir ai peidio gan na fydd yn gwneud dim i gynorthwyo'r sefyllfa. Peidiwch â thrafod hyn o flaen neb arall; yn fyfyrwyr na staff gan y bydd yn arwain at 'golli wyneb.' Ceisiwch gynorthwyo'r unigolyn i ganfod ffordd dderbyniol allan o'r celwydd heb i'r cyfan dyfu i fod yn fater mawr e.e. *"Efallai mai'r hyn oeddet yn ei olygu oedd dy fod yn meddwl ei fod. . . ond nawr, rwyt yn sylweddoli ei fod yn debygol iawn ei fod. . . "* Os ydych yn gwybod ei fod yn sefyllfa y gallai ddweud celwydd yn ei gylch, atgoffwch ef o'r angen i ddweud y gwir. Defnyddiwch straeon cymdeithasol neu lyfrau eraill (e.e. 'Lily tells a lie') er mwyn cynorthwyo plant i ddeall pam fod dweud celwydd yn cythruddo eraill.

Ymddygiad	O bersbectif posib sbectol 'fy mywyd'	Felly, beth fedrwn ni ei wneud?
Dwyn	*"Rwyf eisiau hwnna a gan fy mod wedi ei weld, mi gaf i e"* *"Doeddwn i ddim yn dwyn; 'mond yn ei fenthyca am sbel"* Nid yw plant sydd wedi eu hesgeuluso yn aml yn deall pwysigrwydd y ffaith fod pethau'n eiddo i eraill gan nad ydynt wedi profi hynny eu hunain.	Mae dwyn yn air emosiynol sy'n cyfleu llawer o ystyron. Y peth cyntaf y dylech ei wneud os ydych yn tybio fod PDG wedi cymryd eiddo rhywun arall yw gwirio bod eich ffeithiau'n gywir a'r ail beth yw canfod persbectif y plentyn o'r sefyllfa. Oni bai bod sicrwydd pendant i'r PDG gymryd yr eitem, y prif adwaith yw gweithio ar bwysigrwydd eiddo i eraill a'r angen i barchu hynny. Gall stori gymdeithasol fod yn ddefnyddiol iawn i wneud hyn. Os sefydlir i'r PDG gymryd yr eiddo, yr ymateb orau yw gwneud iawn am y peth a chynorthwyo'r PDG i wneud hynny. Dylai'r ymateb bob amser fod yn glir a ffeithiol ynghylch pwy sydd berchen beth a dylid osgoi iaith emosiynol tebyg i 'leidr a dwyn.'

Ymddygiad	O bersbectif posib sbectol 'fy mywyd'	Felly, beth fedrwn ni ei wneud?
Am siarad o hyd gydag oedolion Ei chael hi'n anodd setlo i wneud tasg neu i ganolbwyntio'n briodol ar weithgaredd Gorsensitif i unrhyw ymwrthodiad posib	*"Galla i ddim â bod yn sicr y byddi di yno o hyd i'm helpu ac mae dy angen di arna'i"* Gall plant sydd wedi profi patrymau gofal anghyson ac ymdeimlad o ddeuoliaeth wneud unrhyw beth i ddenu sylw a gall hyn fod yn strategaeth ddefnyddiol iddynt.	Gadewch i'r plentyn wybod y gall siarad ond ar amseroedd penodol yn unig. Anogwch hwy i ddefnyddio system sy'n eu cynorthwyo i ddysgu aros e.e. sgwennu ar 'post-it' bod ganddynt rywbeth i'w ddweud ac y byddwch yn mynd atynt pan fyddwch yn medru gwneud hynny.
Methu dygymod â newid	*"Rwyf newydd setlo i wneud hyn, rwyf nawr yn teimlo'n ddiogel ac rwy'n gwybod beth i'w wneud"* *"Rwy'n mwynhau beth rwyf yn ei wneud ac ni allaf ddygymod/ymdopi â'r straen o symud i ddosbarth arall"* Nid PDG yw'r unig grŵp o ddisgyblion sy'n ei chael hi'n anodd rheoli a dygymod â straen pontio rhwng gweithgareddau, gwersi, ystafelloedd dosbarth, athrawon a dulliau dysgu a grwpiau cyfoedion gwahanol. I PDG mae hyn o ganlyniad i'w problemau â swyddogaethau gweithredu (Pennod 2) a'r profiadau a gawsant yn y gorffennol ynghylch newid a'r trawma a'r stres a achosodd hynny iddynt.	Caniatewch ragor o amser ar gyfer pontio haws. Paratowch ar gyfer pob cyfnod pontio a'u cynorthwyo i fod yn glir am yr hyn y gallant ei ddisgwyl. Cyflwynwch negeseuon gweledol priodol i gefnogi'r geiriau. Rhestrau gwirio e.e. ar gyfer pacio pethau, ar gyfer gwers AG, ar gyfer dechrau gweithgareddau. Rhowch sicrwydd i'r plentyn y byddwch yn meddwl amdano/amdani pan fydd ef/hi yn y wers newydd ac y byddwch yn ei weld/gweld eto ar ddiwrnod ac amser penodol. Ar gyfer pontio llawer mwy terfynol e.e. i ysgolion newydd, cwblhewch weithgareddau a fydd yn gymorth iddynt gofio e.e. albwm lluniau, llyfr atgofion, cynnal parti gadael.

Ymddygiad	O bersbectif posib sbectol 'fy mywyd'	Felly, beth fedrwn ni ei wneud?
Anallu i ddelio â siom	*"Ni allaf ddelio â phethau sydd ddim fel y dylent fod"* *"Mae newid a'r annisgwyl yn fy ngwneud yn nerfus"* *"Mae'n rhaid i mi wybod beth sy'n mynd i ddigwydd i mi"* *"Beth arall sy'n mynd i ddigwydd nad wyf yn ei ddisgwyl?"*	Rhybuddio PDG o flaen llaw fel bod amser ganddynt i ymgyfarwyddo â'r sefyllfa. Esboniwch beth sy'n digwydd. Sicrhewch eu bod yn glir ynghylch yr hyn y mae'r newid yn ei olygu e.e. beth fyddant yn eu gwneud yn lle hynny, pa mor hir y bydd hyn yn parhau. Derbyn a chydnabod gyda hwy y byddant wedi eu siomi - gwnewch y sefyllfa mor normal â phosib ar gyfer y PDG. Edrychwch am bethau cadarnhaol.
Problemau amser cinio e.e.: • Anghofio bwyta; • Dim bwyta'n addas; • Bod yn ffyslyd am fwyd; • Bwyta ambell fath o fwyd yn unig; • Dwyn / Claddu bwyd, Casglu bwyd; • Brysio / Cuddio bwyd; a • Gwthio i flaen y rhes er mwyn bod y cyntaf i gael bwyd.	Mae bwyd yn anghenraid sylfaenol i ni gyd. I lawer o PDG sydd wedi cael eu cam-drin yn ystod eu blynyddoedd cynnar, gallai bwyd fod wedi bod yn rhan allweddol o'r modd y cawsant eu cam-drin. Gallai'r strategaethau a ddisgrifir fel problemau fod wedi bod yn ffyrdd sydd wedi eu cynorthwyo i oroesi yn y gorffennol. Ni ellir "dad- ddysgu'r" rhain er eu bod yn awr mewn man lle byddant yn derbyn cymaint o fwyd ag sydd ei eisiau arnynt. Mae bwyd hefyd yn gysur i lawer; ffurf o anogaeth y maent yn weithredol edrych amdano. Efallai nad yw rhai PDG wedi profi arferion bwyta'n gymdeithasol ac nad ydynt yn syml, yn gwybod beth i'w wneud.	Cynorthwywch y plant i ddeall a gwerthfawrogi ffeithiau am fwyd: • Mae digon i bawb; • Mae angen i ni gyd fwyta'n rheolaidd; • Mae pobl wahanol yn hoffi bwydydd gwahanol; a • Gall rhannu bwyd fod yn beth pleserus i wneud gyda'n gilydd. Dysgwch sgiliau bwyta'n gymdeithasol iddynt. Cynorthwywch y plant i weld amseroedd prydau bwyd fel cyfnodau pleserus a chadarnhaol i'w treulio yng nghwmni eraill.

Ymddygiad	O bersbectif posib sbectol 'fy mywyd'	Felly, beth fedrwn ni ei wneud?
Problemau gydag AG • Osgoi AG • Sgiliau echddygol gwan	*"Rwy'n ei chael hi'n anodd newid o flaen eraill"* *"Nid wyf wedi cael yr un profiadau cynnar ag eraill ac mae hyn wedi arwain at sgiliau echddygol gwan ac rwy'n teimlo cywilydd o achos hynny"* Am nifer o resymau, mae plant sydd wedi cael eu cam-drin neu wedi dioddef llawer o drawma yn aml yn teimlo'n ddihyder am eu cyrff a byddant yn osgoi AG a newid o flaen eraill.	Parchwch yr angen i newid mewn man preifat am gyfnod byr. Cynorthwywch y PDG i ddysgu newid mewn modd disylw. Rhowch dasgau gwahaniaethol a 'diogel' i'r plentyn mewn gwersi AG. Darparwch weithgaredd ychwanegol ar sgiliau heriol er mwyn cynorthwyo'r PDG i adeiladu a datblygu eu sgiliau diffygiol.
Problemau yn ystod amseroedd egwyl: • Ymladd • Rhy gorfforol • Hawdd eu cynddeiriogi • Gwirion ac anaeddfed, cythruddo plant eraill	*"Nid wyf yn gwybod sut i ymddwyn gyda ffrindiau felly rwyf wedi dysgu'r ffyrdd yma o ymddwyn er mwyn cael sylw."*	Strwythur addysgu sgiliau cymwyseddau cymdeithasol allweddol fel y nodwyd ynghynt yn y Bennod hon. Sicrhewch fod pob un aelod o'r staff yn ymwybodol o broblemau tebygol a'u bod wedi eu hyfforddi i gynorthwyo plant i ddysgu ac ymateb yn briodol i'w gilydd. Staff i oruchwylio'n agos a rhagweld sefyllfaoedd. Sicrhewch fod plant yn gwybod pa oedolyn y gallant fynd ato os oes angen ychydig o gymorth ychwanegol arnynt. Darparu strwythurau hamdden/ cyfleoedd chwarae yn ystod amseroedd egwyl a chinio. Sicrhau fod y plentyn yn ymwybodol bod 'hafan ddiogel' ar ei gyfer i'w gynorthwyo i ymdawelu pan aiff pethau'n ormod. Defnyddio systemau tebyg i bydis yr iard chwarae a stopiau'r iard chwarae, cyfoedion yn mentora.
Ymddygiadau problemus	Problemau yn ystod cyfnodau penodol ac mewn mannau penodol e.e. ar yr iard chwarae yn ystod amser cinio ac egwyl	Torri'r patrwm - pontio'n gynnar, osgoi'r lleoliadau problemus ac ati.

ADRAN 3 : STRATEGAETHAU YMATEBOL I GEFNOGI PDG SY'N CYFLWYNO EU HUNAIN Â RHAGOR O HERIAU

3.1 SBECTOL 'FY MYWYD'

Er mwyn gweithio'n effeithiol gydag unrhyw ymddygiad heriol ac anodd, mae angen i ni ystyried achosion gwaelodol a cheisio deall eu swyddogaeth. Y cwestiwn allweddol yw "Beth mae'r plentyn yn ei elwa wrth ymddwyn fel hyn?" Yn syml iawn, pan fydd babi'n crio fe wyddom fod hyn oherwydd ei fod un ai'n llwglyd, mewn poen neu'n anhapus neu flinedig mewn rhyw ffordd ac felly rydym yn ymateb â bwyd, cysur ac yn y blaen. Mae'r un peth yn wir am oedolion. Os byddwn yn dod adref ac mae ein partner yn sarrug, byddwn yn gofyn beth yw'r broblem ac yn ceisio ei helpu i ddelio ag e. Fe wyddom fod rheswm dros fod yn sarrug. Yn yr un modd pan fydd plant yn anodd eu trin mae angen i ni ddeall pam; nid mynd i'r afael â'r ymddygiad yn unig. Er mwyn gwneud hyn yn llwyddiannus, gall helpu i feddwl am y canlynol:

- Os oes gan PDG batrwm ymlyniad a yw hyn yn esbonio sut y gallent fod yn meddwl/teimlo? (cyfeiriwch at y tabl ym Mhennod 2 sy'n manylu ar hyn ymhellach);
- Meddyliwch am ddatblygiad emosiynol y plentyn yn hytrach na'i oedran;
- Meddyliwch am bethau posibl a allai sbarduno'r ymddygiad; ac
- Edrychwch yn ofalus ar beth mae'r plentyn yn ei gael yn sgil y ffordd mae e wedi ymddwyn.

Beth y gellir ei weld a'r hyn y gallwn ei wneud

YN SEILIEDIG AR YR HYN DDYWED ARBENIGWYR YN Y MAES A'R HYN A DDYSGWYD GENNYM DRWY BROFIAD DYMA RAI AWGRYMIADAU O FFYRDD Y GALLWN YMATEB I BROBLEMAU PENODOL

Ymddygiad	O bersbectif posib sbectol 'fy mywyd'	Felly, beth fedrwn ni ei wneud?
Aflonydd, ddim yn medru setlo	*"Nid wyf yn barod i setlo'n emosiynol i'r hyn rwyf am wneud"* Fel y dangoswyd ym Mhennod 2 wrth i ni siarad am broblemau ymlyniad, mae llawer o ffyrdd y gall hyn gael effaith ar swyddogaethau gweithredol . Un enghraifft yw hon ond un sydd efallai yn digwydd yn aml.	Cwrdd a chyfarch ar ddechrau'r dydd er mwyn cynorthwyo'r plentyn i setlo ar gyfer y dydd. Ceisiwch eu setlo i wneud tasg gan osod targedau cyflawni byr, er enghraifft gan ddefnyddio amserydd wy.

Y Tips Gorau i reoli ymddygiad yn effeithiol.
Byddwch yn barod am eich dosbarth yn feddyliol ac yn emosiynol, a pharatowch eich trefniant cyffredinol.
Byddwch yn ymwybodol o'ch emosiynau eich hun. Os ydych o dan straen neu'n flinedig oes yna unrhyw beth y gallwch ei wneud i helpu hyn cyn i chi addysgu?
Adeiladwch berthynas â'ch disgyblion, byddant yn eich helpu i oroesi'r dyddiau anodd a mwy heriol.
Dysgwch enwau'r disgyblion a'u defnyddio, gwnewch eich addysgu'n bersonol.
Byddwch yn glir am eich disgwyliadau; defnyddiwch rai rheolau clir sydd wedi eu datgan yn eglur a'u gweithredu'n gyson.
Sicrhewch fod disgyblion yn deall eich system ar gyfer gwobrwyo a chosbi a'u cymhwyso'n gyson. Cofiwch ganmol yn benodol.
Meddyliwch am eich ymddygiad pan na fyddwch yn siarad a'r negeseuon a roddwch.
Defnyddiwch iaith gadarnhaol ac adeiladol. Gadewch i'r disgyblion wybod yr hyn yr ydych ei eisiau, nid beth nad ydych ei eisiau; rhowch dalp o gyfarwyddiadau, defnyddiwch iaith sy'n dynodi eich bod yn disgwyl cael eich ufuddhau ac yn fwyaf pwysig, siaradwch â pharch.
Peidiwch â gadael i wrthdaro a sefyllfa anodd fynd dros ben llestri. Os byddwch yn teimlo eich bod yn colli'ch tymer, yna cymerwch gamau i'w osgoi yn hytrach chamu tuag at ffrae fawr.
Ceisiwch ddeall y diben sydd y tu ôl i ymddygiad negyddol. Pam ydy'r plentyn neu berson ifanc yn gwneud yr hyn mae'n ei wneud?

Blwyddyn 11	Bydd yr holl ddisgyblion yn cael eu hystyried ar gyfer y gefnogaeth angenrheidiol i wella deilliannau TGAU, gan ganolbwyntio ar: • waith cwrs • cefnogi pwnc • sgiliau astudio • paratoi ar gyfer arholiadau • penwythnosau astudio • clybiau gwaith cartref • mentora cymheiriaid • canllawiau astudio ar gyfer Mathemateg, Gwyddoniaeth ayb
Ysgolion â niferoedd cymharol uchel o PDG	Ymateb strategol e.e. CD sy'n arbenigwr PDG yn gweithio â phob myfyriwr yn ôl y gofyn gan ymgymryd â rôl 'oedolyn arwyddocaol' Gallai'r tasgau gynnwys: • cymorth llythrennedd • grwpiau rhyngweithio cymdeithasol • mentora • sgiliau astudio • cysylltiadau â gofalwr maeth • cefnogaeth pontio

2.11 RHEOLI YMDDYGIAD YN EFFEITHIOL

Nid oes unrhyw awydd gennym ddatgan yr hyn y mae'r rhan fwyaf o addysgwyr proffesiynol yn ei wybod yn iawn o ran rheoli ymddygiad. Felly yn hytrach na manylu, y nod yma yw pwysleisio pwysigrwydd strategaethau craidd cyson ac effeithiol i reoli ymddygiad, sy'n arbennig o bwysig.

O ran defnyddio disgyblaeth, hoffem ychwanegu un dyfyniad gan Dan Siegel:

"Yn rhy aml rydym yn anghofio bod disgyblaeth yn golygu addysgu, nid cosbi. Myfyriwr yw disgybl, nid un sy'n ddarostyngedig i effeithiau ymddygiad."

2.10 YMYRRAETH GYNNAR ATALIOL

Os gwyddom fod y disgyblion yn ein hysgolion yn cael trafferth i ddatblygu sgiliau llythrennedd neu rifedd mae gennym amrywiaeth o becynnau ymyrraeth priodol yr ydym yn eu rhoi mewn lle yn ystod y cyfnod cynnar i'w helpu i oresgyn eu rhwystrau a'u haddysgu'n fwy strwythuredig a theilwredig. I'r plant hynny sydd wedi cael y profiad o drawma emosiynol, esgeulustod a cham-drin, bydd angen yr un lefel o gefnogaeth ychwanegol i gynorthwyo datblygiad fel plentyn ag anawsterau llythrennedd. Felly yn yr un modd wrth i ni dargedu llythrennedd, mae angen i ni gael pecyn ymyrraeth ar gyfer datblygiad cymdeithasol ac emosiynol. Nid yw hyn ar wahân i PDG, mae'n rhan o fap darpariaeth yr ysgol. Isod, gwelir yr ymyrraeth y mae PDG yn elwa ohono fwyaf, er nid yw'n rhestr gyflawn ac mae'n bosibl y bydd llawer mwy a fydd yn briodol.

GRŴP TARGED	YMYRRAETH
Pob plentyn	Staff hyfforddedig 'Ffynnu' (gweler tudalen 29) 'ELSA' (gweler tudalen 29) 'Amser -R- Time' i'r holl ddosbarth neu ar gyfer grŵp bach sy'n cynnwys PDG Rhyngweithio cymdeithasol a chefnogi perthnasoedd Systemau cefnogi yn yr iard chwarae fel bydis a stopiau iard chwarae Cefnogi llythrennedd a rhifedd nes ei fod yn weithredol o ran llythrennedd a rhifedd Pecynnau i bwrpas Tîm LACE lleol - gweler manylion cyswllt ar dudalen 61 am ragor o wybodaeth.
Plant ifanc	Cefnogaeth iaith e.e. 'Partneriaid Siarad'.
Plan oedran cynradd	'Blwch llythyrau' i blant cymwys.
Blwyddyn 6	Addysgu sy'n hybu llythrennedd gweithredol RHAGLEN 'CALLIO' ' Ymyrraeth Cynorthwyydd Cymorth Dysgu (CCD) Cynllun Addysg Personol a mewnbwn dwys i baratoi ar gyfer pontio Defnyddio adnoddau o'r math 'Dechrau Ysgol Uwchradd'
Blwyddyn 7 - 9	RHAGLEN 'CALLIO' Mentora Cyngor a chefnogaeth am ddewisiadau Cwnsela wedi ei leoli yn yr ysgol Mentora cymheiriaid
Blwyddyn 10	Cynyddu'r ffocws ar gyflawniadau TGAU ac felly cael mynediad at adnoddau ychwanegol Cefnogaeth Mentor Ieuenctid yn ôl y gofyn Pecynnau amgen i'r cwricwlwm Cwnsela wedi ei leoli yn yr ysgol Hwb i lythrennedd Mentora cymheiriaid

2.9 MAE ANGEN DOSBARTHIADAU SY'N YSTYRLON O PDG AR YSGOLION SY'N YSTYRLON O PDG !

Trefn trefn trefn!

Cydbwyso lefelau uchel o gefnogaeth gyda gwir her

Cysylltu, gyda medr, pob Plentyn â pherson allweddol y bydd yn ymberthyn Yn dda ag ef

Gweithio'n agos at ofalwyr a gweithwyr cymdeithasol

Adeiladu pob sgil sylfaenol

Gwneud yr un peth iddynt ag a wneir i bob plentyn ond mwy felly

Adnabod PDG yn dda ac yn weithredol ac adeiladu perthynas gadarnhaol

Yn benodol addysgu sgiliau cymdeithasol a pherthynas

Ymwybodol o'r angen am iaith a gweithgareddau sy'n ystyrlon o PDG

Cynlluniau ar gyfer pontio yn y dyfodol

Osgoi'r "mannau problemus"

Staff wedi'u rheoleiddio'n emosiynol ac yn dawel eu meddwl

Meithrin y plentyn

Gwahanu'r ymddygiad oddi wrth y plentyn

2.7 GOFAL IECHYD DA

Mae'r un risgiau iechyd gan PDG ag sydd gan eu cymheiriaid ond caiff graddau'r risgiau eu gwaethygu yn sgil eu profiadau blaenorol. Mae Gwasanaethau Iechyd yn cyflogi gweithwyr iechyd arbenigol i PDG er mwyn mynd i'r afael â'u hanghenion iechyd yn briodol a chyflym. Pan fydd plant a phobl ifanc yn derbyn gofal, mae asesiad statudol o'u hiechyd yn ofynnol ymhen 28 diwrnod. Mae Asesiadau Iechyd hefyd yn cymryd i ystyriaeth sut mae plentyn yn gwneud cynnydd ac yn ymdopi â'r ysgol. Yna, bydd Adolygiad o Asesiadau Iechyd yn digwydd bob 6 mis i blant o dan 5 oed a phob blwyddyn i'r rheini dros 5 oed, tra bo'r plentyn yn derbyn gofal. Mae'n bosibl bydd PDG angen amser i ffwrdd yn ystod oriau ysgol ar gyfer hyn ac unrhyw apwyntiadau iechyd sydd eu hangen arnynt, er mwyn cyflawni iechyd a llesiant cadarnhaol.

2.8 CYNHYRCHU A GWEITHREDU CYNLLUNIAU ADDYSG PERSONOL O ANSAWDD UCHEL

Fel y nodwyd ym Mhennod 1, rhaid i bob PDG gael Cynllun Addysg Personol cyfredol. **Gofyniad statudol yw hyn**. Yn y rhan fwyaf o Ysgolion sy'n Ystyrlon i PDG, mae'r Cynllun Addysg Personol yn llawer mwy na ffurfioldeb sy'n cael ei osod mewn lle oherwydd y gofynion i wneud hynny. Gall Cynlluniau Addysg Personol fod yn ddogfennau defnyddiol iawn sy'n canolbwyntio ar berson gan lwyddo i gyfarwyddo a chydlynu ymyrraeth a chefnogaeth a roddir i PDG drwy godi dyheadau ac adeiladu cyfleoedd bywyd.

Y Cynlluniau Addysg Personol gorau yw'r rhai:

- a rennir
- a ddefnyddiwyd
- a ddiweddarwyd
- sy'n berthnasol
- sy'n berthnasol i'r oedran
- sydd â thargedau CAMPUS tymor byr a hir, gyda gweithredu a graddfeydd amser
- sy'n ddyheadol
- sy'n wahanol i gynlluniau eraill
- sy'n cael ei gefnogi gan "broffil un dudalen"

Dylai'r canlynol fod yn gynwysedig mewn Cynllun Addysg Personol:

- Darpariaeth addysgol, yn arbennig o berthnasol i blant yn ystod eu Blynyddoedd Cynnar;
- Angen cefnogaeth ar y plentyn i'w helpu i wireddu ei gyflawniadau a dyheadau tymor byr a hir;
- Cefnogaeth 'dala lan' i'r PDG rheini y mae eu cyflawniadau'n is na'r disgwyl am eu hoed a'u gallu;
- Cynllunio i'r dyfodol, fel paratoi ar gyfer pontio neu newidiadau a ragwelwyd i'r plentyn neu'r person ifanc;
- Gweithgareddau dysgu "y tu allan i oriau", cefnogaeth astudio a diddordebau hamdden; a
- Phresenoldeb yn yr ysgol a ble y bo'n briodol, cefnogaeth emosiynol, gymdeithasol ac ymddygiadol.

Efallai bod gan blentyn Gynllun Datblygu Unigol sy'n mynd i'r afael â'i anghenion dysgu ychwanegol. Mae'n bwysig bod y Cynllun Addysg Personol a'r Cynllun Datblygu Unigol yn cydweithio'n dda gan sicrhau dull cydlynol a chydgysylltiedig o gefnogi'r plentyn.

Osgoi a cheisio

Mae Louise Bombèr (2011) yn awgrymu bod y canlynol yn bwysig wrth inni gyfathrebu â PDG (a'n holl ddisgyblion, wrth gwrs):

Ceisiwch osgoi	**Yn hytrach ceisiwch**
Coegni	Bod yn uniongyrchol, clir a phlaen yn y ffordd y siaradwn â disgyblion.
Dweud y drefn yn gyhoeddus	Siarad yn uniongyrchol â PDG ac osgoi dweud 'ti/chi' ond dweud 'beth am i ni'
Ymateb yn ymosodol a direolaeth	Ymdawelwch yn gyntaf, ac yna siarad yn bendant ond yn dawel.
Cywilyddio neu fychanu disgyblion	Mae pawb yn gwneud camgymeriadau o bryd i'w gilydd, maen nhw'n gyfle i wella, felly defnyddiwch iaith fel *"Beth am i ni ymarfer"* **neu** *"Beth am geisio gwella ..."*
Sylwadau sy'n bychanu	Defnyddiwch iaith sydd bob amser yn gadarnhaol ac yn edrych tuag ymlaen
Lladd ar y person yn hytrach na'i weithredoedd	Rhaid i ni gyd gael ei gwerthfawrogi fel person. Mae PDG yn aml yn teimlo'n ddiwerth ac yn bobl 'ddrwg' felly rhaid pwysleisio mai'r camgymeriad a wnaed yw'r anhawster nid y nhw fel person.

2.6 GWRANDEWCH AR 'LAIS Y PLENTYN'

Yn ystod y blynyddoedd diweddar, mae'r syniad o gyfranogiad plant wedi tyfu'n gyflym, ac mae 'llais' wedi dyfod yn gysyniad pwysig wrth ymchwilio i blant a phobl ifanc. Drwy gydol yr adnodd hwn, rydym wedi ceisio atgyfnerthu hyn, gan bwysleisio'r angen i wirioneddol wrando ar y plant a'r bobl ifanc yr ydym yn gweithio â nhw i sicrhau nad ydym yn deall eu safbwyntiau yn unig ond ein bod ni hefyd yn eu hystyried fel y ffocws canolog wrth gynllunio sut i'w cefnogi. Mae Pennod 4, 'Gweithio ag eraill' yn canolbwyntio ar yr hyn mae pobl ifanc wedi ei ddweud wrthym sydd fwyaf pwysig iddyn nhw, sy'n ddiddorol ac yn addysgiadol iawn i'w ddarllen.

Y pwynt allweddol yma wrth feddwl am yr hyn sy'n gwneud ysgol yn Ystyrlon i PDG, yw ystyried pwysigrwydd a photensial pwerus o ran sicrhau rhoi ystyriaeth i safbwyntiau PDG, y rhai sy'n byw'r profiad o dderbyn gofal, wrth benderfynu ar weithredu mewn ysgol neu ar lefel unigol.

2.5 IAITH GADARNHAOL A CHYFATHREBU

Fel yr esboniwyd eisoes ym Mhennod 2, pa mor sefydlog, meithriniol a gofalgar bynnag yw lleoliad gofal cyfredol plentyn, bydd bob amser ganddo batrwm meddwl sy'n groniad o brofiadau ac atgofion ei orffennol, na ellir ei 'sychu' i ffwrdd yn yr un modd ag a wnawn gyda chyfrifiadur. Mae'r plentyn ar y ffordd goch neu ambr a bydd yn daith hir cyn iddo gyrraedd y ffordd las (cyfeiriwch at dudalen 19).

Mae hyn yn golygu y bydd yn ymateb ac yn ymberthyn i eraill ar sail ei ddisgwyliadau o'r hyn sydd wedi digwydd iddo yn y gorffennol. Mae llawer o PDG yn gweld eu byd drwy 'sbectol bywyd' a bydd angen help arnynt i ddeall fod yna ffyrdd gwahanol o ymateb i'r byd. Bydd ein cyfathrebu ni â phlant yn hanfodol o ran eu helpu nhw ac mae yna nifer o ffyrdd y gallwn gyflawni hyn:

Perthynas ag oedolion

Gall PDG geisio bod yn orgyfeillgar neu i'r gwrthwyneb hynod o amharchus ac anfoesgar iawn. Wrth ymateb i hyn, dylai'r ymateb bob amser ddangos i blentyn sut y gall ymddwyn mewn ffordd sy'n fwy priodol yn gymdeithasol ar gyfer ei oedran.

Er enghraifft, gwnewch "bawen lawen" ('high five'), modelu dechrau sgwrs, ysgwyd llaw, dangos y bawd.

Helpu PDG i ddysgu pan fo'n briodol siarad

Mae'n anodd i rai plant ddysgu'r gwahaniaeth cynnil rhwng pan fo plentyn yn cael siarad yn rhydd mewn dosbarth a phan ddisgwylir iddo wrando ar eraill neu barhau â'i waith.



Gall defnyddio arwyddion cymorth gweledol gynorthwyo'n fawr gyda hyn e.e. Cardiau golau traffig neu wneud sylw am ymddygiad cadarnhaol eraill.

Defnyddio iaith gadarnhaol

Mae canolbwyntio ar yr hyn yr ydym ei eisiau ac nid ar yr hyn nad ydym ei eisiau yn llawer mwy defnyddiol i blant a phobl ifanc.

E.e. *"Paid cipiad!"*

yn lle hynny, dywedwch

"Os wyt ti am y car, gofynna i Bob os wyt ti'n gallu ei gael ar ôl iddo orffen chwarae gydag e."

Neu yn lle

"Paid â siarad ar draws!"

Dywedwch

"Os gwnei di sefyll ar yr ochr ac edrych arna'i byddaf yn gwybod dy fod am siarad a byddaf yn siarad â thi cyn gynted ag yr ydw i wedi gorffen siarad â Sophie".

Esboniad / dehongliad o sefyllfaoedd cymdeithasol a chamddealltwriaeth

Yn aml, bydd PDG yn camddehongli sefyllfa gymdeithasol oherwydd yr hyn a ddigwyddodd iddynt yn y gorffennol. Gallwn eu helpu drwy fod yn gwbl glir ynghylch beth sy'n digwydd a pham.

E.e. Daeth Mohammed i mewn i'r dosbarth ar ddechrau'r diwrnod am fod y plant eraill yn cymryd ei gapan pêl-fas oddi wrtho yn yr iard chwarae, ac roedd e'n meddwl eu bod yn ei fwlio. Roedd angen help arno i weld mae chwarae gêm oedd y plant a bod y lleill yn mwynhau'r gêm yn fawr ac mae eu hunig fwriad oedd ei gynnwys yn yr hwyl.

Mae straeon cymdeithasol/cartwnau stribed comig hefyd yn ddefnyddiol. Y ffordd fwyaf effeithiol o wneud hyn yw 'ar yr adeg' yn hytrach na'i aseinio i ABCh neu amser grŵp penodedig.

Felly sut gallwn ni helpu?

GELLIR YSTYRIED Y SYNIADAU SY'N DILYN, SYDD WEDI EU SEILIO AR YR HYN MAE YMCHWIL YN EI DDWEUD WRTHYM A'U CEFNOGI GAN SAFBWYNTIAU A PHROFIADAU'R YMARFERWYR.

Peidiwch ag aros am broblem

Ceisiwch ystyried bob tro a ddylai PDG gael ei gynnwys mewn unrhyw ymyrraeth grŵp bach y mae'r ysgol yn ei chynnal ac sydd wedi ei anelu at hyrwyddo cyfeillgarwch a pherthynas. Mae'n well cynnwys PDG a rhoi cyfleoedd dysgu ychwanegol iddynt na pheidio â chael cyfle am ddysgu ychwanegol o'r sgiliau craidd hyn.

Strwythur, strwythur, strwythur

Mae plant sydd wedi cael y profiad o drawma yn elwa o gael eu hamser rhydd wedi ei strwythuro. Peidiwch â'u gadael yn rhydd yn yr iard chwarae a gobeithio am y gorau. Ymdriniwch â nhw fel y byddech yn ei wneud â phlentyn iau, a defnyddio strwythur i ddysgu iddynt sut i chwarae.

Addysgu eglur ar gyfer sgiliau cymdeithasol priodol

Yn yr un modd ag yr ydym yn addysgu plant i ddarllen a defnyddio strwythur sy'n adeiladu elfennau cydrannol yn raddol, mae angen i ni ddilyn ymagwedd systematig i ddatblygu sgiliau cymdeithasol a pherthynas. Mae yna lawer o adnoddau ar gael i gynorthwyo â hyn.

Byddwch yn ymwybodol, sylwch ac atgyfnerthwch pan fydd y plentyn yn ceisio cymhwyso sgiliau newydd y mae e/hi yn eu dysgu

Cofiwch, mae dysgu rhywbeth newydd a/neu newid hen ymddygiad yn cymryd llawer o ymdrech a gall fod yn anodd iawn. Byddwch yn sylwgar o blant sy'n ceisio gwneud hyn gan wobrwyo/canmol/ cydnabod bob tro maen nhw'n ei wneud fel eu bod yn fwy tebygol o roi cynnig arni'r 2il, 3ydd, 4ydd tro..

Bydd llithro'n ôl yn digwydd – fe'ch rhybuddiwyd!

Am bob mathau o resymau, bydd plant yn aml yn cymryd cam yn ôl a ddim bob amser yn symud ymlaen i'r cyfeiriad y byddem yn ei hoffi. Byddwch yn amyneddgar ac ymdawelwch. Bydd y plant yn dychwelyd i'r fan ble'r oedden nhw.

Mynd i'r afael â'r label 'drwg'

Yn anochel, bydd plant sy'n ymddwyn yn wahanol yn yr ysgol yn cael eu dynodi fel 'drwg' gan bawb: rhieni eraill, plant a staff yr ysgol. Y mae'n bwysig sylwi ar hyn a gweithio'n galed i fynd i'r afael â hyn mor gyflym â phosibl. Neu gall y peth weithio fel bod y plentyn yn ymddwyn yn ôl yr hunaniaeth mae eraill yn ei rhoi iddo.

Ymgysylltu â gweithgareddau cadarnhaol

Gallai un ffordd o ddarparu'r maint cywir o strwythur i PDG, yn ogystal ag adeiladu ymwybyddiaeth gadarnhaol o werth, gynnwys eu hannog i gymryd rhan mewn gweithgareddau defnyddiol fel cymryd cyfrifoldeb (e.e. bydi iard chwarae, helpu'r gofalwr) neu gyfranogi mewn clwb (celf, pêl-droed).

Blaenoriaethu'r gwaith hwn

Un o'r nodweddion gwytnwch pwysicaf y gallwn helpu PDG ei gyflawni yw adeiladu perthynas sy'n parhau a chael grŵp cefnogol o ffrindiau. Mae'n bwysicach nac unrhyw ddeilliant Cyfnod Allweddol. Mae'n gwella cynhwysiant mewn ysgol a chymdeithas ac yn diogelu yn erbyn ffactorau risg eraill fel methiant academaidd, problemau iechyd meddwl ac ymddygiad troseddol.

2.4 CYFEILLGARWCH A PHERTHYNAS

Eitem bellach a fydd yn adeiladu ac yn gwella gwytnwch person ifanc yn y system gofal yw'r gallu i ryngweithio'n dda yn gymdeithasol, adeiladu perthynas ac yna datblygu a chynnal cyfeillgarwch. Mae angen ffrindiau ar bawb. Mae bodau dynol yn greaduriaid cymdeithasol ac rydym yn ffynnu ar berthnasoedd aml ac amrywiol a gawn gydag eraill. Gall y rhain fod yn aelodau teulu agos, ein ffrindiau hirdymor, ffrindiau yn y gwaith neu amser hamdden, y bobl yr ydym yn eu hadnabod yn y siop leol neu'r rheini a welwn ar y trên bob dydd. O'r holl wahanol berthnasoedd hyn, byddwn yn derbyn pethau yr ydym yn eu hoffi a'u hangen, fel synnwyr o berthyn a'r wybodaeth fod gan eraill ddiddordeb ynom, ac yn gofalu amdanom. Maen nhw hefyd yn darparu llawer o bethau eraill: hwyl, hunaniaeth gyffredin, cysur, 'clust i wrando', help a chymorth. Heb ein ffrindiau fe fyddem ar goll.

Ar yr olwg gyntaf gall llawer o blant sy'n profi trawma cynnar ymddangos fel eu bod yn hyderus yn gymdeithasol ac yn gallu gwneud ffrindiau'n hawdd. Fodd bynnag, mae'r cyfeillgarwch hwn yn aml yn arwynebol, ac yn raddol daw i'r amlwg y gallai'r plant hyn feddu ar lawer o anawsterau o ran cynnal cyfeillgarwch. Ymhlith y problemau mae'r rhain:

- Nid ydynt yr un oedran yn emosiynol ag y maen nhw yn ddatblygiadol. Daw hyn i'r amlwg yn ystod cyfnodau o stres;
- Ni fyddant wedi cael yr un modelau rôl ag eraill, felly ni fyddant yn deall sut i ymddwyn mewn perthynas fel dangos sut yr ydych yn teimlo, sut i fynegi eich hun yn ddoeth a sut i ddweud 'Na' yn garedig;
- Mae'n bosibl y bydd ganddynt batrymau ymddygiad sy'n peri ofn neu'n cadw pobl draw fel dweud celwydd, dwyn, patrymau cadw sylw gwael, a'r angen i reoli neu wyrdroi'r sefyllfa.

2.3 LLESIANT CADARNHAOL A DATBLYGU LLYTHRENNEDD EMOSIYNOL

Diffiniodd Peter Sharp (2001) bobl sy'n llythrennol emosiynol fel y rheini sy'n 'gallu cydnabod, delio a mynegi eu hemosiynau'n briodol'. Mae angen i ni gydnabod yr emosiynau yr ydym yn eu profi fel ein bod ni'n gallu eu diffinio. Wrth i ni ddatblygu geirfa emosiynol, cawn ein galluogi i roi ein teimladau mewn geiriau. Mae dealltwriaeth emosiynol yn bwysig os ydym am ddysgu oddi wrth ein profiadau a datblygu gwytnwch. Mae gallu rheoli ein hemosiynau yn ein galluogi ni i adeiladu a chynnal perthynas iach ag eraill. Trwy ddysgu i fynegi ein hemosiynau mewn ffyrdd priodol, rydym yn gallu helpu ein hunain yn ogystal â phobl eraill.

Yr eitem nesaf i fod ar restr siopa gwytnwch yw i PDG gael eu taclu'n emosiynol ar gyfer y byd gyda lefel ddigonol o lythrennedd emosiynol ac ymwybyddiaeth gadarnhaol o lesiant. Rydym yn deall fod plant yn dysgu orau pan fydd eu hanghenion emosiynol yn cael eu diwallu'n effeithiol. Fel oedolion, fe wyddom pan fyddwn yn wynebu materion difrifol bywyd fel colled a galar, stres ariannol neu ein llethu gan bryder, ei fod yn anodd iawn canolbwyntio ar waith ac ar ein gweithgareddau dyddiol am fod ein hemosiynau yn gorlethu ein gallu i weithredu. Fyddem ni ddim yn gallu disgwyl i blant sydd wedi neu sydd yn profi trawma mawr a stres yn eu bywydau i ddod i'r ysgol i osod eu problemau y tu cefn iddynt ac i setlo lawr i ddysgu.

Mae addysgu llythrennedd emosiynol (a'r iaith gysylltiol fynegiannol a derbynol) yn arbennig o bwysig i'r disgyblion mwyaf agored i niwed, gan fod eu gallu i ddysgu yn gallu cael ei effeithio'n groes gan anawsterau emosiynol a seicolegol. Os byddwn yn rhoi cyfle iddynt feddwl am yr anawsterau hyn oddi fewn i gyd-destun perthynas sy'n gefnogol a diogel, gallwn eu helpu i ddyfod yn fwy gwydn yn wyneb adfyd. Wrth iddynt deimlo eu bod yn gallu cydnabod a rheoli eu teimladau'n well, byddant yn ymgysylltu'n fwy parod gyda'r heriau dysgu y mae'r ysgol yn eu cyflwyno.

Ceir nifer o ffyrdd i fynd i'r afael â hyn, ond y mwyaf effeithiol yw gweithredu ymyrraeth sydd eisoes mewn lle mewn ysgolion ledled RhCT a MT fel **Cynorthwywyr ELSA a Ffynnu.**
(ELSA – Cynorthwyydd Cefnogi Llythrennedd Emosiynol).

Cynorthwywyr Cefnogi Llythrennedd Emosiynol yw Cynorthwywyr ELSA. Cynorthwywyr addysgu ydyn nhw sydd wedi cwblhau hyfforddiant 6 diwrnod i'w helpu i gefnogi datblygiad emosiynol plant a phobl ifanc yn yr ysgol.

Mae Cynorthwywyr ELSA yn helpu plant a phobl ifanc i ddysgu a deall eu hemosiynau a pharchu teimladau'r rheini o'u cwmpas. Maen nhw'n darparu'r amser a'r gwagle i ddisgyblion feddwl am eu hamgylchiadau personol a sut y maen nhw'n rheoli hynny.

Mae'r dull FFYNNU yn helpu staff i adnabod anghenion emosiynol a chymdeithasol na chafodd eu diwallu ac i fynd i'r afael â'r anghenion hynny fel bod plant yn barod i ddysgu ac yn fwy abl i gyflawni eu potensial. Mae'n darparu ymagwedd ysgol gyfan o ran datblygiad cymdeithasol ac emosiynol sy'n drylwyr a phwyllog. Yn dilyn hyfforddiant mae staff yn gallu:

- ✓ *Sgrinio plant ar gyfer angen cymdeithasol ac emosiynol yn erbyn disgwyliadau sy'n berthnasol i oedran;*
- ✓ *Defnyddio'r ystafell ddosbarth a strategaethau'n seiliedig ar y cwricwlwm i helpu'r rheini mewn angen am beth cefnogaeth, a*
- ✓ *Darparu cynlluniau gweithredu targededig a chefnogaeth 1:1 i'r rheini â'r angen mwyaf.*

Mae hyn yn pwysleisio pwysigrwydd yr holl bobl broffesiynol sy'n cefnogi PDG mewn unrhyw fodd gan sicrhau bod ganddynt ddyheadau uchel a heriol a fydd yn ysbrydoli ac yn ysgogi disgyblion. Mae Llywodraeth Cymru (2015a) yn dweud wrthym:

"Mae dysgwyr wrth galon yr hyn a wnawn. Mae gennym ddyheadau uchel o ran eu cyflawniadau a'u llesiant: ni ddylai cefndir plentyn neu berson ifanc fyth gyfyngu ar ei gyflawniadau. Er mwyn gosod y dysgwr yng nghanol ein system addysg rhaid bod gennym ddysgu perthnasol, heriol sy'n cael ei werthfawrogi a'i gyflenwi gan athrawon, darlithwyr a staff cefnogi ysbrydoledig sydd yn eu tro'n creu dysgwyr a ysbrydolwyd".

Lleihau Cyrhaeddiad Isel

Nid oes ymyrraeth arbennig i wella cyrhaeddiad llythrennedd na rhifedd PDG er mwyn cael gwell deilliannau. Y rhaglenni a strategaethau arbenigol sydd eu hangen arnom yw'r rheini sy'n berthnasol i faterion ymlyniad a phroblemau cysylltiedig, fel yr amlygir drwy gydol yr adnodd hwn. Er mwyn lleihau neu oresgyn cyrhaeddiad isel o ran iaith, llythrennedd a rhifedd PDG, yr ateb yn syml yw defnyddio'r ymyrraeth y gwyddom amdani ar gyfer pob plentyn ond ***ei gweithredu'n wahanol i'r rheini sy'n PDG.***

- Blaenoriaethu PDG i'w cynnwys mewn grwpiau gymaint ag sy'n bosibl a hyd yn oed pan fo dim ond peth lefel o dangyflawni;
- Defnyddio Grant Datblygu Disgyblion i Blant sy'n Derbyn Gofal yn effeithiol;
- Targedu PDG ar gyfer unrhyw gyfleoedd adolygu ar gyfer arholiad; ac
- Annog presenoldeb mewn ysgolion haf, clybiau gwyliau a chlybiau gwaith cartref.

I rai PDG bydd y Tîm Addysg lleol ar gyfer PDG hefyd yn gallu helpu a chefnogi ble mae yna lawer o anawsterau.

2.2 SICRHAU PARHAD A CHYSONDEB

I'r rhan fwyaf ohonom, yn blant neu'n oedolion, fe wyddom gyda'r sicrwydd mwyaf, bod gennyn ni nifer o bobl eraill yn ein bywydau a fydd bob amser yno i'n caru, gofalu amdanom, ein hannog, cefnogi a'n gwerthfawrogi. Dyma beth sy'n ein cadw ni i fynd ar adegau heriol, yn ein helpu i dyfu a datblygu ac yn y pen draw yn rhoi i ni ein sicrwydd a'n hapusrwydd. Nid yw hyn yn wir ym mywydau PDG, a gall beri ofn dirfawr ar blentyn, gan arwain at fathau o ymddygiad sy'n peri pryder a welir mewn ysgolion, ac ni ddylid byth eu tanbrisio. Mae'n hanfodol deall ac edrych ar y byd sy'n newid ym mhrofiad y plentyn o'i safbwynt e. Dylid hyrwyddo perthynas allweddol mewn ysgolion, fel bod PDG mewn cysylltiad rheolaidd ag oedolyn i ddangos iddo ei fod yno i edrych allan amdano ac mae hynny'n hanfodol i hyrwyddo ymwybyddiaeth o hunan ofal a diogelwch.

Presenoldeb

Gan fod lefelau uchel o bresenoldeb yn hanfodol, bydd ysgol sy'n ystyrlon i PDG yn sicrhau, oddi fewn i unrhyw bolisïau ac arferion presenoldeb sydd mewn lle yn yr ysgol, fod PDG yn cael eu dynodi fel grŵp sy'n agored i niwed, gan ganolbwyntio ar ymateb cynnar a chyflym i fynd i'r afael ag unrhyw gwymp mewn presenoldeb.

ADRAN 2: YMAGWEDDAU ATALIOL: ADEILADU GWYTNWCH EIN PDG

Yn y Bennod hon, byddwn yn ystyried y nodweddion sydd eu hangen ar gyfer pob PDG mewn ysgol sy'n ystyrlon o PDG. Bydd hyn yn cynnwys agweddau a fydd yn sicrhau ein bod ni'n helpu ein plant i ddyfod yn bobl ifanc gwydn, sy'n gallu gweithredu'n gadarnhaol ac yn annibynnol fel oedolion, a cheisiwn leihau hyd y gellir yr effaith bosibl ddaw yn sgil yr anawsterau a wynebant ar hyd y daith drwy'r ysgol ac addysg.

Mae'r ffocws yn gryf ar yr elfennau y dylid meddwl amdanynt ar gyfer yr holl PDG hyd yn oed os ydyn nhw'n ymddangos i fod yn gwneud yn well ac nad oes unrhyw bryderon enbyd ynghylch eu cynnydd a'u datblygiad. Mae hyn oherwydd ein bod ni'n gwybod y bydd PDG, ar wahanol adegau wrth iddynt wneud cynnydd ar hyd eu taith addysgol, yn wynebu mwy o heriau nac eraill nad ydynt yn rhan o'r System Gofal. Mae'n bwysig ein bod ni'n gwneud y mwyaf o'u gallu i fod yn wydn a chryf a goroesi'r hyn mae bywyd yn ei daflu atynt. Gallwn feddwl am hyn fel 'rhaglen frechiad' ar gyfer PDG efallai.i.

2.1 DYHEADAU UCHEL, LLEIHAU CYFLAWNIADAU ISELL

Rhaid i lwyddiant addysgol fod yr eitem gyntaf ar ein 'rhestr siopa gwytnwch'. Fel yr ydym wedi nodi yn y cyflwyniad ac yna ym Mhennod 1, ar hyn o bryd mae yna lawer o ymchwil sy'n ein haddysgu fod llawer o blant ar hyn o bryd yn y system gofal nad ydynt yn cyflawni gystal â chymheiriaid iddynt nad ydynt mewn gofal. Mae effaith hyn yn amrywio'n eang, ac yn cynnwys eu cyraeddiadau academaidd wrth siarad, gwrando, darllen, ysgrifennu, sillafu, mathemateg a rhifedd sylfaenol. Mae'r bwlch yn parhau ac yn lledaenu wrth i ddisgyblion fynd yn hŷn ac o ganlyniad, dim ond 7% o blant a ddaw o ofal sy'n mynychu prifysgol o'i gymharu â 50% o'r boblogaeth gyffredinol (O'Higgins et al 2015).

Ceir nifer o ffyrdd i fynd i'r afael â'r sefyllfa ac mae cyfran helaeth o'r ddogfen hon yn canolbwyntio ar helpu ysgolion i ystyried beth maen nhw'n gallu ei wneud. Ceir dwy agwedd sy'n bwysig eu hamlygu yma:

Dyheadau Uchel

Cwyn gyffredin gan PDG yw nad oes gan athrawon ddisgwyliadau uchel ynghylch yr hyn maen nhw'n gallu ei gyflawni'n addysgol. Caiff hyn hefyd ei atgyfnerthu gan y canfyddiadau mewn ymchwil diweddar gan Lywodraeth Cymru (Mannay et al 2015). Canfu'r ymchwil hwn y canlynol am PDG eu hunain:

"…Nid oes diffyg dyhead ganddynt. Roedd llawer yn gallu lleisio'n glir beth oedd eu dyheadau ar gyfer gyrfaoedd a chyflogaeth yn y dyfodol, ac roedd eu dewisiadau'n cael eu dylanwadu gan amrywiaeth o ffactorau. Roedd gan blant iau, yn arbennig, lawer o syniadau, ac roeddynt yn hyderus yn eu gallu ac yn frwdfrydig am eu bywydau yn y dyfodol".

Ond, yn anffodus, gwnaeth yr un bobl ifanc hyn adrodd yn ôl eu bod yn teimlo fod gan lawer o athrawon (a gofalwyr maeth):

"... ddisgwyliadau is oddi wrthynt, neu eu bod wedi gwneud tybiaethau am eu gallu deallusol, yn seiliedig ar y ffaith eu bod mewn gofal".

Derbyniadau

Yn rhy aml, mae PDG yn treulio cyfnodau estynedig yn dilyn symud lleoliad yn aros am ysgol newydd i gytuno i'w derbyn sy'n cymhlethu'r heriau a'r anawsterau mae PDG yn eu hwynebu ar adeg a allai fod yn drawmatig iawn iddynt. Mae hyn yn groes i'r rheoliadau cyfredol, gan y dylai PDG a phlant a oedd yn derbyn gofal yn flaenorol gael eu gosod yn gyntaf yn y rheng ar gyfer meini prawf gordanysgrifio i bob ysgol ble mae ceisiadau ar gyfer derbyn yn fwy na'r nifer ar gyfer yr ysgol. Mae'r Cod Derbyn i Ysgolion a'r Cod Apeliadau Derbyn i Ysgolion (2013) yn datgan ei fod yn hanfodol fod plant heb unrhyw le mewn ysgol yn cael un wedi ei phennu ar eu cyfer yn gyflym.

Pan fydd PDG yn cael lle, dylai'r ysgol yn enwedig y Person Dynodedig a'r Llywodraethwr PDG osod prosesau mewn lle sy'n sicrhau fod y PDG yn cael ei groesawu i'r ysgol mewn modd ymarferol.

Mae angen i'r ysgol gadw mewn cof y gallai'r plentyn fod yn cyrraedd ar ôl profiad sydd wedi ei ypsetio'n ddirfawr ac sydd wedi bod yn drawmatig iddo. Mae'n bosibl ei fod wedi gadael grŵp cryf o ffrindiau agos ar ei ôl ac athrawon yr oedd perthynas dda ganddo â hwy. Ar lefel uwchradd, bydd amharu ar waith cwrs yn sicr wedi digwydd ynghyd â'r opsiynau a oedd ar gael iddynt.

Paratoi ar gyfer PDG sy'n dod i mewn i ysgolion – Beth sy'n gallu gweithio mewn ysgolion?

Dywedodd un person ifanc fod ysgol newydd yn golygu: "teimlo ofn - athrawon newydd, pobl newydd, rheolau newydd"

- ✓ Ysgol ag ethos cadarnhaol a gofalgar, sy'n croesawu plant o'r dechrau;
- ✓ Cyfrifoldeb gan rywun yn yr ysgol dros blant unigol, i'w gwneud i deimlo'n arbennig;
- ✓ Tîm bugeiliol da sy'n cydweithio;
- ✓ Dylai ysgol wybod beth yw'r wybodaeth allweddol am blentyn cyn iddo gyrraedd yr ysgol/bod yn barod. Yn enwedig bod yn ymwybodol o gryfderau yn ogystal ag anghenion;
- ✓ Cyflwyniad i'r ysgol a gynlluniwyd; a
- ✓ Chaniatáu gofalwr maeth i gefnogi plant ifanc wrth iddyn nhw setlo fewn - gan fod hyn yn lleihau pryder ymwahanu. .

Astudiaeth Achos/Enghraifft

Yn dilyn methiant ofnadwy mewn lleoliad gofal nad oedd yn fai ar y ferch Blwyddyn 10 ei hun, bu'n rhaid iddi hi symud i ysgol newydd. Mae hi'n gadael grŵp cryf o ffrindiau ar ei hôl ac roedd hi'n anelu at raddau TGAU da. Yn yr ysgol newydd mae'r ferch ifanc yn cael croeso twymgalon a sicrwydd o'r ymweliad cyntaf un. Mae'r Cydlynydd PDG wedi gwneud yn siŵr bod ei hamserlen yn glir. Gofynnwyd i ddisgyblion eraill ym Mlwyddyn 10 sicrhau ei bod yn gwybod ble i fynd ac i edrych ar ei hôl. Mae'r holl athrawon yn ei chroesawu i'r dosbarthiadau ac yn gwneud yn siŵr ei bod hi'n hapus am yr ychydig wythnosau cyntaf, ar ddiwedd pob dydd mae ei gweithiwr allweddol yn cwrdd â hi i siarad am ei dydd.

Gwaharddiadau

Mae'r canllaw cyfredol yng Nghymru yn datgan, gyhyd ag y bo'n bosibl, y dylai ysgolion osgoi gwahardd PDG ac eithrio o dan yr amgylchiadau mwyaf eithafol. Os caiff gwaharddiad ei ystyried i fod yn bosibilrwydd y mae'n hanfodol fod y Pennaeth yn cysylltu â'r Cydlynydd Addysg PDG ar gyfer eu ALl yn syth er mwyn gwneud popeth posibl i osgoi gwaharddiad. Bydd y CAPDG hefyd yn sicrhau fod y gofalwr maeth a'r gweithiwr cymdeithasol yn gwybod beth yw eu rôl a chyfrifoldebau a ble i fynd am unrhyw gyngor a chefnogaeth. Mae'n bosibl bydd y Cydlynydd hefyd yn gallu gweithio â'r ysgol, ystyried unrhyw asesu ychwanegol a helpu i fynd i'r afael â'r problemau yn fwy cadarnhaol na thrwy waharddiad. I orffen, gallant drafod gweithredu priodol yn gyflym petai'n amhosib osgoi gwaharddiad.

- ✓ CCefnogi deialog gyda dysgwyr i wella dysgu;
- ✓ Helpu staff i adolygu eu harferion er mwyn cefnogi dysgwyr; a
- ✓ Galluogi dadansoddiad o gynnydd PDG ar draws yr ysgol ac felly llywio gweithredu ac ymyraethau a allai fod yn angenrheidiol ar lefel strategol.

Mae angen defnyddio'r un fath o ddata ar gyfer pob disgybl PDG, ond rhaid i'r gwahaniaeth sicrhau fod y darlun cyflawn yn cael ei ganfod, ei ddiweddaru a'i adolygu yn llawer amlach fel bod gweithredu cynnar yn flaenoriaeth.

1.6 DEFNYDD EFFEITHIOL O GRANT DATBLYGU DISGYBLION I BLANT SY'N DERBYN GOFAL (GDD PDG)

Mae Llywodraeth Cymru yn ymroddedig i wella deilliannau PDG. Er mwyn cefnogi ysgolion ac ALl i geisio cyflawni'r nod hwn maen nhw wedi buddsoddi arian sydd wedi ei ddyrannu'n benodol i'r diben hwn. Y GDD yw'r prif fodd o wneud hyn. Mae'r system o ddyrannu'r grant wedi amrywio o flwyddyn i flwyddyn yn yr ystyr ei fod wedi mynd yn uniongyrchol i'r ALlau neu ysgolion neu'n fwy diweddar i Gonsortia Addysg. Yn y gorffennol cafodd ei seilio ar y niferoedd o PDG 2-15 oed fel y'u dynodwyd gan ddata Gwasanaethau Cymdeithasol SSDA, o'r flwyddyn flaenorol. Fodd bynnag, mae dyraniadau cyfredol yn amrywio mewn gwahanol leoliadau ac yn ddiweddar wedi cynnwys PDG, Plant a Fabwysiadwyd, a Gorchmynion Gwarcheidiaeth Arbennig.

Mae hyn yn golygu fod gan ysgolion adnoddau y gallant eu pennu i gefnogi PDG oddi fewn i'w gofal a fydd yn helpu i ariannu llawer o'r strategaethau, ac enghreifftiau cydnabyddedig o arferion da a gynigir yn y ddogfen hon. Byddai ysgol sy'n ystyrlon i PDG yn sicrhau gwariant targededig a gynlluniwyd sy'n canolbwyntio ar wella darpariaeth ar lefel strategol, yn ogystal ag ar gyfer PDG unigol sy'n gysylltiedig â thargedau cytunedig Cynllun Addysg Personol. Rhagwelir y gall cynnwys gweithredu ymyrraeth ataliol fel hybu deilliannau llythrennedd a rhifedd; cefnogi datblygiad cyfeillgarwch; gwella perthnasoedd llesiant neu hyrwyddo ymgysylltu mewn gweithgareddau cadarnhaol, yn ogystal ag ar y lefel ymatebol, fynd i'r afael yn fwy effeithiol â heriau fel cyflwyno oedolyn allweddol.

1.7 YMAGWEDDAU YSTYRLON O PDG TUAG AT DDERBYNIADAU, PRESENOLDEB A GWAHARDDIADAU

Dylai'r holl ddisgyblion fynychu ysgol yn rheolaidd ac yn gyson. Dylai cyfnodau byr o ddiffyg presenoldeb gael eu caniatáu mewn amgylchiadau diffuant neu eithriadol yn unig. Ar gyfer PDG mae'r dystiolaeth yn dynodi nad yw hyn bob amser yn gymwys am resymau sydd y tu hwnt i'w rheolaeth. **Er mwyn ymateb i hyn mae yna angen brys ar bob ysgol i fabwysiadu polisïau Ystyrlon o PDG sy'n berthnasol i dderbyniadau, presenoldeb a gwaharddiadau amserol.**

1.3 CEFNOGAETH Y LLYWODRAETHWYR

Ceir disgwyliad y bydd corff llywodraethu ysgolion hefyd yn cymryd rôl weithredol wrth gefnogi eu PDG. Ymhlith y ffyrdd y dylai hyn gael ei gyflawni mae'r canlynol:

- ✓ Enwebu llywodraethwr sy'n gysylltiedig â'r Person Dynodedig ar gyfer PDG, i dderbyn adroddiadau cynnydd rheolaidd a darparu adborth i'r corff llywodraethu. (Ni ddylai'r adroddiadau hyn gynnwys unrhyw enwau plant unigol am resymau amddiffyn plant a chyfrinachedd). Mae'r rôl hon yn bwysig o ran gweithredu fel eiriolwr i'r PDG;
- ✓ Sicrhau bod yr holl lywodraethwyr yn gwbl ymwybodol o ofynion cyfreithiol a Chanllawiau ar gyfer PDG;
- ✓ Sicrhau fod yna Berson Dynodedig enwebedig ar gyfer PDG;
- ✓ Cysylltu â'r Pennaeth i sicrhau fod yr Athro Dynodedig yn cael ei alluogi i gyflawni ei gyfrifoldebau mewn perthynas â PDG;
- ✓ Cefnogi'r Pennaeth, Person Dynodedig ar gyfer PDG a staff eraill i sicrhau bod anghenion PDG yn cael eu diwallu; ac
- ✓ Adolygu gweithredu effeithiol o unrhyw bolisïau ysgol sy'n berthnasol i PDG, gorau oll yn flynyddol ac o leiaf bob tair blynedd.

1.4 LLESIANT STAFF

Mae heriau dydd i ddydd ar gyfer unrhyw athro neu gynorthwyydd cefnogi yn aruthrol, boed eu gwaith mewn ysgol llawn disgyblion perffaith, galluog ac ysgogol, neu mewn ysgol sy'n 'methu' gyda niferoedd uchel o ddisgyblion yn cyflwyno heriau ymddygiadol anferthol. Rydym ni'n deall bellach bod llesiant cadarnhaol staff yn gyfraniad allweddol i lwyddiant ysgol. Mewn ysgol ble mae hyn yn flaenoriaeth a ble y gellir disgrifio hinsawdd emosiynol yr ysgol fel hyfyw, yna mae'r disgyblion yn hapusach, wedi setlo fwy, yn llai aflonyddol ac yn cyflawni gwell deilliannau. Yn glir rhaid i hyn fod yn un o'r blociau adeiladu pwysig i ysgol sy'n anelu at fod yn ystyrlon o PDG. Ymhlith y ffactorau a all helpu i hyrwyddo hyn mae'r canlynol:



1.5 SYSTEMAU TRACIO A MONITRO

Mae pwysigrwydd tracio perfformiad a deilliannau disgyblion yn agos wedi cael dealltwriaeth dda a dogfennaeth helaeth. Yn achos tracio a monitro cynnydd PDG ar lefel ysgol, y diben yw:

- ✓ Darparu trosolwg o gynnydd a chyflawniad dros amser;
- ✓ Llywio cynllunio fel rhan o'r broses Cynllun Addysg Personol;
- ✓ Dynodi ymyrraeth angenrheidiol er mwyn adeiladu gwytnwch yn gywir;
- ✓ Dynodi cryfderau;
- ✓ Dynodi unrhyw feysydd ble mae cynnydd yn arafach ac felly galluogi ymyrraeth gynnar;

Byddai staff cefnogi'r ALl fel Seicolegydd Addysg (SA) neu Gydlynydd PDG yn fwy na pharod i'ch cynghori a'ch cefnogi chi i weithredu hyn.

"D'wedwch wrthynt sut gallant helpu"

"Darparu cyrsiau hyfforddi"

"Cynnwys pobl Ifanc wrth hyfforddi athrawon ynghylch Plant sy'n Derbyn Gofal."

1.2 ATHRO DYNODEDIG AR GYFER PDG

Mae rôl ganolog i'w chwarae gan y person dynodedig ar gyfer PDG i sicrhau profiadau llesiant cadarnhaol a hapus i PDG fel

- ✓ Cadw cofnod cywir a chynhwysfawr am yr holl blant a phobl ifanc yn eu hysgol sydd mewn gofal neu wedi eu mabwysiadu;
- ✓ Pan fydd PDG newydd yn cyrraedd yr ysgol, sicrhau cyfnod cynefino llyfn a chroesawgar i'r plentyn a'r gofalwr, gan nodi unrhyw ofynion penodol, yn cynnwys statws gofal;
- ✓ Sicrhau fod Cynllun Addysg Personol yn cael ei gwblhau cyn gynted â phosibl (o leiaf ymhen 10 diwrnod os yw plentyn yn dod i mewn i ofal yn sgil argyfwng neu 28 diwrnod os yw'r plentyn yn dod i mewn i ofal ar hyd y llwybr a gynlluniwyd);
- ✓ Cynnal Cynllun Addysg Personol, gosod allan sut y byddant yn cael eu cefnogi yn yr ysgol;
- ✓ Ymddwyn fel eiriolwr i PDG oddi fewn i'r ysgol;
- ✓ Darparu person allweddol a all eirioli i'r PDG a pherson y gall y PDG fynd ato am gymorth;
- ✓ Dynodi lle diogel yn yr ysgol, er enghraifft ystafell ble gall plentyn neu berson fynd iddo os yw'n teimlo'n drallodus;
- ✓ Bod yn bresennol mewn Adolygiadau PDG a darparu gwybodaeth ysgrifenedig;
- ✓ Annog PDG i gyfranogi mewn gweithgareddau allgyrsiol a dysgu y tu allan i oriau, ble y bo'n ddichonadwy;
- ✓ Sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei throsglwyddo'n gyflym rhwng unigolion ac asiantaethau perthnasol eraill ac i ysgol newydd, os a phan fydd PDG yn trosglwyddo;
- ✓ Ceisio cael cyfarfodydd brys â phartïon perthnasol pan fydd PDG yn profi anawsterau a/neu mewn perygl o gael ei wahardd.

A HEFYD:

- ✓ Wedi derbyn hyfforddiant arbenigol am anawsterau ymlyniad, rhoi cymorth iddo ddeall a rheoli disgyblion yn gymwys;
- ✓ Gwybod sut i reoli diogelwch data a chyfrinachedd;
- ✓ Cynnal system cyfeirio effeithiol gydag asiantaethau eraill;
- ✓ Sicrhau bod yr holl staff yn eu lleoliad yn derbyn gwybodaeth berthnasol a hyfforddiant;
- ✓ Ymddwyn fel ymgynghorydd; a
- ✓ Sicrhau cyfrinachedd i blant unigol a dim ond rhannu gwybodaeth bersonol ar sail 'angen gwybod'.

Yn y Bennod hon, rydym am ystyried yr holl elfennau sydd eu hangen i sicrhau fod ysgol yn 'Ystyrlon o PDG'. Wrth baratoi hyn, nid yn unig ydym ni wedi edrych ar beth mae'r ymchwil yn ei ddweud wrthym ond yn fwyaf pwysig, rydym wedi defnyddio profiadau rhai o'r ymarferwyr mwyaf arbenigol oddi fewn i'r maes. O ganlyniad, nid theori yn unig yw'r syniadau a'r awgrymiadau a gyflwynwyd, ond strategaethau ymarferol yr ydym yn gwybod y byddant yn gweithio'n llwyddiannus mewn ysgolion prysur.

Mae diagram y pyramid yn dangos y blociau adeiladu allweddol ar gyfer ysgolion, sy'n gweithio ar 3 lefel a fydd yn cael eu trafod mewn tair adran ar wahân oddi fewn i'r bennod hon:

1. **Systemau ac arferion yr ysgol gyfan**
2. **Agweddau Ataliol: beth ddylai gael ei wneud ar gyfer pob PDG**
3. **Strategaethau ymatebol i gefnogi'r PDG sy'n cyflwyno rhagor o heriau**

Gyda'i gilydd bydd y rhain yn arwain at Ysgolion sy'n Ystyrlon o PDG. Rydym yn deall y gallai fod yn bosibl nad yw pob un o'r 'blociau' gwahanol mewn lle gennych eto, ond gobeithiwn y bydd yn rhoi cynllun i chi weithio arno i ddatblygu llawer o'r rhain.

Cyflawnodd sawl ysgol yn RhCT a Merthyr Statws Marc Ansawdd Ysgolion sy'n Ystyrlon o PDG, gydag eraill yn gweithio tuag at hyn. Mae'r fframwaith rhagoriaeth hwn wedi'i ddatblygu fel y gall ysgolion ddangos eu harferion orau trwy gydol y flwyddyn academaidd er mwyn ennill cydnabyddiaeth am fod yn ysgolion sy'n ystyrlon o PDG.

ADRAN 1 : YMAGWEDD YSGOL GYFAN SY'N YSTYRLON I PDG

1.1 HYFFORDDIANT AC YMWYBYDDIAETH I'R HOLL STAFF

Wrth galon unrhyw ysgol lwyddiannus, ofalgar a chefnogol mae tîm o staff gwybodus llawn sgiliau. Ni all ysgol fod yn well na'r bobl sy'n ei rhedeg hi. Felly er mwyn i ysgol ddyfod yn ysgol effeithiol i PDG rhaid i'r holl oedolion ynddi gael lefel o hyfforddiant sy'n cydweddu â'u cyswllt ag unigolion. Y mae'n hanfodol i raddau gwahanol fod pob oedolyn yn cael gwybod am rai o'r elfennau sy'n cael eu cynnwys oddi fewn i'r adnodd hwn. Caiff y pwynt hwn ei atgyfnerthu drwy lawer o arweiniad y llywodraeth ar lefel genedlaethol sydd wedi ei gyhoeddi dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Er enghraifft, Arweiniad NICE ar Ymlyniad (2015), sy'n argymell y canlynol:

"….cyrsiau hyfforddi athrawon o bob lefel ynghylch:

- *Sut mae anawsterau ymlyniad yn dechrau a sut y gallant amlygu mewn plant a phobl ifanc*
- *Sut mae anawsterau ymlyniad yn effeithio ar ddysgu, addysg a datblygiad cymdeithasol a deall canlyniadau cam-drin yn cynnwys trawma*
- *Sut gallant gefnogi plant a phobl ifanc sydd ag anawsterau ymlyniad."*

Mae'n bwysig nodi y gallai'r math hwn o hyfforddiant hefyd fod o werth wrth gefnogi anghenion amrywiaeth eang o ddisgyblion sy'n agored i niwed fel Plant mewn Angen, ôl-fabwysiadu, plant o gartrefi ble mae problemau iechyd meddwl neu gaethiwed i gyffuriau/alcohol yn broblem a disgyblion AAY. Yn ddelfrydol, dylai bod 3 lefel o hyfforddiant ar gael ym mhob ysgol:

Lefel un	Ymwybyddiaeth gyffredinol o anghenion holl PDG, y trawma y gallent fod wedi ei brofi a sut y gellir rheoli plant a phobl ifanc sy'n agored i niwed yn effeithiol wrth iddynt ddod i gysylltiad â nhw yn yr ysgol.
Lefel dau	Mwy o hyfforddiant trylwyr i bob athro sydd â chyfrifoldeb uniongyrchol dros PDG.
Lefel tri	Hyfforddiant trylwyr i unrhyw uwch arweinwyr â chyfrifoldebau PDG, athrawon dynodedig PDG a staff cefnogi a fydd yn gweithio'n agos â phlant a phobl ifanc unigol.



YR YSGOL SY'N YSTYRLON O PDG

Pennod tri

Yr Ysgol sy'n Ystyrlon o PDG



BYDDWCH YN OFALUS O'N DISGWYLIADAU: Y FFORDD GOCH A'R FFORDD LAS

Mae tuedd weithiau gan weithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant sydd wedi bod, neu sydd yn rhan o'r system gofal, i dderbyn bod bywydau plant a phobl ifanc wedi bod yn drawmatig iawn ac yn amodol ar nifer o heriau, ond yna i deimlo, cyn gynted ag y bo'r plentyn yn symud i sefyllfa o ofal sy'n fwy sicr a diogel y bydd patrymau ei ymddygiad yn newid yn gyflym i fod yn fwy derbyniol. Caiff hyn ei ddynodi yn y diagram isod gan y ffordd 'las' a'r ffordd 'goch'. Fodd bynnag, yn hytrach na bod yn 'ffordd gyswllt' uniongyrchol rhwng y ddau lwybr, y mae'n llawer fwy tebygol o fod yn ffordd ambr fel y dangosir yma, gyda llawer o droeon a rhwystrau ar hyd y daith. Ni all plant 'anghofio' dysgu ac atgofion emosiynol sydd wedi bod yn batrwm i'w bywydau ers blynyddoedd lawer; yn hytrach, bydd eu taith yn un anodd a allai gymryd sawl blwyddyn iddynt gan ofyn am lawer o gefnogaeth.

BLE I GAEL GWYBODAETH BELLACH AM YMLYNIAD

Fel y nodwyd eisoes uchod oddi fewn i'r bennod hon, dim ond trosolwg byr iawn yr ydym wedi gallu ei ddarparu o'r pwnc cymhleth ond diddorol hwn. Mae llawer o adnoddau ar gael bellach i'r rheini sydd am wybod rhagor.

Heather Geddes (2006). *Attachment in the Classroom: The links between children's early experience, well being and performance in school.* **Worth Publishing.**

Kim Golding (2012). *Observing children with attachment difficulties in school: a tool for identifying and supporting emotional and social difficulties in children aged 5-11.* **Jessica Kingsley: London.**
(Ceir fersiwn Blynyddoedd Cynnar o'r llyfr hwn hefyd).

Nicola Marshall (2014). *The Teacher's Introduction to attachment: Practical Essentials for Teachers, Carers and School Support Staff.* **Jessica Kingsley: London.**

Pennod dau - Stori'r ymlyniad: Y wybodaeth sydd ei hangen ar bob oedolyn sy'n gweithio gyda phlentyn yn y system gofal

Y Ffordd Las – Ymlyniad diogel

Pan fo'n fabi
Mae'r babi'n llwglyd, oer, ypset, aflonydd neu am gael sylw felly mae'r babi'n crio a'r gofalwr yn ymateb i'w angen. Mae ymlyniad rhwng y gofalwr a'r plentyn.

Yn Ystod y Blynyddoedd Cyntaf
Caiff y plentyn ei symbylu, caiff ofal ac ymateb oddi wrth oedolion gan felly ddysgu i siarad, datblygu perthynas ac ymgysylltu â'r amgylchedd.

Yn ystod y Blynyddoedd Cynnar
Datblygiad cyson yn y gwahanol feysydd. Mae'r plentyn yn gwahanu oddi wrth y gofalwyr, yn ymgysylltu â lleoliadau'r blynyddoedd cynnar ac yn adeiladu perthynas effeithiol ag eraill.

Wrth i'r plentyn fynd yn hŷn Mae'n:

- Llwyddo a gwneud cyrhaeddiad yn yr ysgol
- Adeiladu cyfeillgarwch a pherthnasoedd cryf
- Datblygu cryfder â sgiliau gwahanol
- Dangos bod swyddogaethau gweithredol cymwys ganddo
- Dyfod yn fwy llythrennol o ran ei emosiynau

Fel oedolyn
Wedi cyflawni ei botensial, datblygu cydberthnasau cryf, yn meddu ar iechyd meddwl cadarnhaol ac amrywiaeth o weithgareddau hamdden.

Y Ffordd Goch – Ymlyniad nad yw'n ddiogel/sicr

Pan fo'n fabi
Mae'r babi yn llwglyd, oer, ypset, aflonydd neu am gael sylw felly mae'r babi'n crio ond nid yw'r gofalwr yn ymateb (neu yn anghyson ei ymateb). Ni chaiff anghenion y plentyn eu diwallu.

Yn ystod y blynyddoedd cyntaf
Caiff y plentyn ei esgeuluso neu ei frifo'n gorfforol / emosiynol felly mae'n dysgu i beidio â chrio. Caiff datblygiad yr ymennydd ei effeithio gan lefelau uchel o stres.

Yn ystod y blynyddoedd cynnar
Problemau datblygiadol yn dechrau ymddangos. Gall plentyn fod yn ofnus ei natur, yn or-wyliadwrus, yn encilgar, ddim yn hoff o newid, yn grac, yn dangos ymddygiad ailadroddus, hunan barch isel.

PLENTYN YN CAEL EI GYMRYD I MEWN I OFAL AC YN SYMUD I FYW MEWN CARTREF DIOGEL GYDA GOFALWYR MAETH

Mae'r plentyn mewn cartref mwy sicr/diogel bellach ac felly bydd ei ymddygiad yn awtomatig yn newid i ymddygiad plentyn ag ymlyniad diogel

TYBIAETH



Taith hir ac anodd yw hon i blentyn. Mae'n cymryd llawer o amynedd a goddefgarwch i oresgyn profiadau blaenorol bywyd a dysgu patrymau ymddygiad newydd sy'n parhau.

Wrth i'r plentyn fynd yn hŷn:
Anawsterau ymlyniad yn dyfod yn amlycach
Gall y canlynol fod ymhlith y pethau a allai beri pryder:

- Diffyg ymddiriedaeth mewn perthynas
- Anawsterau creu cyfeillgarwch
- Llythrennedd gwael yn emosiynol
- Problemau swyddogaethau gweithredol
- Gor-wyliadwrus
- Ymwybyddiaeth wael o hunaniaeth

Fel oedolyn:
Effaith anawsterau ar ddeilliannau yn amlwg a gallent gynnwys:

- Problemau iechyd meddwl
- Ymddygiad troseddol
- NEET
- Problemau gyda pherthynas

dynodedig i blentyn (Oedolyn Allweddol), sydd â'r rôl o ganolbwyntio ar y math hwn o berthynas gyda'r plentyn yn ei ofal.

Ar gyfer ymyrraeth lwyddiannus gyda'r rhan fwyaf o ddisgyblion mae gwaith Heather Geddes (2006) yn darparu ffordd ddefnyddiol iawn o gysylltu Theori Ymlyniad â pherthnasoedd yn yr ystafell ddosbarth rhwng disgyblion, athrawon a gweithgareddau.

Fel bod dysgu'n digwydd, bydd angen i'r disgybl deimlo'n ddiogel ac ymddiried yn ei berthynas â'r athro. Ond hefyd mae angen iddo allu bod ar wahân oddi wrth yr athro a gweithio'n annibynnol ar y dasg gan wybod y bydd yr athro yno ar ei gyfer os bydd angen. Yr her ar gyfer plant ag ymlyniad nad yw'n ddiogel/sicr yw y gall hyn fod yn anodd iddynt ac felly amharu ar broses y triongl dysgu.

Mae'r strategaethau a roddir uchod yn seiliedig ar y ddealltwriaeth o sut mae anawsterau PDG yn effeithio ar eu hymddygiad i'r berthynas hon ac felly sut y gellir eu helpu orau. Caiff hyn ei ddangos yn y diagram canlynol:



Ffynhonnell : Geddes (2006)

Pan fo ymlyniad diogel yn bresennol, mae gan blant ymddiriedaeth a hyder y byddant yn cael eu helpu pan fo'n angenrheidiol, felly yn gynnar yn ystod eu bywyd ysgol maen nhw'n gallu datblygu'r sgiliau ar gyfer bod yn ddysgwyr effeithiol. O ran plant nad ydynt wedi profi ymlyniad diogel, y mae'n llawer anoddach iddynt ymddiried yn yr athro ac felly caiff y Triongl Dysgu ei amharu yn y ffyrdd canlynol:

Patrwm yr ymlyniad	*Effaith ar y triongl dysgu*
Deuoliaeth teimlad – gwrthwynebol	Mae'r plentyn yn canolbwyntio ar y berthynas "athro - plentyn" nid ar y "plentyn - tasg" felly mae'r plentyn yn ffocysu'n fawr ar gael sylw'r oedolyn.
ymlyniad osgoi	Er mwyn osgoi rhoi'r ymlyniad mewn perygl, mae'r ffocws yn gryf iawn ar ran "plentyn - tasg" y Triongl Dysgu.
ymlyniad anhrefnus	Nid yw'r PDG hyn yn ymgysylltu ag unrhyw ran o'r Triongl Dysgu.

Patrwm ymlyniad anniogel	*Sut gallai hyn effeithio ar ymddygiad yn yr ysgol?*	*Strategaethau a allai helpu*
Anhrefnus Anhrefnus Plant sydd yn debygol o fod wedi dod o gartref di-drefn iawn ble y gallent fod wedi dioddef cam-drin difrifol a / neu esgeulustod. Gallant fod yn oriog iawn wrth ymateb. Maen nhw'n gallu colli arnynt yn sydyn ac mae hyn yn eu gwneud yn anrhagweladwy iawn.	Mae'n bosibl bod y plentyn hwn yn: • dueddol o newid ei dymer yn gyflym iawn; • tueddol o deimlo rhwystredigaeth yn gyflym iawn; • cam-drin eraill; • tueddol o wneud pethau'n gyflym a heb unrhyw sbardun amlwg; • gwrthod derbyn cael ei addysgu a/ neu'n methu "caniatáu'r" athro i wybod mwy nag y mae e; • ei chael yn anodd ymddiried yn awdurdod yr athro ond o bosibl bydd yn ildio i awdurdod pennaeth yr ysgol; • gorfod rheoli perthynas; ac • orgynhyrfus llawer o'r amser.	• Sicrhau diogelwch, dibynadwyedd a rhagweladwyedd; • **Byddwch yn ostegol drwy'r amser**; • Creu ardal ddiogel neu wrthrych diogel; • Diwrnod strwythuredig â gweithgareddau rhagweladwy, trefn a defodau gostegol; • Darparu cyfleoedd rheolaidd am dasgau mecanyddol fel dot i ddot , chwilair; • Defnyddio 'tawelyddion' yn ôl disgrifiad Mosley a Grogan 2009 (gweler Pennod 5) • Ceisio osgoi cyffro a chadw pob dydd mor ostegol â phosibl; • Gall adborth cadarnhaol helpu i ddatblygu ac atgyfnerthu ymatebion mwy cadarnhaol; • Mae **gweithdrefnau ac ymatebion cytunedig** a **chefnogaeth cydweithiwr** yn hanfodol er mwyn diogelu'r athro yn ogystal â rheoli ymateb y plentyn; a • Mewn sefyllfaoedd na ellir eu rhagweld ac sy'n arwain at ffrwydrad o drais neu drallod sydyn, y camau cyntaf yw camu'n ôl, dechrau "trefn ddiogelwch" ac osgoi gwrthdaro. I blant bach gall hyn olygu mynd i fan diogel, tawel ac ysgogol e.e. ystafell yr uwch athro a ganfyddir yn bwerus/diogel a chael gweithgareddau 'blwch ymdawelu' (yn ôl amlinelliad Bombèr 2011). I blant hŷn, rhoi cerdyn caniatâd iddynt fynd â'u hunain i le diogel heb fod angen gwrthdaro.

Beth allwn ni fel oedolion ei wneud?

Rydym ni'n deall bellach bod angen i ni fel addysgwyr sefydlu perthynas o ymlyniad gyda PDG er mwyn gwella dysgu a datblygu. Mae perthnasoedd sicr yn cydberthyn â gwell cyrhaeddiad academaidd, hunan reoleiddio a chymhwysedd cymdeithasol. Felly ar gyfer rhai o'n disgyblion mwyaf heriol ac agored i niwed, un o'r strategaethau mwyaf llwyddiannus y gall ysgolion ei weithredu yw darparu oedolyn

Patrwm ymlyniad anniogel	*Sut gallai hyn effeithio ar ymddygiad yn yr ysgol?*	*Strategaethau a allai helpu*
Deuoliaeth teimlad – gwrthwynebol *Fel arfer plant sydd wedi cael y profiad o ofal anghyson iawn: sydd weithiau wedi cael ymateb i'w hanghenion ac ar adegau eraill, heb.*	Gall y plentyn fod: • yn bryderus ac yn lynedig iawn; • eisiau aros yn agos at oedolion o hyd; • yn ddibynnol iawn ar erailll; • yn ystrywgar; • ag angen llawer o gysur, ac yn amharod i roi cynnig ar rywbeth ar ei ben ei hun; • yn canolbwyntio fwy ar sylw oedolion er ei fwyn ei hun yn hytrach na gwneud y dasg; • yn barod i dderbyn sylw negyddol yn ogystal â sylw cadarnhaol; • yn or-wyliadwrus o'r hyn mae oedolion yn ei wneud; • yn siarad yn barhaus neu'n chwarae'r clown er mwyn cael sylw, a • yn wael o ran canolbwyntio a thalu sylw	• gwahaniaethu tasgau'n gamau bach; • defnyddio amserydd i gymedroli pryder a gosod targedau byr ar gyfer bod yn annibynnol; • cyflwyno dal gwrthrych arbennig (pontio) sy'n cymryd lle'r athro am ychydig "Edrycha ar ôl hwn i fi am ychydig". • gwneud sylwadau amlwg sy'n cysuro ar draws yr ystafell ddosbarth, arddangos eich bod yn ymwybodol o'r disgybl; • gosod cyfrifoldeb ar wneud tasg yn hytrach na phobl; • gwneud llawer o weithgareddau grŵp bach; • cynllunio ar gyfer a rhybuddio am ddechreuadau, gwahaniadau a diweddiadau; • cynllunio a rhybuddio am newidiadau a symudiadau'r dosbarth; • cefnogaeth oedolyn sy'n ddibynadwy a chyson; • bod yn ymwybodol o, a mynd i'r afael â'r lefel uchel o bryder; a • defnyddio 'tawelyddion' yn ôl disgrifiad Mosley a Grogan (2009)
Osgoi *Plant sydd wedi dysgu pan maen nhw'n ceisio ymlynu at eraill maen nhw'n debygol o gael eu gwrthod ac felly yn ei osgoi ar bob cyfrif.*	Gallai'r plentyn fod yn: Gallai'r plentyn fod yn: • encilgar/tawel; • difater o ran y modd mae'n delio â sefyllfaoedd newydd; • ymosodol tuag at bobl sy'n ceisio ei helpu; • amharod i dderbyn help; • mwy hunan ddibynol nag sy'n arferol i'w oedran; • gweithredol o ran ceisio cael annibyniaeth; • tueddol o rwygo ei waith fel na all yr oedolyn wneud sylw amdano; • amharod i gymryd risgiau; • gwrthwynebol o oedolion yn agos atynt; • ymddwyn fel pe na bydden nhw'n poeni a gwrthod diddordeb a chefnogaeth; • tangyflawni'n sylweddol; ac yn • tueddu i ffrwydro'n ddirybudd cyn bod y ffrwydrad yn diflannu'r un mor gyflym.	• chwarae gêmau strwythuredig iawn â rheolau clir a chanlyniadau i gynorthwyo i oresgyn gwrthwynebiad i gynigion o help (osgowch gêmau gydag enillwyr a chollwyr); • tasgau ysgrifenedig strwythuredig; • helpu'r PDG i deimlo'n dda am ei hun; • cynnig rheolaeth dros ddewis tasg; • canfod tasgau maen nhw'n eu mwynhau; • sicrhau cyfleoedd ar gyfer gwaith grŵp gan fod plant eraill yn gallu cymedroli dwyster agosrwydd yr athro; a • sicrhau fod yr holl staff yn darparu ymateb cyson.

Maes effaith	*Enghreifftiau o sut mae hyn yn effeithio ar blant?*
Swyddogaeth weithredol	Anawsterau â'r canlynol: ✓ Dechrau, rheoli a gorffen tasg ✓ Cynllunio a threfnu'i hun ✓ Dal ati gyda thasgau ✓ Datrys problemau ✓ Ymdopi â rhwystredigaeth ✓ Monitro a gwerthuso cynnydd ✓ Rhagweld beth a allai ddigwydd ✓ Bod yn hyblyg ac addasu i newid yn ôl y gofyn ✓ Canolbwyntio, ffocysu a thalu sylw ✓ Bod yn aflonydd ac anesmwyth
Rheoliad emosiynol a hunan ddelwedd	✓ Gorymateb i brofiadau a digwyddiadau ✓ Lefelau pryder wedi eu dwysáu ✓ Problemau gydag ataliad ymddygiad ✓ Ymwybyddiaeth wael o'r hunan ✓ Diffyg hunan ymwybyddiaeth
Perthynas a rhyngweithio ag eraill	✓ Problemau datblygu a chynnal perthynas ag eraill ✓ Anawsterau i dderbyn a deall fod awdurdod gan eraill ✓ Ymddygiad cymdeithasol anaddas fel bod yn or-gyfeillgar, angen rheoli, problemau dal llygad neu gyffwrdd, diffyg ymwybyddiaeth o edifeirwch ac anawsterau gydag ymddiriedaeth.

A yw'n cael yr un effaith ar bob plentyn?

Nac ydy.
O waith Bowlby (1969/1988), a ddatblygwyd ymhellach gan Mary Ainsworth (1982), gwyddom bellach fod yna bedwar math o ymlyniad yn gyffredinol i'w gweld mewn plant. Os byddwn yn deall y rhain yna byddwn yn gallu gwneud rhagor i ddiwallu gwahanol anghenion plant a datblygu strategaethau effeithiol.

Y pedwar math o ymlyniad yw:

- Ymlyniad diogel ;
- ymlyniad deuoliaeth teimlad - ymlyniad gwrthwynebol
- Ymlyniad osgoi, ac
- Ymlyniad anhrefnus

Mae'r tabl canlynol yn esbonio rhagor am y 3 math o ymlyniad anniogel.

Pennod dau - Stori'r ymlyniad: Y wybodaeth sydd ei hangen ar bob oedolyn sy'n gweithio gyda phlentyn yn y system gofal

Caiff ymlyniad ei bennu gan natur y gofal y mae plentyn wedi ei dderbyn. Nod ymddygiad ymlyniad yw agosrwydd a chyswllt gyda'r hwn a alwn yn brif ofalwr, fel bod babi yn teimlo'n ddiogel ac mewn lleoliad saff ble y gall ddatblygu. Mae'r plentyn yn dysgu drwy'r ymateb y mae'r gofalwr yn ei roi iddo. Os yw'r plentyn yn cael yr ymateb mae ei eisiau wrth grio pan fydd yn llwglyd, ypset neu'n bryderus yna daw'r ymateb hwnnw i fod yn un y mae'n ei ddysgu. Mae'r oedolyn yn **cydweddu** â'i anghenion. Yn y pen draw mae teimladau yn cael eu 'hymatal gan nad ydynt yn gorlethu'r plentyn. Mae **ymataliad** yn bwysig i blant achos mae'n eu helpu nhw i ymddiried a theimlo'n ddiogel yn y byd (Bion, 1962).

Mae plant sy'n cael y profiad o newid eu gofalwr dro ar ôl tro neu o ofal sy'n esgeuluso, yn niweidiol a/neu gamdriniol yn llawer mwy tebygol o gael anawsterau ymlyniad neu anhwylder ymlyniad.

Pam ydy hyn yn bwysig?

Mae plant sydd wedi datblygu ymlyniad diogel yn mynd yn eu blaen i fod yn hyderus o ran 'ymwahanu' oddi wrth eu gofalwyr a mynd allan i'r byd. Maen nhw'n gwybod y gallant fod ar wahân oddi wrth y sawl sy'n gofalu amdanynt am gyfnodau heb fod anffawd yn dod i'w rhan. Maen nhw'n gallu bod yn chwilfrydig ac archwilio'r byd ac felly dysgu a datblygu. Mae perthynas ymlyniad cynnar yn sail i ddatblygiad plentyn a'i allu i ffurfio perthynas gadarnhaol ac agos ag eraill. Maen nhw hefyd yn sylfaenol i ddatblygiad ein gallu ar gyfer rheoleiddio emosiynol, hunanreolaeth a datblygiad gwybyddol. Mae plant sydd ag ymlyniad da yn fwy tebygol o gyflawni llwyddiant o ran:

- Cyfeillgarwch a sgiliau perthynas cymdeithasol da
- Ymddiriedaeth
- Empathi
- Llwyddiant academaidd
- Rheoliad emosiynol a hunanreolaeth o ymddygiad
- Gwytnwch
- Annibyniaeth

(Levy ac Orlans 1998)

Beth sy'n digwydd os nad yw ymlyniadau'n cael eu ffurfio'n effeithiol?

Gwyddom y bydd y plant hynny (PDG ai peidio) nad ydynt wedi cael y profiad o ymlyniad gwydn yn ystod eu blynyddoedd cynnar, ac yn gymwys yma, yn ystod eu bywydau ysgol, yn dod ar draws nifer o heriau yn ystod eu bywydau. Nid ydynt wedi cael oedolyn sy'n **'cydweddu'** â'u hanghenion ac felly nid ydynt yn **'ymatal'** eu hemosiynau. Mae'r rhianta wedi bod yn anghyson, a'r gofal yn anghyson; mae'n bosibl fod y plentyn wedi profi newyn eithafol, a phoen, esgeulustod emosiynol neu gorfforol, ofn a cham-drin (neu weld eraill yn cael eu cam-drin). Nid yw eu hymdrechion i gael ymlyniad diogel wedi bod yn llwyddiannus am ba reswm bynnag. Gallai hyn fod oherwydd bod gan eu gofalwyr eu problemau iechyd meddwl eu hun neu anawsterau cyffuriau neu alcohol. Mae'n bosib eu bod hwythau wedi profi esgeulustod neu gam-drin fel plant a ddim yn gwybod sut i ymateb neu sut i fod yn brif ofalwr. Bydd y plant hyn yn dod ar draws llawer mwy o anawsterau wrth iddynt dyfu fyny achos, yn wahanol i'r rhan fwyaf o blant, nid oes ganddynt y taclau o ran sicrwydd emosiynol i'w harwain at lwyddiant mewn gwahanol feysydd. Mae'r tabl ar y dudalen nesaf yn gymorth i ddeall graddau'r anawsterau i'n disgyblion sydd ag anawsterau ymlyniad y byddwn yn eu gweld mewn ysgolion:



Mae'r llun yn cymharu ymennydd plentyn 3 blwydd oed normal (chwith) ag ymennydd plentyn 3 blwydd oed sydd wedi dioddef esgeulustod amddifadedd synhwyraidd (ar y dde). Mae ymennydd sylweddol llai o faint gan y plentyn sydd wedi dioddef esgeulustod ac mae ei fentriglau yn fwy ac mae ganddo atroffi coritigaidd. Dylid cymryd gofal wrth ddehongli'r ddelwedd hon; fe'i cyflwynir i gefnogi ein dealltwriaeth o effeithiau esgeulustod, ond mae angen iddi gael ei diffinio fel 'normal' neu 'esgeulustod eithafol' a heb raddfa mae'n anoddach gwneud cymariaethau uniongyrchol.

Gall trawma barhau i effeithio ar ddatblygiad yr ymennydd yn ystod dwy flynedd gyntaf bywyd. Hyd yn oed pan nad oes gennym gof ymwybodol o'n profiadau emosiynol, rydym yn eu storio yn ein hymennydd ac fe allant effeithio arnom wrth i ni dyfu a datblygu. Felly, er enghraifft, os yw baban ifanc yn cael ei anghenion wedi eu diwallu'n gyson gan ofalwyr sy'n ymateb iddynt ac yn gwneud yn siŵr nad yw'n llwgu, yn oer, yn amddifad o gariad a gofal, yna bydd ei ymennydd yn datblygu yn ôl yr hyn a ddisgwyliwn. Ond os yw baban yn crio ac un ai ddim yn cael help neu'n waeth fyth, yn cael ymateb bygythiol, camdriniol, yna mae'n dysgu'n gyflym iawn sut i rewi ac ymwahanu ei hun yn emosiynol. Yn y pen draw mae'r ymddygiad hwn yn ddwfn ynddo a gall plant rewi'n awtomatig wrth wynebu unrhyw fath o fygythiad Ar adegau gall plentyn ymateb fel hyn i sefyllfaoedd diniwed hyd yn oed gan ddatblygu i fod yn ddideimlad ac yn ddiymateb. Fodd bynnag, wrth i blant dyfu'n hŷn, gall patrwm yr ymateb newid a gallant ddyfod yn dreisgar ac yn oractif, gan chwilio am gyffro trais neu risg.

Gall y problemau hyn barhau i'r arddegau. Wrth gyrraedd oed aeddfedrwydd, mae'r ymennydd yn ogystal â'r corff yn newid llawer. Dyma'r ail gyfnod mwyaf o dyfiant i'r ymennydd yn ystod bywyd. I lawer o bobl yn eu harddegau, mae hyn yn amlwg iawn yn y newidiadau yn eu hymddygiad a all fod yn danllyd ac yn heriol. Os yw'r person ifanc wedi cael profiadau emosiynol sy'n 'ddigon da' hyd at y pwynt hwn, yna mae datblygiad yr ymennydd yn gallu ymdopi gyda'r newidiadau hyn. Fodd bynnag, i'r rheini sydd eisoes wedi gorfod ymdopi ag amgylchiadau anodd a heriol iawn, oni bai eu bod yn cael cefnogaeth sensitif iawn oddi wrth oedolion, yna bydd rhannau mwy ymatebol a thanllyd yr ymennydd yn tra-arglwyddiaethu dros y rhannau sy'n cyfranogi mewn rhesymu a gwneud penderfyniadau.

Felly mae hyn yn dweud wrthym fod y lefelau eithriadol o drawma y mae rhai plant yn ei brofi yn effeithio ar eu datblygiad emosiynol, cymdeithasol ac ar y ffordd maen nhw'n gallu rheoli eu hunain o'r cyfnod cynharaf posibl oherwydd yr effaith mae hyn wedi ei gael ar ddatblygiad yr ymennydd.

THEORI YMLYNIAD

Bydd llawer o'r plant a'r bobl ifanc sydd yn y system gofal yn profi anawsterau sylweddol â'r hyn a elwir yn 'ymlyniad' a 'pherthynas ymlyniad'. Mae dealltwriaeth o'r hyn ydy hyn, a sut mae'n effeithio ar blant, yn gallu helpu'r rhieni sy'n gweithio'n uniongyrchol â'n PDG i werthfawrogi ychydig am yr effaith ar eu dysgu a'u hymddygiad yn yr ysgol.

Beth yw ymlyniad?

Yn syml, system a ddatblygwyd drwy gydol esblygiad i'n cadw ni'n ddiogel yw ymlyniad. Caiff ei actifadu yn ystod cyfnodau o fygythiad (gwahanu, gwrthodiad neu ofn) a'r canlyniad yw bod y plentyn yn chwilio am gysur oddi wrth berson y mae'n ymddiried ynddo. Caiff ei gynnig ei fod yn rhan o natur plentyn i ffurfio perthynas ymlyniad a fydd yn sicrhau ei fod yn teimlo'n ddiogel, yn saff ac yn cael gofal. Bowlby (1988) yw prif bleidiwr y theori hon ac mae'n diffinio ymlyniad fel a ganlyn:

'Sail yw ymlyniad o ble y gall plentyn archwilio ei brofiadau a ffurfio cysyniadau o'i hun, eraill a'r byd'.

Y mae'n bwysig cydnabod y bydd nifer o blant a phobl ifanc wedi cael profiadau sydd ymhell y tu hwnt i'r hyn all y rhan fwyaf ohonom fyth ei ddychmygu. Byddan nhw wedi dod ar draws lefelau o drawma, cam-drin ac esgeulustod sy'n eithriadol ac a fydd yn effeithio ar sut maen nhw'n canfod y byd, o bosibl drwy gydol eu bywydau. Ni allwn dynnu'r rhain i ffwrdd, ond po fwyaf y gallwn gefnogi PDG i ymdopi y mwyaf byddwn yn gwella eu cyfleoedd bywyd ac o gyflawni gwell deilliannau. Er mwyn helpu i gyflawni hyn, y mae'n bwysig darparu trosolwg o'r hyn sydd ar gael ar hyn o bryd o faes niwro-wyddoniaeth a datblygiad yr ymennydd o ran effaith esgeuluso a thrawma. Caiff hyn ei ddilyn gan amlinelliad byr o ymagweddau cyfredol o fyd therapi a meddwl therapiwtig. Bydd y naill a'r llall yn helpu i ddeall plant sydd wedi cael eu niweidio ac i ddod o hyd i esboniadau am ymddygiad sydd yn wahanol, ac yn aml yn anodd, yn hytrach na gwneud tybiaethau fod y plentyn yn ymddwyn yn ddrwg. **Nid yw'n fwriad i wneud oedolion sy'n gweithio mewn ysgolion yn therapyddion, ond yn hytrach, os oes lefel mwy o ddealltwriaeth ganddynt, byddant yn fwy abl ac yn fwy cymhellol i ddelio â'r heriau y byddant yn dod ar eu traws gyda PDG.**

Y mae'n bwysig nodi fan hyn y gallai'r bennod hon sefyll fel llyfr ynddo'i hun gan fod yna beth wmbredd o lenyddiaeth a fyddai o ddiddordeb a pherthnasedd. Ar ddiwedd y bennod hon ac ar ddiwedd pennod pump rydym wedi rhestru nifer o lyfrau a gwefannau a fydd yn darparu gwybodaeth bellach a manylach i'r rheini sydd â diddordeb i ganfod rhagor.

YR YMENNYDD: EI DDATBLYGIAD AC EFFAITH PROFIADAU CYNNAR BYWYD

Organ gymhleth yw'r ymennydd. Yn ystod y blynyddoedd diweddar, wrth i dechnoleg ddatblygu, mae ein dealltwriaeth o'r prosesau datblygiadol a'r anawsterau a allai ddigwydd wedi cynyddu ar raddfa eithriadol. Gwyddom lawer mwy bellach am yr effaith groes mae bywyd cynnar cythryblus neu drawma datblygiadol yn ei gael ar ddatblygiad ymennydd llawer o'n plant a'n pobl ifanc.

Mae amgylcheddau diogel sy'n meithrin a phrofiadau cymhellol yn cefnogi datblygiad rhwydweithiau niwrol - maen nhw'n helpu i adeiladu'r ymennydd. Mae ymlyniadau empathetig, cefnogol a pherthynas yn hanfodol i optimeiddio datblygiad yr ymennydd. Ys dywed Siegel:

"Mae cydweddiad cyflyrau emosiynol yn hanfodol i'r ymennydd sy'n datblygu er mwyn iddo gaffael y capasiti i drefnu ei hun mewn modd mwy ymreolaethol wrth i'r plentyn aeddfedu." (Siegel 2012)

Caiff stres mewn plant yr effaith fwyaf ar ddatblygiad yr ymennydd. Yr ymennydd yw prif organ stres achos mae'n rheoli'r holl fecanwaith stres. Mae plant sy'n profi cyfnodau hir a difrifol o stres yn meddu ar ymennydd llai o faint a llai datblygedig ac felly llai o swyddogaeth wybyddol. Gall y lefelau uwch o gortisol sy'n ganlyniad i stres gael effaith ar y gwahanol rannau o'r ymennydd, fel bod yr ymennydd yn datblygu ymatebion gwahanol fel plant yn gorymateb neu ddim yn ymateb ddigon i fygythiad.

Mae'n syndod canfod y gall datblygiad ymennydd baban gael ei effeithio'n wael gan brofiadau cynnar bywyd, hyd yn oed cyn iddo gael ei eni. Os yw'r fam wedi profi lefelau uchel o ofn, pryder neu iselder yna gall strwythur ymennydd y baban fod yn wahanol iawn i un babanod eraill nad ydynt wedi'u hamlygu i'r un profiad.

Pennod Dau

Yr hyn sydd angen i bawb ei wybod a'i ddeall am blant yn y system gofal

Rôl pawb sy'n gweithio â PDG

Mae angen i ni gael disgwyliadau uchel iawn o'r holl weithwyr proffesiynol hynny mewn lleoliadau addysg a fydd yn dod i gysylltiad â'n PDG:

- ✓ Sicrhau fod unrhyw PDG yn cael eu cefnogi'n sensitif a bod cyfrinachedd yn cael ei gynnal;
- ✓ Bod yn gyfarwydd â'r PDG ac ymateb yn briodol i geisiadau am wybodaeth i gefnogi cwblhau Cynlluniau Addysg Personol a dogfennaeth arall angenrheidiol fel rhan o'r cyfarfodydd adolygu;
- ✓ Ymateb yn gadarnhaol i gais PDG i fod y person a enwir y gallant siarad ag e pan fo'n teimlo fod hynny'n angenrheidiol;
- ✓ Cyfrannu at geisiadau am wybodaeth am gyrhaeddiad addysgiadol ac anghenion wnaed gan y Person Dynodedig i PDG, mor gyflawn a phrydlon ag sy'n bosibl;
- ✓ Fel yn achos pob plentyn, sicrhau nad oes unrhyw PDG yn cael ei stigmateiddio mewn unrhyw ffordd;
- ✓ Darparu hinsawdd gefnogol i alluogi PDG i gyflawni sefydlogrwydd oddi fewn i leoliad ysgol;
- ✓ Bod â disgwyliadau uchel am gyflawniad addysgiadol a phersonol PDG, a
- ✓ Hyrwyddo llesiant PDG yn gadarnhaol.

Pam nad yw PDG yn gwneud cystal â'u cymheiriaid? Mae'r ffactorau mae'r ymchwil yn ei ddweud wrthym yn gallu cael effaith groes ar ddeilliannau i PDG:



Drwy gydol yr adnodd hwn byddwn yn craffu ar rai o'r rhain â rhagor o fanylder i sicrhau ein bod ni'n mynd i'r afael â'r ffactorau hynny sydd oddi fewn i'n rheolaeth fel addysgwyr, i'r graddau eithaf posibl.

- Gweithio tuag at nodau Llywodraeth Cymru ar gyfer addysg PDG;
- Hyrwyddo addysg PDG a leolwyd yn yr ardal a thu allan iddi;
- Gweithio â Chydlynwyr Addysg PDG mewn awdurdodau eraill mewn perthynas â lleoliadau allan o'r ardal a sefydlu trefniadau gweithio;
- Datblygu a hyrwyddo modd o ymgysylltu neu feithrin perthynas â PDG a chael eu safbwyntiau am ddarpariaeth addysgol;
- Pontio'r bwlch rhwng Gwasanaethau Cymdeithasol, ysgolion a'r Awdurdod Addysg o ran AAA;
- Darparu her yn ôl yr angen;
- Lledaenu arferion da yn cynnwys hyfforddiant ar gyfer aelodau etholedig, gofalwyr maeth, gweithwyr cymdeithasol, llywodraethwyr ysgolion a'r Person Dynodedig ar gyfer PDG;
- Sicrhau fod Cynlluniau Addysg Personol mewn lle a darparu arweiniad o ran eu gweithredu;
- Monitro cyrhaeddiad PDG, coladu a dadansoddi gwybodaeth am berfformiad ar sail unigol neu ar y cyd;
- Sefydlu a chynnal rhestr o'r Personau Dynodedig ar gyfer PDG i bob ysgol yn ei awdurdod ac i bob ysgol y mae plant y tu allan i'r ardal yn ei mynychu; a
- Mynychu Adolygiadau PDG fel sy'n briodol.

Y Cynllun Addysg Personol (CAP)

Mae'n ofyniad bod gan bob PDG gynllun unigol o'r enw'r CYNLLUN ADDYSG PERSONOL. Cynllun unigol yw hwn sy'n gosod allan ei anghenion addysgol, ac sy'n targedu gwelliannau mewn cyrhaeddiad a deilliannau addysgiadol ehangach. Gall plant ifanc gael Cynllun Addysg Personol cyn-ysgol sy'n dynodi cyfleoedd addysgol priodol fel mynediad at feithrinfa neu ddarpariaeth arall o safon i'r blynyddoedd cynnar. Fodd bynnag, nid yw hyn yn wir am bawb, a chaiff ei bennu gan yr ALl y mae'r PDG wedi ei leoli ynddo. Ar gyfer pobl hŷn, gallai hwn fod yn Gynllun Addysg Personol Ôl-16 i gynorthwyo pontio a chefnogi wrth i'r bobl ifanc barhau â'u haddysg a dysgu gydol oes.

Mae'r Cynllun Addysg Personol yn cydweddu Cynlluniau Gofal ond yn canolbwyntio'n benodol ar hyrwyddo a blaenoriaethu addysg. Y dialog sy'n amgylchynu proses gynllunio'r Cynllun Addysg Personol a brofwyd i fod yn allweddol i'w llwyddiant. Cyfrifoldeb y nifer o gyfranwyr i'r Cynllun Addysg Personol yw cyfrannu at a dadansoddi'r wybodaeth a gynhwysir ynddo ac i ganolbwyntio ar atebion i hyrwyddo addysg, gan felly osod disgwyliadau uchel ac ymatebion cyflym i fynd i'r afael â'r angen a ddynodwyd.

Mae'r Cynllun Addysg Personol yn ymddwyn fel cofnod o'r cynnydd yn erbyn anghenion datblygiadol ac addysgiadol a amlygwyd (hirdymor a byrdymor) ac mae'n darparu peth cofnod o atebolrwydd.

Byddwn yn edrych yn fanylach ar y Cynlluniau Addysg Personol ym Mhennod Tri, a sut i sicrhau eu bod yn ddogfennau effeithiol a defnyddiol.

NID YW MOR SYML Â BOD MEWN GOFAL YN UNIG

Mae'n wybyddus ers sawl blwyddyn fod gan PDG lai o ddeilliannau da na'r rheini nad ydynt yn y system gofal: canfyddiad sydd yr un peth yn rhyngwladol ag ydyw yn genedlaethol. Ar yr un pryd, bu'n glir nad dyma'r achos ar gyfer pob PDG. Yn ddiweddar, cafodd dwy astudiaeth bwysig eu cwblhau sydd wedi ein helpu ni i ddeall yn well pa ffactorau sy'n cael yr effaith fwyaf negyddol ar ddeilliannau. Y canfyddiad mwyaf diddorol a gafwyd o'r ymchwil yw ein bod ni'n gwybod po hiraf y mae plentyn mewn gofal y gorau yw'r deilliant. Cafodd 33.4% o bobl ifanc sydd wedi bod yn y system gofal ers 6 mis a mwy 5 A*-C TGAU ond cwympodd hyn i 20.5% petai PDG wedi bod yn y system am lai na 18 mis, Mannay et al (2015). Felly nid bod mewn gofal ynddo'i hun yw'r broblem, eithr rhai o'r ffactorau sy'n gysylltiedig â hynny.

Cynlluniau Lleoliad (CLl)

Mae'n ofynnol bod yr ALl yn llunio cynllun lleoliad ar gyfer PDG. Bydd hyn yn manylu ar sut fydd y lleoliad yn diwallu gofynion y plentyn. Y mae'n rhan o'r Cynllun gofal a chymorth cyflawn.

Gorchymyn Gwarchodaeth Arbennig

Bydd rhai plant mewn lleoliad ble mae yna Orchymyn Gwarchodaeth Arbennig mewn lle. Mae hwn yn lleoliad sy'n gyfreithiol ddiogel i blant a phobl ifanc na allant fyw gyda'u rhieni genedigol, a ble mae cyfrifoldebau rhianta wedi eu gosod yn gyfreithiol gyda gwarcheidwad arbennig. Yn yr achosion hyn, nid ystyrir fod y plentyn neu berson ifanc yn Derbyn Gofal mwyach.

Ceiswyr Lloches Digwmni

Mae Awdurdodau Lleol hefyd yn gyfrifol am gefnogi plant sy'n geiswyr lloches digwmni. Disgwylir iddynt ddiogelu a hyrwyddo llesiant plant sydd mewn angen oddi fewn i'w hardal, drwy ddarparu cefnogaeth briodol o ran anghenion y plant hynny. Gall hyn gynnwys darparu ar gyfer cefnogaeth ariannol a llety fel hostel neu lety a gefnogir. Mae Erthygl 22 Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn datgan y dylai ffoaduriaid gael yr un hawliau â phlant sydd wedi cael eu geni yn y wlad y maen nhw'n ceisio lloches ynddi.

Rhestr o Acronymau

ADY	Anghenion Dysgu Ychwanegol
CADY	Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol
PMG	Plant Mewn Gofal
PDG	Plant sy'n Derbyn Gofal
Cydlynydd APDG	Cydlynydd Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal
Tîm APDG	Tîm Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal
Tîm LACE	Tîm Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal
CYPLA	Plant a Phobl Ifanc sy'n Derbyn Gofal
PD ar gyfer PDG	Person Dynodedig ar gyfer PDG
SA	Seicolegydd Addysg
GM	Gofalwr Maeth
CDU	Cynllun Datblygu Unigol
SAA	Swyddog Adolygu Annibynnol
OA	Oedolyn Allweddol
ALl	Awdurdod Lleol
PDG	Plant sy'n Derbyn Gofal
Cydlynydd LACE	Cydlynydd Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal
LACYP	Plant a Phobl Ifanc sy'n Derbyn Gofal
GDD PDG	Grant Datblygu Disgyblion ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal
CAB	Cynllun Addysg Bersonol
CRh	Cyfrifoldeb Rhieni
AAA	Anghenion Addysgol Arbennig
CAAA	Cydlynydd Anghenion Addysgol Arbennig
GGA	Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig
GC	Gweithiwr Cymdeithasol
CA / CCD	Cynorthwyydd Addysgu / Cynorthwywyr Cymorth Dysgu

CYDLYNYDD ADDYSG PLANT SY'N DERBYN GOFAL (CAPDG)

Disgwylir bod gan bob ALl yng Nghymru ymarferydd arbenigol (y CAPDG), a'i brif rôl yw ymddwyn fel hyrwyddwr ar gyfer PDG a chodi ymwybyddiaeth i ddiwygio diwylliant ac agweddau sydd wedi'u mewnblannu. Mae gan y CAPDG rôl arweiniol allweddol oddi fewn i'r Awdurdod Lleol ac mae dull gweithredu fel tîm yn hanfodol. Mae llawer o gyfrifoldebau ganddynt, ond maen nhw'n cynnwys:

- Sicrhau fod PDG yn cael y buddion bywyd mwyaf oddi wrth gyfleoedd addysg;

Mae gan ofalwyr maeth eu Gweithiwr Cymdeithasol eu hunain sy'n weithiwr cymdeithasol goruchwyliol.

Gellir cael achlysuron pan na chaiff PDG eu gosod gyda gofalwyr maeth, ond yn hytrach maen nhw'n symud i fyw i gartref gofal. Yn gyffredinol, mae hyn ar gyfer plant mewn addysg uwchradd ac maen nhw'n byw mewn cartref gyda phobl ifanc eraill ble mae'r oedolion wedi eu hyfforddi ac yn meddu ar y sgiliau i ddiwallu anghenion plant ifanc sy'n agored i niwed. Eto, fel â gofalwyr maeth, mae yna gartrefi gofal sy'n cael eu rhedeg yn annibynnol yn ogystal â'r rheini a gaiff eu rhedeg gan yr ALlau.

Swyddog Adolygu Annibynnol (SAA)

Rhaid i bob PDG gael SAA a enwyd, sy'n swyddog a benodwyd gan yr ALl, ac a benodwyd i gadeirio adolygiadau i PDG a monitro perfformiad yr ALl mewn perthynas ag achos y plentyn. Mae'r SAA yn gweithredu'n annibynnol o'r ALl.

Oedolyn Allweddol(OA)

Oedolyn yw hwn y mae'r PDG yn gallu datblygu perthynas ymlyniad ag e. Mae'r OA yn gweithio'n galed i adeiladu perthynas gadarnhaol a diogel gyda'r PDG fel ei fod yn dyfod yn rhywun y gellir ymddiried ynddo ac sy'n gwneud iddo deimlo'n arbennig.

Gofal gan Berthynas

Mae hyn yn digwydd pan fydd gofal yn cael ei ddarparu gan oedolion sydd â pherthynas â neu gysylltiad â'r plentyn neu berson ifanc, yn cynnwys mam-gu a thad-cu, brodyr a chwiorydd, modrybedd, ewythrod, rhieni bedydd neu lys-fam-gu a llys-dad-cu. Caiff gofal gan berthynas ei asesu, ei gymeradwyo a'i gofrestru a'i adolygu yn yr un ffordd â gofalwyr maeth.

Adolygiadau PDG

Mae Adolygiadau PDG yn gyfarfodydd ar gyfer adolygu Cynllun Gofal a Chymorth. Disgwylir i ysgolion anfon cynrychiolydd i'r cyfarfod hwn gyda Chynllun Addysg Personol wedi ei ddiweddaru sy'n cynnwys crynodeb manwl o gynnydd. Mewn amgylchiadau eithriadol, pan na all rywun o'r ysgol fynychu'r cyfarfod, dylid o leiaf gyflwyno adroddiad cynhwysfawr. Caiff adolygiadau eu cwblhau 28 niwrnod ar ôl llunio'r cynllun cyntaf ac yna ar ôl egwyl 3 misol. Yn dilyn hynny, maen nhw'n digwydd bob 6 mis oni bai fod angen am adolygiadau mwy rheolaidd.

Gadael Gofal

Bydd gorchymyn gofal a threfniadau gofal yn dod i ben pan fydd y person ifanc yn cyrraedd 18 oed a gallai ddod i ben yn gynt os yw gorchymyn gofal y plentyn yn cael ei ryddhau neu fod y plentyn yn cael ei fabwysiadu. Ar yr adeg hon, os bydd angen unrhyw gefnogaeth bellach, bydd timau Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion yn cymryd cyfrifoldeb. Fodd bynnag, nid yw hyn yn awtomatig, a bydd ddim ond yn digwydd os yw'r person ifanc ag anghenion gofal a chymorth cymwys. Dylai parhau ag addysg neu ddychwelyd ati bob amser aros fel opsiwn ar ôl i berson ifanc adael gofal. Mae PDG hefyd â'r hawl i gefnogaeth oddi wrth gynghorwr personol mewn perthynas â'i addysg. Bydd Gyrfa Cymru a'r Tîm Gadael Gofal (ôl-16 i RhCT) oddi fewn i'r awdurdod lleol yn gweithio ynghyd i ddarparu hyn.

Cyfrifoldeb Rhieni (CRh)

Caiff hwn ei ddiffinio fel a ganlyn:

"Yr holl hawliau, dyletswyddau, pwerau, cyfrifoldebau ac awdurdod sydd gan riant yn ôl y gyfraith mewn perthynas â'r plentyn a'i eiddo".

Mae'n bwysig iawn fod ysgolion yn gwybod pwy sydd â Chyfrifoldeb Rhieni ar gyfer eu holl ddisgyblion. Gall gweithwyr cymdeithasol a gofalwyr maeth gael 'cyfrifoldebau dirprwyedig' ar gyfer rhai PDG, fel eu bod yn gallu darparu caniatâd ar gyfer rhai pethau fel tripiau ysgol a ffotograffau. Pan fyddwch yn ansicr o union natur y CRh a'r cyfrifoldebau dirprwyedig, sicrhewch fod hyn yn cael ei egluro gan weithiwr cymdeithasol y plentyn.

Y 'Rhiant Corfforaethol'

Mae gan awdurdodau lleol gyfrifoldeb **'rhiant corfforaetho'** tuag at blant a phobl ifanc maen nhw'n gofalu amdanynt, i sicrhau eu bod yn cael yr addysg orau bosibl. Rhaid i bawb fod yn bleidwyr proactif ac effeithiol, gan sicrhau fod pobl ifanc yn eu gofal yn cael mynediad at, ac yn manteisio ar y cyfleoedd sydd ar gynnig iddynt. Rhaid iddynt weithio mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill sydd â rôl o ran darparu addysg i PDG.

Mae gwerthfawrogi a chefnogi addysg plant mewn gofal cyhoeddus yn cael ei ystyried yn un o'r cyfraniadau pwysicaf y gall rhiant corfforaethol ei wneud i'w bywydau, am ei fod yn ymwneud â buddsoddi a gofalu am eu dyfodol a chydnabod y gallai addysg fod yn basbort iddynt tuag at well cyfleodd mewn bywyd. Mae Llywodraeth Cymru (2015b) yn dweud wrthym:

> *"Mae rhiant corfforaethol da yn ceisio cael yr un deilliannau i blant yn ei ofal ac sy'n gadael ei ofal ag y byddai unrhyw riant da am ei gael i'w blant ei hun drwy sicrhau ei fod yn gwneud popeth posibl i roi'r dechrau gorau posibl mewn bywyd iddynt".*

Person Dynodedig ar gyfer PDG

Caiff rôl y person hwn ei gynnwys mewn llawer mwy o fanylder yn ddiweddarach yn yr adnodd hwn. Athro yw hwn, sy'n gorfod cael ei benodi gan gorff llywodraethu pob ysgol a gynhelir er mwyn hyrwyddo cyflawniad addysgol plant sy'n derbyn gofal (PDG).

Ymylon Gofal

Caiff y term hwn ei ddefnyddio'n aml i ddisgrifio plant a phobl ifanc y mae gofalwyr gofal cymdeithasol yn ystyried eu bod mewn perygl uchel o fynd i ofal (er enghraifft, oherwydd camdriniaeth, problemau iechyd meddwl y rhieni neu fod y rhieni yn cam-drin sylweddau). Y mae'n cynnwys y plant hynny sydd ar hyn o bryd yn byw gyda'u rhieni genedigol neu deulu gwreiddiol (fel llys-rieni) a'r rheini a fabwysiadwyd o ofal ond sydd mewn perygl uchel o ddychwelyd i ofal. Mae deddfwriaeth newydd: Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn diddymu Adran 17, **"Plant Mewn Angen"**, gan roi'r cysyniad o **"Plant ag Anghenion Gofal a Chymorth"** yn ei le.

Gofal Maeth

Yn gyffredinol, pan fydd plant yn dod i ofal ALl, byddant yn cael eu rhoi mewn gofal maeth. Bydd hyn mewn cartref preifat i deulu sy'n ofalwyr maeth cofrestredig, a allai fod yn perthyn i'r plentyn neu berson ifanc neu beidio. Gall y plentyn aros gyda'r teulu am gyfnod byr iawn fel lleoliad brys, neu gall yr arhosiad fod yn fyrdymor neu'n hirdymor, ond am nifer o wahanol resymau bydd gan rai plant nifer o leoliadau gwahanol. Mae ymchwil yn dweud wrthym fod y fath sefyllfa yn gallu cymhlethu anawsterau pobl ifanc.

Bydd gofalwyr maeth wedi bod drwy broses asesu trylwyr cyn cael eu derbyn fel gofalwyr maeth, yn cynnwys cymeradwyaeth gan banel maethu. Yna, caiff eu safle ei adolygu'n flynyddol. Gall gofalwyr maeth fod yn gweithio ar gyfer Awdurdod Lleol neu sefydliad maethu annibynnol.

GWNEUD SYNNWYR O'R IAITH: PETH TERMINOLEG YR YDYCH YN DEBYGOL O'I CHLYWED.

Fel unrhyw faes gwaith arbenigol, mae gan fyd PDG ei iaith ei hun a all fod yn astrus i'r newydd-ddyfodiaid i'r maes ei deall. Rydym wedi esbonio'r termau mwyaf cyffredin i chi.

Plant sy'n Derbyn Gofal (PDG)

Mae plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal yn cynnwys y rheini y mae gan yr Awdurdod Lleol (ALl) un ai ofal llawn drostynt neu ofal a rennir o ran cyfrifoldeb rhieni. Yn y rhan fwyaf o achosion mae hyn yn golygu eu bod yn cael eu cymryd i ffwrdd oddi wrth ofal eu rhieni a bod llety amgen yn cael ei ddarparu ar eu cyfer ynghyd â chefnogaeth oddi wrth asiantaethau ALl, elusennau neu sefydliadau annibynnol. Dim ond plant hyd at 18 mlwydd oed fydd yn derbyn gofal, ni fyddant yn ei dderbyn y tu hwnt i'w pen-blwydd yn 18 oed.

Plant Mewn Gofal (PmG)

Mae plant a phobl ifanc sydd mewn gofal yn dermau ar gyfer plant yng ngofal yr ALl. Bydd rhai ohonynt yn amodol ar orchymyn cyfreithiol, er enghraifft Gorchymyn Gofal sy'n rhoi cyfrifoldeb a rennir â rhieni i'r ALl. Bydd eraill yn derbyn gofal gyda chytundeb eu rhieni. Os nad oes unrhyw orchymyn cyfreithiol, mae rhieni'n cadw cyfrifoldeb rhieni yn ôl y gyfraith.

Llety

Ambell waith, byddwch yn cael plant sy'n derbyn llety yn hytrach na gorchymyn gofal. Yn flaenorol buasent yn cael llety o dan yr hyn a elwir yn Adran 20 Deddf Plant 1989. Erbyn hyn caiff ei alw'n Adran 76 yn sgil deddfwriaeth newydd o ganlyniad i Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)(2014). Pan fydd plentyn yn cael llety, nid yw hyn yn ganlyniad i achos llys, ond bydd yn digwydd am fod y plentyn yn cael llety **drwy gais neu mewn cytundeb** â'r rhieni. Yn yr achos hwn, deil y rhieni ar y prif gyfrifoldeb rhieni dros eu plentyn, ond mae'r Awdurdod Lleol yn parhau i fod â chyfrifoldeb fel rhiant corfforaethol.

Gorchymyn Gofal

Elfen gyfreithiol i blentyn yn cael ei osod o dan ofal yr ALl yw gorchymyn gofal. Y mae'n dynodi pwy sydd â chyfrifoldebau rhianta dros y plentyn. Ambell waith bydd Gorchymyn Gofal Dros Dro gan blant oherwydd bod y llys am gael gwybodaeth bellach cyn dod i benderfyniad. Dim ond os yw'n sicr o'r canlynol y gall llys wneud gorchymyn gofal:

- bod y plentyn yn dioddef, neu'n debygol o ddioddef, niwed sylweddol;
- bod y niwed wedi ei achosi gan rieni'r plentyn;
- y byddai'r niwed yn cael ei achosi oherwydd bod gofal annigonol yn cael ei roi i'r plentyn yn y dyfodol; neu
- bod y plentyn yn debygol o ddioddef niwed am ei fod y tu hwnt i reolaeth y rhieni.

Cynlluniau Gofal a Chefnogi

Bydd pob PDG yn cael Cynllun Gofal a Chefnogi sy'n dod â'r plentyn, ei deulu a gweithwyr proffesiynol ynghyd i gynllunio'i ofal a'i gefnogaeth. Caiff hwn ei adolygu'n rheolaidd. Mae'n cynnwys gwybodaeth am ddeilliannau llesiant y plentyn ac anghenion gofal a datblygu a chynllun hirdymor ar gyfer magwraeth ac addysg y plentyn. Cyrraedd sefydlogrwydd ym mhob agwedd o fywyd y plentyn yw'r peth allweddol sy'n llywio'r cynllun. Bydd adolygiadau'n monitro cynnydd tuag at dargedau hirdymor a byrdymor. Caiff y Cynllun Addysg Personol (gweler yn ddiweddarach) a chynllun iechyd eu cynnwys yn hyn.

Pennod Un

Gwybodaeth a therminoleg

Er mwyn hwyluso'r cyflwyniad drwy gydol yr adnodd hwn, defnyddir y term Plant sy'n Derbyn Gofal (PDG). Bydd hwn yn cyfeirio at blant a phobl ifanc. Mae PDG yn derminoleg sy'n cydsynio â chanllawiau presennol Llywodraeth Cymru.

Yn ychwanegol, er bod y canolbwynt ar blant a phobl ifanc sydd yn y system gofal ar hyn o bryd, mae llawer o'r hyn sy'n gynwysedig mewn gwirionedd, yn gymwys i bawb sydd wedi derbyn gofal yn flaenorol. Mae hyn yn cynnwys lleoliadau gofal gyda pherthynas, gorchymyn trefniant plant a gorchmynion gwarchodaeth arbennig (GGA). Yn benodol, fe fydd hefyd yn gymwys i **blant sydd wedi cael eu mabwysiadu** a hynny am nifer o resymau. Yn gyntaf, mae llawer o blant sydd wedi cael eu mabwysiadu neu a leolir mewn sefyllfa o ofal arbennig wedi profi trawma, cam-drin ac esgeuluso o lefel eithriadol ac yn aml uchel, i'r graddau fel mai'r unig ymateb posibl a fu oedd mabwysiadu neu ofal amgen. Yn ail (wrth i ni archwilio i mewn i ragor o fanylder yn ddiweddarach yn yr adnodd) nid yw mynd i gartref mwy diogel, sefydlog a gofalgar yn golygu y bydd y plentyn yn gallu goresgyn rhai o brofiadau ei orffennol a bydd yn aml yn dychwelyd at batrymau ymddygiad blaenorol a fewnblannwyd ynddo fel modd o ymdopi.

Yn yr un modd, mae'n bosibl fod llawer o'r plant a'r bobl ifanc sydd ar hyn o bryd yn rhan o'r prosesau **Plentyn ag Anghenion Gofal a Chefnogaeth a diogelu,** hefyd yn profi lefelau uchel o esgeuluso, trawma neu gam-drin ac felly yn yr un modd byddent yn elwa o gymhwyso peth o'r meddylfryd a'r strategaethau a gyflwynir yn y ddogfen hon.

Ein Gweledigaeth i PDG yn Rhondda Cynon Taf (RhCT) a Merthyr Tudful (MT).

Rydym am i lais ein plant gael ei glywed gan bawb sy'n gweithio â nhw fel eu bod yn ganolog i'r cynllunio sy'n cael ei osod mewn lle.

Mae RhCT a MT am sicrhau fod plant a phobl ifanc yn eu gofal yn cael y cyfleoedd bywyd gorau posib a bod effaith yr amgylchiadau sy'n arwain at yr angen yn cael eu goresgyn a'u lleihau.
Rydym am gau'r bwlch rhwng cyraeddiadau a chyflawniadau ein PDG mewn perthynas â hynny mewn plant eraill.

Rydym am sicrhau fod ein plant a'n pobl ifanc wedi cael yr help a'r cymorth i oresgyn effaith trawma seicolegol gyda'r ymyraethau gorau a mwyaf effeithiol sydd ar gael.

Rydym am i'n holl ysgolion fod yn Ysgolion sy'n Ystyrlon i PDG, gan fod yn gwbl ymwybodol o'r anawsterau a wynebir gan y plant y maen nhw'n eu haddysgu gydag ethos cadarnhaol a'r parodrwydd i hyrwyddo deilliannau a chyflawniadau uchel yn weithredol.

Rydym am i'n holl ddysgwyr PDG gael mynediad at addysgu a dysg o ansawdd da sy'n cydnabod eu hanghenion unigol ac felly'n eu hysgogi a'u cyfarparu â chymwysterau a sgiliau academaidd a fydd yn darparu cyfleoedd bywyd ardderchog.

dewis heddiw yfory cyfle gobaith

cyflawniad dyfodol breuddwydion pŵer llwyddiant

Am yr adnodd hwn
Mae'r adnodd hwn yn darparu'r wybodaeth a'r cyngor sy'n angenrheidiol i ysgolion (a phob lleoliad oddi fewn i'r system addysg) a fydd yn eu helpu i fod yn fwy ystyrlon o PDG. Ysgolion ble fydd disgyblion yn cael eu hanghenion wedi eu diwallu'n effeithiol gan staff sydd â'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth o'r rhwystrau y maen nhw'n eu hwynebu a ble mae'r systemau wedi eu strwythuro i hyrwyddo'n weithredol y deilliannau gorau posibl i'r grŵp mwyaf bregus hwn.

Mae'r adnodd wedi ei isrannu'n nifer o benodau:

Pennod un - Darparu gwybodaeth gefndir, terminoleg a pheth data cyd-destunol.

Pennod dau - Darparu trosolwg o effaith trawma ar ddatblygiad yr ymennydd a phatrymau ymlyniad a sut y gallant ddylanwadu ar ymddygiad. Bydd hyn o help i ddeall PDG a pham eu bod yn ymddwyn mewn ffordd wahanol i blant o gefndiroedd mwy cadarn.

Pennod tri - Golwg fanwl ar yr hyn sy'n gwneud ysgol yn Ystyrlon i PDG. Mae hyn yn cynnwys:

1. Systemau ac arfer yr ysgol gyfan ;
2. Dulliau gweithredu ataliol: adeiladu gwytnwch ein PDG;
3. Strategaethau ymatebol i gefnogi PDG sy'n cynrychioli rhagor o heriau.

Pennod pedwar - Adroddiadau ar safbwyntiau gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio'n uniongyrchol â phlant yn y system gofal a darparu negeseuon pwysig oddi wrth y plant eu hunain a'u gofalwyr.

Pennod pump – Manylu ar ffynonellau pellach o ran cyngor a gwybodaeth.

Pennod chwech – Cyfeiriadau.

Mae ymddangosiad y symbol yn arwydd bod angen llungopïo'r adnoddau hyn i'w rhannu â'r staff yn eich lleoliad.

Cyflwyniad

Cafodd yr adnodd hwn ei baratoi i gynorthwyo'r holl weithwyr proffesiynol sy'n cefnogi addysg plant a phobl ifanc sy'n Derbyn Gofal gan Awdurdodau Lleol Merthyr Tudful neu Rondda Cynon Taf.

Y plant a'r bobl ifanc sydd, neu a fu'n rhan o'r system gofal, yw rhai o'n plant a phobl ifanc sydd fwyaf agored i niwed. Gwyddom o'r data a gafodd ei gasglu dros nifer o flynyddoedd, ac adroddiadau'r llywodraeth ac ymchwil, nad oes digon yn cael ei wneud i helpu'r disgyblion hyn i oresgyn yr heriau maen nhw'n eu hwynebu i'w galluogi nhw i gyflawni'r deilliannau gorau posibl. Mae'r plant a'r bobl ifanc hyn yn llai tebygol o symud ymlaen at Addysg Uwch ac yn fwy tebygol o dangyflawni yn yr ysgol, cael anawsterau iechyd meddwl yn y dyfodol ac anawsterau cyflogaeth ac yn diweddu yn y system carchar.

Mae Llywodraeth Cymru (LlC) yn gweithio'n galed i gefnogi Awdurdodau Lleol i fynd i'r afael ag anghenion plant yn y system gofal. Cafodd dau brif gam yn ystod y blynyddoedd diwethaf eu cyflwyno o ran deddfwriaeth newydd i gefnogi'r system gofal. Sef Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)(2014) ac oddi fewn i addysg cyhoeddi dogfen strategaeth a chynllun gweithredu LlC: Codi uchelgais a chyrhaeddiad addysgiadol plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru.

Fel rhieni rydym ni oll am i'n plant gael y dechrau gorau mewn bywyd a chyrraedd eu llawn botensial. Ni fuasem yn derbyn deilliannau addysgiadol gwael heb eu herio. Felly, yn yr un modd, yn ein rôl fel rhieni corfforaethol: boed fel awdurdod lleol, ysgol neu weithiwr proffesiynol unigol, dylai bod gennym yr un dyheadau uchel ar gyfer plant sydd yn ein gofal ar hyn o bryd, a'r rheini a fu'n derbyn gofal yn flaenorol. Ni ddylai perfformiad academaidd gwael beidio â chael ei herio ac ni ddylid derbyn disgwyliadau isel.

Credwn fod gan y rheini sy'n gweithio mewn ysgolion a lleoliadau addysgiadol eraill, rôl hanfodol o ran gwella ansawdd bywyd a phrofiadau addysgiadol Plant sy'n Derbyn Gofal (PDG) yn sylweddol. Fodd bynnag, mae adroddiadau diweddar y llywodraeth a chanllaw genedlaethol yn awgrymu ar hyn o bryd, nad yw'r rheini yn 'rheng flaen' addysg yn cael y gefnogaeth ddigonol gyda'r dasg hon. Yn fwyaf penodol ceir diffyg gwybodaeth, cyngor a hyfforddiant i helpu gweithwyr proffesiynol i ddeall profiadau ac anghenion plant sy'n dod i'r system gofal a sut y gallant gefnogi'r grŵp amrywiol hwn hefyd. O ganlyniad, diben paratoi'r adnodd hwn yw cynorthwyo o ran darparu gwybodaeth a chyngor allweddol a fydd yn cyflawni'r rôl hon.

Heriau y mae plant a phobl ifanc yn y system gofal yn eu hwynebu

Bydd llawer o'r plant sy'n derbyn gofal wedi cael y profiad o anfantais a thrawma hirdymor a difrifol a oedd yn rhan o'r amgylchiadau a arweiniodd at yr angen i'r Awdurdod Lleol weithredu. Gwyddom fod trawma, esgeulustod, camdrin rhywiol ac emosiynol yn effeithio ar ddatblygiad a dysgu plentyn drwy gydol ei fywyd. Fel pobl broffesiynol yn gweithio mewn ysgolion, ni allwn newid yr hyn sydd wedi digwydd, ond fe allwn ddeall a bod yn ymwybodol o'r profiadau y mae rhai plant wedi eu dioddef a'u cefnogi i'w goresgyn fel y gallan nhw ddatblygu i fod yn oedolion annibynnol, hapus a llwyddiannus.

Yn ychwanegol, ceir tystiolaeth glir, nad yw systemau addysg ledled Cymru wedi bod yn effeithiol wrth gefnogi Plant sy'n Derbyn Gofal. Yn ystod eu cyfnod mewn gofal, mae'n bosibl y byddant yn cael profiadau, a fydd i ni fel addysgwyr, y tu hwnt i'n rheolaeth, er enghraifft, lleoli mewn aml le gofal, gwahanu o'u brodyr a'u chwiorydd. Fodd bynnag, y mae'n bwysig cydnabod fod yna hefyd nifer o elfennau y gallwn ddylanwadu arnynt un ai'n uniongyrchol (er enghraifft yr angen am sgiliau cymwys a hyderus mewn llythrennedd) neu'n anuniongyrchol (manteision ymgysylltu â gweithgareddau y tu allan i'r ysgol). Mae'r ddogfen hon yn ceisio mynd i'r afael â'r meysydd hyn.

CYNNWYS

Rhagair

Cyflwyniad

Pennod un
Gwybodaeth hanfodol: ffeithiau a therminoleg

Pennod dau
Yr hyn sydd angen i bawb ei wybod a'i ddeall am blant yn y system gofal

Pennod tri
Ysgolion sy'n Ystyrlon i PDG
Adran 1 : Agwedd Ystyrlon o PDG yr ysgol gyfan
Adran 2 : Agweddau Ataliol: adeiladu gwytnwch ein PDG
Adran 3 : Strategaethau Ymatebol i gefnogi PDG sy'n cyflwyno eu hunain â rhagor o heriau

Pennod pedwar
Gweithio ag eraill
Lleisiau'r plentyn a'r bobl ifanc
Y gofalwr maeth
Y gweithwyr proffesiynol eraill

Pennod pump
Cyngor a gwybodaeth

Pennod chwech
Cyfeiriadau

Rhagair

Mae'r dystiolaeth yn glir: mae plant sy'n derbyn gofal yn llawer llai tebygol na phlant eraill o wneud yn dda yn yr ysgol, ac yn llai tebygol fyth o fynd ymlaen at addysg bellach ac uwch. Mae'r heriau maen nhw'n eu hwynebu yn eu bywydau ifanc eu hunain - hunaniaeth, lle, diogelwch, cariad ac anogaeth - sef y pethau y byddai eraill yn eu cymryd yn ganiataol - yn aml yn dod cyn ymryson am lwyddiant academaidd. Mae dyletswydd arnom ni oll i ymgymryd â'r cyfrifoldeb mawr o fod yn rhieni corfforaethol - awdurdodau lleol, ysgolion, gweithwyr iechyd ac eraill - i weithio'n galetach i sicrhau fod ein plant yn cael y cyfleoedd gorau y gallwn eu darparu, i oresgyn y rhwystrau hyn, ac i gau'r bwlch. Rwyf yn croesawu'r adnodd hwn yn fawr; adnodd a fydd, gobeithio, yn cael ei ddefnyddio i'r perwyl hwnnw, a diolchaf i bawb sy'n rhoi o'u hamser ac egni i roi'r dechrau gorau posibl i bobl ifanc.

Rhagair oddi wrth y Cynghorydd Hopkins (RhCT) (2016).

Ein plant ni yw'r plant sy'n derbyn gofal, ac ym Merthyr Tudful rydym yn angerddol am sicrhau bod pob un ohonynt yn derbyn y gefnogaeth a'r anogaeth angenrheidiol i gyflawni'u potensial llawn. Mae gan bob un ohonom ran i'w chwarae fel Rhieni Corfforaethol, ac i fod yn llwyddiannus rydym yn dibynnu ar ddull tîm, gan weithio'n effeithiol gyda'n gilydd i oresgyn rhwystrau a sicrhau sefydlogrwydd a llwyddiant i'n plant a'n pobl ifanc. Rwy'i mor falch fod Rhifyn Cyntaf yr adnodd hwn wedi cael derbyniad mor dda - mae'n offeryn gwerthfawr i gefnogi ysgolion a'r holl asiantaethau wrth iddynt weithio gyda phlant sy'n derbyn gofal i gyflawni'r deilliannau gorau. Mae'r Ail Rifyn, sydd i'w ddosbarthu ar draws Consortiwm Canolbarth y De, yn cynnig cyfle pellach i rannu gwybodaeth werthfawr ac arferion gorau craff. Diolch i bawb sy'n gweithio mor angerddol a diwyd i gefnogi'r gwaith hwn.

Rhagair oddi wrth y Cynghorydd Chris Davies (MT) (2021).

Diolchiadau a chydnabyddiaethau

Cafodd cynnwys yr adnodd hwn ei gefnogi'n fawr gan y rheini a gyfranogodd yn y grwpiau ffocws a gafodd eu defnyddio fel sail i bennod 4. Heb eu mewnbwn, a mewnbwn y bobl ifanc y caiff eu safbwyntiau eu dyfynnu yma, ni fyddai ansawdd y gwaith hwn hanner cystal. Diolch yn arbennig i Dynamix am eu gwaith gyda'r bobl ifanc.

Diolch enfawr i chi...

Diolch i chi, y bobl sydd wedi bod fwyaf dylanwadol wrth ddatblygu ein dealltwriaeth ynghylch gwella bywydau'r plant sy'n derbyn gofal (PDG). Mae eich gwybodaeth a'ch profiad wedi cael dylanwad anferthol yn genedlaethol, yn cefnogi gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio yn y maes. Cafodd llawer o'ch meddyliau a'ch addysgu eu defnyddio i danategu'r hyn a gyflwynwyd yn yr adnodd hwn ac fe'i hargymhellir yn fawr i'r rheini sydd am ddysgu rhagor. Felly, yn benodol, dyma nhw:

Louise Bombèr, Kim Golding, Heather Gedder, Dan Hughes a Marie Delaney. Heb anghofio'r rheini ohonoch sydd wedi gweithio'n uniongyrchol gyda PDG ac sydd mor eithriadol o ran gwella ansawdd eu bywydau.

Ym mis Ebrill 2019, gyda chefnogaeth gan Kirsty Williams AC, cymeradwyodd Llwyddiant i Bawb (A4A) yr adnodd ar gyfer yr ysgolion hynny sy'n ystyrlon o PDG, a'i ddefnyddio fel sail i'w deunydd ar-lein sef "Adnodd Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal ar gyfer Cymru"

Ysgolion sy'n Ystyrlon o Blant sy'n Derbyn Gofal

Paratowyd gan:
Andrea Higgins
Jessica Jones
Hannah Bevan
Erica Beddoe

Datblygwyd gan:
Andrea Higgins

Gosodiad a Dyluniad gan:
Argraffu a Dylunio Graffig Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
Adnodd ar y cyd yw hwn rhwng Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf a gafodd ei gomisiynu trwy ddefnyddio'r Grant Datblygu Disgyblion i Blant sy'n Derbyn Gofal (GDD PDG)

Awdurdodau Lleol Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful

(Ail Rifyn 2021)

YSGOLION SY'N YSTYRLON O BLANT SY'N DERBYN GOFAL

RHONDDA CYNON TAF

Cyngor Bwrdeistref Sirol
MERTHYR TUDFUL
MERTHYR TYDFIL
County Borough Council

Gweithio ynghyd mewn partneriaeth